



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
15/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:
16/03/2021

Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg

Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg

Awduron:

Stuart Harries a Sioned Lewis, Arad Research

gan gydweithio gyda:

Iaith Cyf.

Mabon ap Gwyn a Tanwen Grover, Arad Research

Harries, S. a Lewis, S. (2021) <i>Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg</i>, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 15/2021 https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-sabothol-iaith-gymraeg-ar-gyfer-ymarferwyr-addysg
--

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ymchwil.Cymraeg@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Tabl cynnwys	1
Rhestr ffigurau	2
1. Cyflwyniad	4
2. Methodoleg	7
3. Cefndir Gweithredu'r Cynllun Sabothol	14
4. Theori Newid	25
5. Canfyddiadau	44
6. Casgliadau ac Argymhellion	72
Llyfryddiaeth.....	80
Atodiad A: Gwybodaeth am gyrsiau'r Cynllun Sabothol	81
Atodiad B: Canllawiau Holi.....	83

Rhestr ffigurau

Ffigur 2.1: Fframwaith samplu – cyfweliadau fesul cwrs a fesul blwyddyn academiaidd	9
Ffigur 2.2: Fframwaith samplu: nifer yr ymarferwyr a gafodd eu cyfweld fesul blwyddyn academaidd.....	10
Ffigur 3.1: Model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu	18
Ffigur 4.1: Gorolwg o Theori Newid y Cynllun Sabothol.....	27
Ffigur 4.2: Theori Newid y Cam Cynllunio Gweithgareddau	29
Ffigur 4.3: Theori Newid y Cam Cynllunio Gweithgareddau: anghenion data	30
Ffigur 4.4: Theori Newid Gweithredu'r Cynllun	34
Ffigur 4.5: Theori Newid Gweithredu'r Cynllun: anghenion data	35
Ffigur 4.6: Theori Newid allbynnau a chanlyniadau'r Cynllun	38
Ffigur 4.7: Theori Newid allbynnau a chanlyniadau'r Cynllun: anghenion data	39
Ffigur 4.8: Theori Newid y canlyniadau tymor hwy.....	41
Ffigur 4.9: Theori Newid y canlyniadau tymor hwy: anghenion data	42
Ffigur A.1: Crynodeb o gynnwys y cyrsiau	81
Ffigur A.2: Crynodeb o hanes y Cynllun Sabothol	82
Canllaw holi: ymarferwyr	83
Canllaw holi: penaethiaid/uwch dîm.....	83
Canllaw holi: Llywodraeth Cymru – tîm Sabothol.....	83
Canllaw holi: Llywodraeth Cymru - rôl anuniongyrchol/ strategol.....	83
Canllaw holi: swyddogion rhanbarthol.....	83
Canllaw holi: darparwyr hyfforddiant.....	83

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Consortiwm a Consortiwm addysg rhanbarthol	Corff sy'n darparu gwasanaethau addysg i gefnogi ysgolion mewn rhanbarth yw consortiwm. Ceir pedwar consortiwm: GwE (Gogledd Cymru); ERW (Gorllewin a Chanolbarth Cymru); Consortiwm Canolbarth y De; a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, GCA/EAS (De ddwyrain Cymru).
CSGAau	Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg
(Cwrs) Mynediad	Cwrs amser llawn, 5 wythnos, ar gyfer cynorthwyyr dysgu sydd yn gweithio mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
(Cwrs) Sylfaen	Cwrs amser llawn, 11 wythnos, ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
(Cwrs) Canolradd	Cwrs newydd ers 2018. Mae'r cwrs wedi'i anelu at ymarferwyr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
(Cwrs) Uwch	Cwrs rhan amser neu lawn amser. Mae'r model darparu a'r gynulleidfa darged yn amrywio; er enghraifft, ceir cyrsiau sydd yn ddeuddydd yr wythnos am dymor, neu gyrsiau bloc byrrach. Anelir y cyrsiau Uwch at athrawon neu gynorthwyyr dysgu sydd yn siaradwyr Cymraeg eisoes, ac sydd yn addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, yn bennaf.
Cymraeg mewn Blwyddyn	Cwrs newydd ers Medi 2017; un flwyddyn amser llawn, ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
Theori Newid	Dull o gynllunio a gwerthuso yw theori newid sy'n esbonio sut mae gweithgareddau rhaglen neu brosiect yn cyfrannu at gadwyn o newidiadau sy'n arwain at yr effeithiau a fwriadwyd.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg ('y Cynllun'). Cafodd Arad, gan weithio gydag Iaith Cyf., ei gomisiynu i gwblhau'r gwerthusiad. Casglwyd y dystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2020.

Ynglŷn â'r Cynllun Sabothol

- 1.2 Mae'r Cynllun yn cynnig cyfnodau o astudio dwys, i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth, er mwyn i ymarferwyr addysg ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg a meithrin hyder mewn methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Gymraeg. Mae rhaglen o gyrsiau yn cael eu darparu ledled Cymru o dan gytundeb gyda Llywodraeth Cymru.
- 1.3 Mae'r cyrsiau ar gael ar wahanol lefelau:
- Mynediad: Cwrs amser llawn, 5 wythnos, ar gyfer cynorthwyyr dysgu sydd yn gweithio mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
 - Sylfaen: Cwrs amser llawn, 11 wythnos, ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
 - Uwch: Cwrs rhan amser neu lawn amser. Mae'r model darparu a'r gynulleidfa darged yn amrywio; er enghraifft, ceir cyrsiau sydd yn ddeuddydd yr wythnos am dymor, neu gyrsiau bloc byrrach. Anelir y cyrsiau Uwch at athrawon neu gynorthwyyr dysgu, sydd yn siaradwyr Gymraeg eisoes, ac sydd yn addysgu mewn ysgolion cyfrwng Gymraeg neu ddwyieithog, yn bennaf.
 - Cymraeg Mewn Blwyddyn: Cwrs newydd ers Medi 2017; un flwyddyn amser llawn, ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
 - Canolradd: Cwrs newydd ers 2018. Mae'r cwrs wedi'i anelu at ymarferwyr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
- 1.4 Cyfeirir at y cyrsiau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch gyda'i gilydd fel 'cyrsiau bloc' yng ngweddill yr adroddiad hwn, er mwyn eu gwahaniaethu oddi wrth y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn. Ceir rhagor o wybodaeth ar gynnwys a ffurf y cyrsiau yn Atodiad A.
- 1.5 Datblygwyd y Cynllun yn wreiddiol fel peilot yn 2005 er mwyn cyflawni amcan *Iaith Pawb* (y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar y pryd) o gynyddu

cyflenwad yr ymarferwyr a fyddai'n gallu addysgu a hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ystod o bynciau cyn- ac ôl-16. Ariannwyd y cynllun peilot cychwynnol rhwng 2005 a 2007 ar y cyd gan ELWa a Llywodraeth Cymru, trwy gynllun grant i Brifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd.¹ Cafodd y peilot ei ymestyn hyd at fis Awst 2010. Rhwng Ionawr 2006 a Gorffennaf 2010 cwblhaodd 240 o ymarferwyr y cwrs Sabothol.² Sefydlwyd cytundebau newydd trwy ymarfer caffael ar gyfer darparu cyrsiau yn y cyfnod 2011-14 ar lefel Uwch, Mynediad a Sylfaen mewn tri lleoliad: Bangor, Caerdydd a Chaerfyrddin. Ym Medi 2014 cychwynnodd Llywodraeth Cymru ar gyfnod cytundebu newydd. Cafodd yr adroddiad hwn ei ddrafftio tua diwedd cyfnod y cytundebau hyn, a dyfarnwyd cytundebau newydd ar gyfer darpariaeth o fis Medi 2020 ymlaen. Ceir rhagor o fanylion am gyfnodau cytundebu'r Cynllun ers 2005 yn Atodiad A.

1.6 Y cyfnod dan sylw, a bennwyd ym manyleb y tendr gwerthuso, oedd y blynyddoedd academiaidd 2013/14 hyd at 2018/19. Yn ystod y cyfnod hwn gwnaeth 1,299 o ymarferwyr gymryd rhan yn un o'r cyrsiau. O'r rhain gwnaeth:

- **463** o ymarferwyr fynychu'r cwrs Mynediad;
- **368** o ymarferwyr fynychu'r cwrs Sylfaen;
- **175** o ymarferwyr fynychu'r cwrs Uwch i athrawon a **175** o ymarferwyr fynychu'r cwrs Uwch i gynorthwyr;
- **14** o ymarferwyr fynychu cwrs Canolradd (cwrs newydd a gafodd ei gyflwyno fel rhan o'r Cynllun yn 2018);
- **104** o ymarferwyr fynychu'r cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn.

Nod y gwerthusiad a'r dulliau ymchwil

1.7 Nod y gwerthusiad oedd asesu traweffaith y Cynllun ac archwilio dwy elfen:

- sut, ac i ba raddau, y mae'r Cynllun yn cyfrannu at newid yn y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu neu yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion, a
- cyfraniad y Cynllun i ddarpariaeth datblygiad proffesiynol iaith Gymraeg neu gyfrwng Cymraeg i ymarferwyr.

¹ ELWa – Y corff cyhoeddus oedd yn gyfrifol am addysg a dysgu ôl-16 yng Nghymru rhwng 2000 a 2006.

² Datblygwyd y cyrsiau Sabothol gan ddarparwyr yn ystod y cyfnod o Medi 2005 i Ionawr 2006; cafodd y cwrs cyntaf ei ddarparu yn Ionawr 2006.

1.8 At hynny, gosodwyd yr amcanion hyn i'r gwerthuswyr:

- archwilio cyfraniad y Cynllun i arferion addysgu a darpariaeth gwricwlaidd ysgolion;
- archwilio i ba raddau mae'r Cynllun yn cael ei ddefnyddio'n strategol i greu newid;
- archwilio cyfraniad y Cynllun o ran datblygu sgiliau a gallu ymarferwyr, yng nghyd-destun ehangach eu datblygiad proffesiynol;
- cyflwyno argymhellion ar gyfer datblygiad strategol y Cynllun yng nghyd-destun ehangach darpariaeth datblygiad proffesiynol i ymarferwyr;
- cyflwyno argymhellion ynghylch anghenion tystiolaeth pellach (os yn berthnasol) i fonitro effaith y Cynllun yn y dyfodol.

1.9 Wrth asesu effaith y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r ffactorau ehangach sydd yn dylanwadu ar y Cynllun ac a allai hefyd fod yn arwain at newid yn y modd mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu neu ei defnyddio fel cyfrwng addysgu. Ymysg y ffactorau eraill mae'r cyd-destun polisi addysg a chyfleoedd datblygu eraill. Cynhwyswyd y ffactorau allanol hyn yn y broses o ddehongli'r theori newid sy'n sail i'r Cynllun (gweler Pennod 4).

2. Methodoleg

- 2.1 Defnyddiodd y gwerthusiad gyfuniad o ddulliau er mwyn archwilio'r prif gwestiynau ymchwil. Nod y dulliau cymysg oedd sicrhau bod y gwerthusiad yn seiliedig ar sylfaen o dystiolaeth mor eang ag oedd modd gan gynnwys ymchwil pen desg a chyfweiliadau gydag amrediad o randdeiliaid a chyfranogwyr. Mae gweddill y bennod hon yn rhoi mwy o fanylion ynghylch pob dull.
- 2.2 Roedd datblygu theori newid yn elfen ganolog o'r astudiaeth, a chynhaliwyd yr ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid a sampl fechan o ymarferwyr a phenaethiaid er mwyn archwilio mewn mwy o ddyfnder y materion a amlygwyd wrth i'r theori gael ei datblygu. Mae angen cadw mewn cof, felly, nad yw'r dystiolaeth a gasglwyd am brofiadau ymarferwyr ac ysgolion unigol o anghenraid yn cynrychioli profiadau buddiolwyr y Cynllun yn ehangach.

Dulliau casglu tystiolaeth

- 2.3 Er mwyn ateb y cwestiynau ymchwil, cynlluniwyd gwerthusiad i gasglu tystiolaeth ynghylch mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau'r Cynllun. Roedd y fethodoleg yn cynnwys ymchwil ddesg, cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid, cyfweiliadau gydag ymarferwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y cyrsiau, a chyda penaethiaid a / neu aelodau uwch dîm rheoli ysgolion a oedd wedi rhyddhau staff i fynychu'r cyrsiau.

Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid

- 2.4 Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda swyddogion o'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol a Llywodraeth Cymru, yn wyneb yn wyneb a dros y ffôn, yn unol â dewis y cyfweilai. Diben y cyfweiliadau hyn oedd galluogi'r tîm gwerthuso i archwilio'n fanwl y broses o gynllunio a rheoli'r Cynllun, deall cefndir y Cynllun, a thrafod y cyd-destun polisi. Yn ogystal, cyfwelwyd swyddogion Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a chynhaliwyd cyfweiliad ffôn gyda'r unigolyn sydd yn gyfrifol am gymedroli'r cyrsiau.

Ymchwil desg

- 2.5 Cynhaliwyd adolygiad o ddogfennau'r Cynllun (cytundebau, adroddiadau monitro, data mynychwyr, a sampl o 80 o ffurflenni cais) a dogfennau polisi perthnasol er mwyn cael dealltwriaeth o'r cyd-destun ehangach y mae'r Cynllun yn gweithredu ynddo, yn ogystal â'r prosesau sy'n gysylltiedig gyda chynllunio a darparu cyrsiau a recriwtio ymarferwyr i gymryd rhan. Gwnaeth y wybodaeth hon hefyd gyfrannu at ddatblygu'r theori newid - gweler Pennod 4.

Cyfweliadau gyda darparwyr y cyrsiau

- 2.6 Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr o'r tri darparwr hyfforddiant, yn cynnwys cydlynwyr a'r tiwtoriaid sy'n gyfrifol am ddarparu gwahanol gyrsiau. Yn ystod y trafodaethau hyn archwiliwyd:

- Mewnbwn y darparwyr hyfforddiant i'r broses ymgeisio a'u cyswllt gydag ymarferwyr ac ysgolion cyn y cwrs;
- Dyluniad y cyrsiau a'r modd y maent wedi datblygu dros amser;
- Y cyswllt rhwng cynnwys y cyrsiau a darpariaeth gwricwlaidd mewn ysgolion a'r pwyslais a roddir ar fethodolegau addysgu ail iaith;
- Trefniadau rheoli a chraffu i sicrhau bod y cyrsiau yn cael eu darparu i safon uchel, yn ogystal â threfniadau cyfathrebu rhwng y darparwyr hyfforddiant a Llywodraeth Cymru;
- Trefniadau monitro'r cynnydd a wnaed gan gyfranogwyr y cwrs ac unrhyw ddata monitro/gwerthuso perthnasol arall y mae darparwyr yn ei gasglu.

Cyfweliadau gydag ymarferwyr

- 2.7 Rhannodd Llywodraeth Cymru gronfa ddata gydag Arad o'r holl ymarferwyr a oedd wedi mynychu cwrs Sabothol yn ystod y cyfnod Medi 2013-Awst 2019. Defnyddiodd Arad y rhestr hon i lunio fframwaith samplu cyfweliadau ymarferwyr (Ffigur 2.1) a oedd yn sicrhau cynrychiolaeth o gyfranogwyr o bob cwrs a gynigiwyd gan y tri darparwr ar draws pob blwyddyn rhwng 2013 a 2019. Dewiswyd cyfranogwyr ar hap o'r bas data i gyfateb i'r sampl hon ac anfonwyd e-bost gwahodd, ac un e-bost atgoffa, allan mewn sypiau. Araf oedd yr ymateb ar y cyfan, felly tua diwedd y cyfnod gwaith maes rhoddwyd blaenoriaeth i gyrraedd y nifer ofynnol o gyfweliadau dros gadw yn dynn at y fframwaith samplu. Dros y cyfnod gwaith maes anfonwyd gwahoddiad e-bost at ddwy ran o dair o'r ymarferwyr ac arweiniodd hyn at 46 cyfweliad manwl dros y ffôn.

- 2.8 Nodir nifer yr ymarferwyr a gyfwelwyd yn Ffigur 2.1, sy'n dangos y trawstoriad fesul cwrs a blwyddyn academiaidd. Roedd yna drawstoriad o gyfweliadau fesul darparwr:
- Gogledd Cymru (Prifysgol Bangor yn darparu) - 11 cyfweliad.
 - De-orllewin a Chanolbarth Cymru (Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn darparu) – 22 cyfweliad.
 - Canolbarth De Cymru a De-ddwyrain Cymru (Prifysgol Caerdydd yn darparu) - 13 cyfweliad.
- 2.9 Yn rhan fwyaf yr achosion, roedd nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd yn cyfateb yn weddol agos i'r nifer yn y sampl arfaethedig. Roedd nifer y cyfweliadau a gyflawnwyd gyda chyfranogwyr a fu ar gyrsiau Sylfaen, a'r rheiny a fu ar gyrsiau yn y cyfnod 2016-17, yn fwy nag oedd wedi'i gynllunio, tra roedd y nifer a gyfwelwyd o'r cwrs uwch ar gyfer cynorthwywyr dosbarth yn is na'r sampl arfaethedig.

Ffigur 2.1: Fframwaith sampl – cyfweliadau fesul cwrs a fesul blwyddyn academiaidd

Cwrs		Blwyddyn y cwrs						Cyfanswm
		Medi '13 – Awst '14	Medi '14 – Awst '15	Medi '15 – Awst '16	Medi '16 – Awst '17	Medi '17 – Awst '18	Medi '18 Awst 19	
Mynediad	Cyfanswm cyfranogwyr	76	56	91	81	92	67	463
	<i>Sampl arfaethedig</i>	2	2	2	2	2	2	12
	Cyflawnwyd	1	2	4	3	1	1	12
Sylfaen	Cyfanswm cyfranogwyr	69	91	61	74	59	14	368
	<i>Sampl arfaethedig</i>	2	2	2	2	2	2	12
	Cyflawnwyd	0	2	3	7	6	2	20
Uwch ar gyfer cynorthwywyr dosbarth	Cyfanswm cyfranogwyr			48	50	55	22	175
	<i>Sampl arfaethedig</i>	-	-	2	2	2	2	8
	Cyflawnwyd				1	1		2
Uwch ar gyfer athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd	Cyfanswm cyfranogwyr	35	32	42	32	22	12	175
	<i>Sampl arfaethedig</i>	1	2	2	2	2	1	10
	Cyflawnwyd	2	3	2	1	1	1	10
Canolradd (Hefyd wedi gwneud cwrs Sylfaen)	Cyfanswm cyfranogwyr						14	14
	<i>Sampl arfaethedig</i>	-	-	-	-	-	1	1
	Cyflawnwyd	-	-	-	-	-	2	2
Cyfanswm	Cyfranogwyr	180	179	242	237	228	129	1,195
	<i>Sampl arfaethedig</i>	5	6	8	8	8	8	43
	Cyflawnwyd	3	7	9	12	9	6	46

Cymraeg Mewn Blwyddyn

- 2.10 Cynhaliwyd wyth cyfweiliad gydag athrawon a fu ar y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn - gweler Ffigur 2.2. Roedd y sampl hon yn cyfateb i tua saith y cant o'r holl ymarferwyr a oedd wedi mynychu'r cwrs hwn yn ystod 2017/18 a 2018/19. Mae hyn yn gyfran uwch o ymarferwyr o'i gymharu â'r sampl ar gyfer cyrsiau bloc, yn fwiadol felly gan fod y cwrs yn un gymharol newydd sydd heb ei werthuso o'r blaen.
- 2.11 Dewiswyd yr 8 ymarferydd ar hap o garfannau o fewn pob blwyddyn (5 o garfan 2017/18 a 3 o 2018/19) a gwahoddwyd hwy i gymryd rhan mewn cyfweiliad ffôn trwy e-bost.

Ffigur 2.2: Fframwaith samplu: nifer yr ymarferwyr a gafodd eu cyfweld fesul blwyddyn academiaidd

Cwrs	Y flwyddyn academiaidd			Cyfanswm
		Medi '17 – Awst '18	Medi '18 – Awst '19	
Cymraeg Mewn Blwyddyn	Cyfanswm cyfranogwyr	36	67	104
	Sampl arfaethedig	3	5	8
	Sampl a gyflawnwyd	3	5	8

- 2.12 Manteisiwyd hefyd ar y cyfle i gasglu tystiolaeth gan unigolion tra eu bod yn cymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg Mewn Blwyddyn gan y tri darparwr yn y flwyddyn academiaidd 2019/20. Galluogodd amserlen y gwaith maes i'r gwerthuswyr gwrdd â'r ymarferwyr oedd ar y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn yn ystod yr ymweliadau â'r darparwyr hyfforddiant. Roedd y gwaith maes hwn ar ffurf grŵp trafod gyda'r dosbarth cyfan mewn dau achos, a thrafodaethau gydag unigolion ac mewn grwpiau bychain o ddau neu dri yn yr achos arall. Rhoddodd hyn gyfle i gasglu gwybodaeth ar brofiadau ymarferwyr tra ar y cwrs, eu gofidiau a'u dyheadau at ddychwelyd i'r ysgol, ac yn gyfle i fireinio'r canllaw holi i'r ymarferwyr (Atodiad B).

Cyfweiliadau gyda phenaethiaid ac uwch reolwyr

- 2.13 Yn ogystal â chyfweiliadau gydag ymarferwyr a dderbyniodd hyfforddiant drwy'r Cynllun, cynhaliwyd cyfweiliad ffôn gyda sampl o 26 o benaethiaid ac uwch reolwyr lle'r oedd ymarferwyr o'u hysgol wedi dilyn cwrs Sabothol.
- 2.14 Y nod gwreiddiol oedd cyfweld â 40 o benaethiaid, gyda'r bwriad y byddai 30 ohonynt yn cael eu dewis o blith yr ysgolion a gynrychiolwyd yn y sampl o ymarferwyr a gyfwelwyd. Y rhesymeg dros hyn oedd cael persbectif sefydliad cyfan

o'r manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant. Profodd y dull hwn o ddewis sampl o benaethiaid yn heriol. Nid oedd manylion cyswllt y pennaeth yn rhan o'r gronfa ddata cyfranogwyr a rannwyd gyda'r gwerthuswyr, felly gofyn am gyfweiliad ffôn gyda phenaethiaid trwy gysylltu ar e-bost cyffredinol yr ysgol oedd y dull a ddewiswyd. Anfonwyd dau e-bost allan i benaethiaid yr ysgolion lle'r oedd y cyfranogwyr a gyfweilwyd yn gweithio, ond isel fu'r ymateb. Llwyddwyd i gysylltu â saith yn unig o'r penaethiaid a oedd yn cyfateb i ysgolion y cyfranogwyr drwy'r dull hwn. Er mwyn sicrhau bod digon o fewnbwn penaethiaid, newidiwyd y dull at un o ddewis sampl cyfleus o benaethiaid i'w cyfweld yn ystod wythnosau diwethaf y gwaith maes. Tua diwedd y gwaith maes bu'n rhaid tynnu llinell ar y cyfweiliadau ychydig yn gynnar gan fod ysgolion yn paratoi i addysgu o bell yn sgil argyfwng COVID-19. Cynhaliwyd cyfweiliad ffôn gyda 26 o benaethiaid.

- 2.15 Roedd y rhan fwyaf (22 allan o 26) yn benaethiaid mewn ysgolion lle'r oedd mwy nag un ymarferydd wedi cymryd rhan mewn cwrs Sabothol rhwng 2013 a 2019. Roedd wyth o'r penaethiaid hefyd wedi cefnogi athro drwy'r cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn.
- 2.16 Roedd y cyfweiliadau hyn yn gyfle i'w holi am y broses o gefnogi ymarferwyr i gymryd rhan yn y cyrsiau Sabothol yn ogystal â deall y manteision a'r heriau a wynebwyd wrth wneud hyn. Roedd hefyd yn gyfle i drafod sut mae'r sgiliau a'r wybodaeth a ddysgodd yr ymarferwyr yn cael eu defnyddio. Gwnaeth y cyfweiliadau hefyd canolbwyntio ar y gwahaniaeth, os o gwbl, a wnaeth mynychu'r cyrsiau i arferion addysgu'r cyfranogwyr yn y dosbarth yn ogystal ag arferion ehangach, polisiâu, safonau ac ethos ar draws yr ysgol.

Dadansoddi

- 2.17 Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o nodiadau'r cyfweiliadau gydag ymarferwyr a phenaethiaid. Cafodd yr atebion a'r materion a godwyd gan ymatebwyr eu categoreiddio yn ôl themâu ac yn ôl y cwestiynau ymchwil a osodwyd yn y fanyleb wreiddiol. Roedd y broses ar gyfer dadansoddi fel a ganlyn:
1. Adolygwyd sampl ar hap o ddeg o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn gan ddau ymchwilydd (pob un yn adolygu hanner gwahanol y sampl).

2. Cafodd yr ymatebion yn y sampl eu codio i nodi'r materion neu themâu a oedd yn codi amlaf, a chyfarfu'r ddau ymchwilydd i rannu eu nodiadau a chytuno ar restr amodol o brif themâu.

3. Yna adolygodd un o'r ymchwilyddyr yr holl ymatebion oedd yn weddill i bob cwestiwn gan nodi themâu pob ateb, a sicrhau bod y themâu a nodwyd yn aros yn gyson ac i nodi unrhyw themâu newydd. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys nodi amrywiaethau mewn sylwadau ar draws y blynyddoedd, y sefydliadau a lefel cyrsiau.

- 2.18 Cyfweiliadau ansoddol oedd y rhain, ac ni fwriadwyd iddynt fod yn gynrychioliadol o bawb a fu'n rhan o'r Cynllun Sabothol. Y bwriad, yn hytrach, oedd sicrhau trawstoriad o gyfranogwyr ar draws grwpiau blwyddyn a gwahanol gyrsiau. Mae angen cadw hynny mewn cof wrth ystyried y canfyddiadau.

Cryfderau, heriau a chyfyngiadau'r fethodoleg

- 2.19 Nod y gwerthusiad hwn oedd deall sut, ac i ba raddau mae'r Cynllun wedi cyfrannu at y ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu neu yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu, a deall y cyfraniad hwn yng nghyd-destun ehangach y ddarpariaeth datblygiad proffesiynol iaith Gymraeg neu gyfrwng Cymraeg i ymarferwyr. Paratowyd theori newid gyda'r nod o ddatblygu dealltwriaeth o'r cyswllt rhwng mewnbynnau, allbynnau a deilliannau'r Cynllun. Diben y gwaith maes oedd casglu tystiolaeth i lywio a datblygu'r theori newid, ac archwilio'r camau a'r rhagdybiaethau a gynhwyswyd yn y theori newid. Gwnaeth y cyfweiliadau ganolbwyntio'n bennaf ar brofiadau ymarferol y cyfweleion o'r Cynllun. Mantais y dull hwn oedd ei fod yn cynnig cyfle i'r cyfweleion fynegi mewn manylder eu barn a'u profiadau o gymryd rhan yn y Cynllun ac i gyfeirio at enghreifftiau neu esboniadau os yn briodol.
- 2.20 Un o heriau'r dull gweithredu oedd yr amser a'r adnoddau oedd eu hangen i drefnu a chynnal cyfweiliadau ag ymarferwyr a phenaethiaid. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r heriau hyn, cyfwelwyd 54 o ymarferwyr a 26 o benaethiaid fel rhan o'r gwaith maes (tua 4 y cant o holl gyfranogwyr y Cynllun yn ystod y cyfnod dan sylw, 2013 - 2019). Serch y nifer cymharol fechan o gyfweiliadau, sicrhawyd bod trawstoriad o ymarferwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y cyrsiau ar draws pob blwyddyn, yn ogystal ag ymarferwyr a oedd wedi mynychu cyrsiau gan bob un o'r pedwar darparwr hyfforddiant. Cyrhaeddwyd pwynt lle nad oedd safbwyntiau newydd yn

cael eu nodi mewn cyfweliadau, felly gallwn fod yn eithaf sicr bod y data ansoddol a gasglwyd yn ddigon o sail i ateb y cwestiynau ymchwil. Byddai dulliau eraill, megis arolwg, wedi caniatáu casglu ymatebion gan lawer mwy o gyfranogwyr, ond byddai'r wybodaeth honno heb fod wedi gallu cynnwys yr un manylder â'r hyn sy'n bosibl mewn cyfweliad, a hynny o bosibl yn risg o ganfyddiadau llai cadarn.

- 2.21 Mae angen cadw mewn cof, fodd bynnag, fod mwy o gyfranogwyr o 2016-17 a llai o'r cwrs uwch ar gyfer cynorthwywyr dosbarth, nag a fwriadwyd yn wreiddiol, wedi cyfrannu at y gwaith maes. Dylid nodi hefyd bod yr ymatebion a gasglwyd wedi'u cyfyngu i'r ymarferwyr a oedd ar gael ac yn barod i gymryd rhan yn y cyfweliadau. Efallai y byddai gan gyn-gyfranogwyr eraill, na wnaethant ymateb i'r cais am gyfweliad, safbwyntiau a phrofiadau gwahanol.
- 2.22 Roedd hefyd ymateb isel ar y cychwyn i'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda phenaethiaid (neu aelod o'r uwch dîm rheoli) a phenderfynwyd newid y fethodoleg i gasglu barn penaethiaid trwy sampl cyfleus. Cyfyngodd hyn rhywfaint ar allu casglu barn ymarferwyr a phenaethiaid o'r un ysgol, felly collwyd y cyfle i gymharu profiadau cymryd rhan yn yr un cwrs o ddau safbwynt. Fodd bynnag, rhoddodd y dull hwn gyfle i gasglu tystiolaeth o sampl ehangach o ysgolion.
- 2.23 Yr her amlycaf, tua diwedd y cyfnod gwaith maes, oedd dyfodiad COVID-19 a'r symudiad i addysgu o bell. Gwnaeth hyn gyfyngu rywfaint ar y nifer o gyfweliadau a oedd yn bosibl gyda phenaethiaid. Bu'n rhaid canslo gweithdy gyda rhanddeiliaid hefyd. Nod y gweithdy oedd rhoi cyfle i'r rhanddeiliaid adolygu'r theori newid ddrafft, felly nid yw'r theori newid a gyflwynir ym Mhennod 4 wedi cael cymaint o graffu na chymaint o fewnbwn gan rhanddeiliaid ehangach ag y bwriadwyd.
- 2.24 Cyfyngiad arall y dylid ei gofio wrth ddarllen y canfyddiadau yw nad yw'r gwerthusiad hwn yn cynnwys gwaith maes gydag ysgolion nac ymarferwyr nad ydynt wedi cymryd rhan mewn unrhyw gyrsiau Sabothol. Nid yw'r canfyddiadau a adroddir yma, felly, yn cynnwys dadansoddiad o resymau posibl dros beidio â chymryd rhan nac unrhyw ddadansoddiad gwrth-ffeithiol.

3. Cefndir Gweithredu'r Cynllun Sabothol

- 3.1 Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg o'r cyd-destun polisi a chrynodeb o sut mae'r Cynllun yn cael ei gynllunio a'i weithredu. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar ddogfennaeth gefndirol a adolygwyd yn ystod y gwerthusiad, ynghyd â gwybodaeth a rannwyd mewn cyfarfodydd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a'r swyddogion consortia rhanbarthol a staff y darparwyr a gyfwelwyd.

Cyd-destun polisi

Cymraeg 2050

- 3.2 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn cyflwyno'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cydnabyddir cyfraniad y gyfundrefn addysg, a gweithlu sydd â sgiliau ieithyddol cadarn er mwyn cyflawni'r nod hwn (Llywodraeth Cymru 2017a, 2017b).
- 3.3 Er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr, bydd Llywodraeth Cymru yn hybu newidiadau trawsnewidiol sy'n cynnwys:
- Cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna i 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.
 - Gweddnewid sut maent yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny'n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.
 - Cynyddu nifer yr athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 ac i 5,200 erbyn 2050; cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg o 500 i 900 erbyn 2031 ac i 1,200 erbyn 2050; a chynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 ac i 4,200 erbyn 2050. (Llywodraeth Cymru 2017a:12)
- 3.4 Mae gan y Cynllun rôl amlwg i'w chwarae, yn arbennig o ystyried mai'r '[f]laenoriaeth fwyaf fydd cynyddu capasiti'r system i ddiwallu'r angen i ehangu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, ac i ddiwallu'r angen i wella sut caiff y

Gymraeg ei haddysgu yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg. Ym maes addysg statudol, mae hynny'n golygu cynllunio'r gweithlu er mwyn hyfforddi athrawon newydd, cefnogi athrawon dan hyfforddiant a chynorthwyr addysgu, ac ehangu cynlluniau sabothol a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu presennol.' (Llywodraeth Cymru 2017a:43)

Cenhadaeth ein Cenedl

- 3.5 Nododd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau ar gyfer diwygio addysg hyd at 2021 yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl* (Llywodraeth Cymru 2017d). Un o'r blaenoriaethau oedd cefnogi a datblygu gweithwyr addysg proffesiynol 'i addysgu Cymraeg fel iaith fyw a sicrhau cynnydd yn niferoedd y gweithwyr addysg proffesiynol a fydd yn gallu gweithio'n effeithiol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog'. At hyn, nododd y cynllun bod angen 'sefydlu systemau mwy effeithiol ar gyfer cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod digon o athrawon medrus, gan gynnwys y rhai sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg', a 'monitro'r galw am staff mewn meysydd arbenigol o'i gymharu â'r cyflenwad, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru 2017d: 26).
- 3.6 Cyhoeddwyd *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21* (Llywodraeth Cymru 2017c) er mwyn tynnu llinynnau perthnasol *Cymraeg 2050* ac *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* ynghyd. Mae'r cynllun gweithredu 2017-21 yn nodi'r camau sydd angen eu cymryd i ddatblygu'r Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod addysg statudol, ac yn benodol fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys ymrwymiad i 'ddatblygu a gweithredu rhaglen dysgu proffesiynol, gan gynnwys y Cynllun Sabothol iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau bod athrawon, athrawon cyflenwi a staff cymorth yn meddu ar y sgiliau Cymraeg a'r arbenigedd ym maes addysgu'r Gymraeg a chyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru 2017c:27).
- 3.7 Nod penodol yng nghynllun gweithredu *Y Gymraeg mewn addysg* yw ehangu'r Cynllun Sabothol i ddarparu cyfleoedd i ymarferwyr ar draws Cymru gael mynediad i hyfforddiant iaith Gymraeg dwys. Yn y blynyddoedd diweddar mae hyfforddiant wedi ei gynnig yn bennaf drwy'r Cynllun a thrwy'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol a ddyrennir i'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol ('y consortia') - gweler hefyd paragraff 3.25.

Datblygiad Cwricwlwm i Gymru

- 3.8 Arweiniodd yr adolygiad annibynnol 'Dyfodol Llwyddiannus' (Llywodraeth Cymru 2015) ac ymgynghoriad gyda'r gweithlu ac arbenigwyr maes addysg wedi hynny, at ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru. Cyhoeddwyd y fersiwn derfynol o 'Cwricwlwm i Gymru' ar ddechrau 2020 (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae pedwar diben yn sail i'r cwricwlwm newydd, sef datblygu plant a phobl ifanc i fod yn:
- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
 - cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
 - dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd ac yn
 - unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Cyd-destun datblygu proffesiynol

- 3.9 Lanswyd y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol yn 2018, gyda gweledigaeth dysgu proffesiynol i ategu ac integreiddio â'r system addysg yng Nghymru wrth iddi esblygu (Llywodraeth Cymru 2019a). Mae'n nodi hawl pob ymarferydd i ddarpariaeth dysgu proffesiynol, ac mae'n cyd-fynd â nodweddion allweddol eraill y diwygiadau yn y maes addysg megis y safonau proffesiynol newydd, ac ysgolion fel sefydliadau dysgu.
- 3.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i 'ddatblygu proffesiwn addysg o safon uchel' fel y nodir yn *Cenhadaeth ein Cenedl* (Llywodraeth Cymru 2017c:3). Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, nodir y bydd Llywodraeth Cymru 'yn cefnogi athrawon yng Nghymru i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes sy'n myfyrio ar eu hymarfer eu hunain a'i wella er mwyn cymell ac ysbrydoli'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal' (t.24).
- 3.11 Cyhoeddwyd safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ym mis Medi 2017 ac ar gyfer cynorthwywyr addysgu yn 2019 (Llywodraeth Cymru 2019b). Mae'r safonau proffesiynol yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith pob athro – addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesedd a dysgu proffesiynol. Maent yn seiliedig ar 6 gwerth a thueddiad trosfwaol gan gynnwys yr iaith Gymraeg a

diwylliant Cymru. Noda'r safonau ddisgrifyddion o arferion effeithiol mewn perthynas â'r Gymraeg, sef:


[Disgrifydd 'hyrwyddo iaith' i athrawon] Mae'r athro'n gweithredu i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio ei ddealltwriaeth a'i sgiliau Cymraeg, ac i ehangu'r ddealltwriaeth honno a'r sgiliau hynny.

[Disgrifydd 'arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol' hyrwyddo iaith] Mae arweinwyr yn ceisio ac yn manteisio ar bob cyfle i werthfawrogi a hyrwyddo diwylliant Cymru a chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu

- 3.12 Mae datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yn rhan allweddol o wireddu'r cwricwlwm newydd, a lansiwyd model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yn 2017. Wrth wraidd y model mae pedwar diben y cwricwlwm newydd (sef datblygu plant a phobl ifanc i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, cyfranwyr mentrus, dinasyddion egwyddorol, ac unigolion iach a hyderus). Mae'r model yn canolbwyntio ar wireddu saith dimensiwn mewn ysgolion (sef y saith segment yn Ffigur 3.1) sy'n cynnwys creu a chefnogi cyfleoedd dysgu parhaus i'r holl staff. Mae'r saith dimensiwn yn tanlinellu'r hyn y dylai ysgol anelu ato a'r prosesau y mae'n mynd drwyddynt wrth iddi drawsnewid ei hun yn sefydliad sy'n dysgu. O fewn y model, rhoddir y cyfrifoldeb o wireddu'r saith dimensiwn hyn ar unigolion amrywiol, gan gynnwys arweinwyr ysgolion, athrawon, staff cymorth, rhieni a llunwyr polisi lleol.

Ffigur 3.1: Model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu



Ffynhonnell: Ysgolion yng Nghymru yn gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu: PDF rhyngweithiol, ar gael o [Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu](#)

- 3.13 Mae'r model yn tynnu sylw at yr amrywiol randdeiliaid y disgwylir i ysgolion fanteisio arnynt am gymorth ar eu taith fel sefydliad sy'n dysgu. Anogir ysgolion i gynnal arolwg er mwyn sefydlu sut mae'r ysgol yn perfformio fel sefydliad dysgu ar hyn o bryd a nodi meysydd i'w gwella. Gall y canlyniadau hwyluso trafodaethau ymysg staff a llywio'r gwaith o gynllunio gwelliannau ysgolion a dulliau ysgol gyfan ac unigol o ddysgu proffesiynol.
- 3.14 Yng nghyd-destun y datblygiadau uchod, gellir ystyried y cyfnod a gwmpesir yn y gwerthusiad hwn fel un o newid sylweddol i'r gyfundrefn ac i'r proffesiwn addysg.

Cynllun Datblygu Ysgol (CDY)

- 3.15 Mae'n ofynnol i ysgolion baratoi Cynllun Datblygu Ysgol treigl tair blynedd. Dyma gynllun strategol yr ysgol ar gyfer gwella, sy'n nodi'r camau y bydd ysgol yn eu cymryd i wella deilliannau dysgwyr. Disgwylir i ysgolion gynnal hunan-arfarniad rheolaidd o'u perfformiad, a hwnnw sydd i'w ddefnyddio i lywio'r cynllun. Rhaid i'r cynlluniau nodi sut y bydd ysgolion yn cyflawni eu targedau mewn perthynas â'u blaenoriaethau, sut y byddant yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, a sut y maent

yn bwriadu datblygu eu staff er mwyn cyflawni eu blaenoriaethau a'u targedau. Gall ysgolion ddefnyddio cefnogaeth ymgynghorwyr her eu consortia addysg rhanbarthol i'w cefnogi i nodi a gweithredu'r camau angenrheidiol i sicrhau gwelliannau.

Gweithredu'r Cynllun a darparu'r cyrsiau

Hanes y Cynllun Sabothol

- 3.16 Pan ddatblygwyd y Cynllun yn wreiddiol, fel peilot yn 2005, roedd y cyrsiau wedi'u targedu at athrawon a darlithwyr addysg bellach oedd eisoes â sgiliau Cymraeg ac angen cefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu. Dros amser mae'r cyrsiau wedi esblygu i dargedu athrawon a chynorthwywyr addysgu sydd am ddatblygu sgiliau er mwyn addysgu'r Gymraeg fel rhan o'r cwricwlwm.
- 3.17 Mae'r Cynllun wedi bod yn destun gwerthusiadau cyn hyn yn 2007, 2010 a 2014 (Dateb 2007, Llywodraeth Cymru 2010 a 2014). Canfu'r gwerthusiad diweddaraf yn 2014 ddarlun cadarnhaol o'r Cynllun ymysg cyfranogwyr a rhanddeiliaid, a bod teimlad ymysg uwch-reolwyr, cyfranogwyr a swyddogion awdurdodau lleol bod prinder sgiliau iaith Gymraeg yn parhau i fod yn fater sydd angen sylw er mwyn galluogi ysgolion a cholegau i fedru cynyddu darpariaeth Cymraeg a dwyieithog. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys pedwar prif argymhelliad:
- Targedu pwrpasol a strategol: dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol i adnabod dangosyddion ar gyfer llwyddiant y Cynllun sydd yn cefnogi blaenoriaethau eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
 - Mae angen gwella'r lefel o gyfathrebu rhwng awdurdodau lleol/consortia rhanbarthol a gyda darparwyr y cyrsiau.
 - Dylid cymryd camau pellach i godi ymwybyddiaeth ymysg penaeithiaid o gyfleoedd a buddion y Cynllun Sabothol. Hyd y pwynt hwnnw roedd galw wedi bod am y cyrsiau, ond cydnabuwyd bod nifer o'r rhai a fyddai'n gymwys ddim yn ymwybodol o'r cyfle.
 - Cryfhau a gwella ffocws y llwybrau ôl-ofalaeth. Roedd pryderon a / neu ddryswch am ddilyniant ar ôl y cyrsiau yn thema gyffredin drwy gydol y gwaith maes.
- 3.18 Mae'r gwerthusiad hwn yn ail-ganolbwyntio ar rai o'r themâu hyn, yn enwedig cyfraniad y Cynllun i'r ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu neu ei defnyddio mewn

ysgolion. Mae hefyd yn canolbwyntio ar y ffordd y mae'r Cynllun yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol ymarferwyr, o ran y Gymraeg neu'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu.

Ariannu a niferoedd

- 3.19 Caiff y cyrsiau Sabothol eu darparu gan dri darparwr hyfforddiant trwy gytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Y tri darparwr a gytundebwyd i ddarparu yn ystod y cyfnod dan sylw oedd Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Y tri darparwr hyfforddiant yma sy'n gyfrifol am reoli'r gwaith o ddarparu cyrsiau ledled eu hardal, gan gynnwys comisiynu is-gontractwyr i ddarparu rhywfaint o'r hyfforddiant lle bo angen.
- 3.20 Llywodraeth Cymru, ar sail trafodaethau gyda'r consortia rhanbarthol, ac ar sail y gyllideb sydd ar gael, sydd yn pennu nifer y cyrsiau sydd i'w cynnal fesul blwyddyn academiaidd, ar ba lefel (h.y. Mynediad, Sylfaen ayb) ac ym mha leoliad. Ers iddo cael ei lansio yn 2005, mae'r Cynllun hefyd wedi ariannu costau athrawon cyflenwi a chostau teithio a chynhaliadaeth cyfranogwyr i alluogi ysgolion a cholegau i'w rhyddhau i fynychu'r cyrsiau hyfforddi.
- 3.21 Yn y flwyddyn academiaidd 2018/19 roedd cyllideb o £3.38m i weithredu'r Cynllun.³ Yn y flwyddyn academiaidd honno darparwyd:
- cyrsiau bloc ar ystod o lefelau gyda 143 cyfranogwr;
 - 5 cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn mewn 4 lleoliad ar draws Cymru gyda 68 cyfranogwr (Llywodraeth Cymru 2020b).

Mae'r gyllideb ar gyfer y Cynllun wedi cynyddu yn y cyfnod dan sylw, fel a ganlyn: 2013/14 = £1.981m; 2014/15 = £1.850m; 2015/16 = £1.588m; 2016/17 = £1.597m; 2017/18 = £3.050m; 2018/19 = £3.380m.

³ Ffynhonnell: Manyleb y gwerthusiad

Recriwtio

- 3.22 Ers 2017 y consortia a'r awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am dargedu ysgolion a recriwtio ymarferwyr i fynychu'r cyrsiau Sabothol. Ar sail trafodaethau mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r consortia rhanbarthol pa gyrsiau fydd ar gael yn ystod y flwyddyn academaidd i ddod, h.y. lefel y cyrsiau, dyddiadau, lleoliadau a nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae swyddogion y consortia rhanbarthol neu'r awdurdodau lleol wedyn yn mynd ati i roi gwybod i ysgolion ac ymarferwyr am y cyrsiau. Mae'r gwaith o recriwtio yn amrywio ychydig rhwng y rhanbarthau. Mewn dau gonsortium rhanbarthol swyddogion y consortia sydd yn cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion ac yn recriwtio, tra yn y ddau ranbarth arall athrawon ymgynghorol y Gymraeg sy'n ymgymryd â'r gwaith. Mae elfen o rôl recriwtio hefyd yn rhan o gytundeb cyflenwi pob darparwr hyfforddiant, ac yn ôl eu cytundeb, 'disgwylir iddynt weithio'n agos â swyddogion o'r consortia rhanbarthol er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr addas yn cael eu hadnabod a bod ysgolion/sefydliadau eraill yn cael eu targedu i gyfranogi yn y Cynllun'.
- 3.23 Mae gan ddarparwyr hyfforddiant gwtâu o leoedd i'w llenwi, ac mae'r hyfforddiant wedi'i gynllunio ar gyfer grwpiau o tua 10 i 14 ymarferydd ar bob cwrs. Y lleiafswm sydd ei angen er mwyn i gwrs redeg yw 10 ymarferydd cymwys. Os nad yw o leiaf 10 ymgeisydd cymwys wedi ymrwymo i gwrs 6 wythnos cyn y disgwylir iddo ddechrau, yna caiff y cwrs ei atal nes bod nifer digonol o ymarferwyr cymwys ar gael. Os oes lleoedd ychwanegol ar gael, ar ôl llenwi'r lleiafswm o 10, bydd y gwahoddiad i fynychu yn cael ei ymestyn i ymarferwyr eraill, y tu hwnt i'r rhai a dargedwyd yn wreiddiol, gan gynnwys athrawon cyflenwi, er mwyn cyrraedd y cwota o gyfranogwyr sydd eu hangen.
- 3.24 Mae'n rhaid i ymarferwyr sydd eisiau dilyn cwrs Sabothol wneud cais i Lywodraeth Cymru am le. Mae'r ffurflen gais yn gofyn i ymarferwyr a'u rheolwyr llinell esbonio eu rhesymau dros gynnig am le ar y cwrs, sut bydd yr unigolyn yn cyfrannu at gynllun datblygu'r ysgol a sut bydd yr ysgol yn sicrhau bod yr unigolion yn parhau i ddatblygu ei sgiliau iaith Gymraeg ar ôl cwblhau'r cwrs. Mae Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn gwirio bod yr ymgeisydd yn gymwys i fynychu'r cwrs; yna, caiff y cais ei rannu gyda'r darparwr hyfforddiant perthnasol, sydd yn ei dro yn cynnal cyfweiliad gyda'r ymarferydd. Un o nodau'r cyfweiliadau hyn yw canfod a yw lefel iaith yr ymgeisydd yn briodol ar gyfer y cwrs. Yn dilyn y cyfweiliadau mae'r darparwr yn rhannu rhestr o ymgeiswyr llwyddiannus gyda Llywodraeth Cymru, sydd yn rhoi

gwybod i'r ymgeiswyr am ganlyniad eu cais. Cyfrifoldeb y darparwyr yw trafod manylion ymarferol yn ymwneud â mynychu'r cwrs gyda'r unigolion a'r consortia rhanbarthol. Rôl Llywodraeth Cymru ar y pwynt hwn yw gwneud trefniadau i dalu costau cyflenwi a chostau teithio a chynhaliaeth yr ymarferwyr a fydd yn cymryd rhan yn y cyrsiau.

Ar ôl y cyrsiau

- 3.25 Rôl y consortia yw darparu cefnogaeth ddilysol i'r cyrsiau, a hynny trwy gefnogaeth gan yr athrawon bro ac athrawon ymgynghorol i'r ysgolion.⁴ Mae'r consortia rhanbarthol yn derbyn arian penodol trwy Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg y tu hwnt i'r hyn a gynigir gan y cyrsiau Sabothol. Yn 2019-20 a 2020-21, cyfanswm y grant hwn oedd £2.7m. Fel rhan o amodau'r grant mae'r consortia yn paratoi cynlluniau blynyddol ar gyfer darparu dysgu proffesiynol (Llywodraeth Cymru 2019b). Yn eu cynlluniau busnes blynyddol, mae'r pedwar consortiwm yn esbonio eu cynlluniau i ddefnyddio data o'u harolygon sgiliau iaith er mwyn cael dealltwriaeth well o sefyllfa sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol, a defnyddio'r data hwn i gynllunio'r dysgu proffesiynol a gynigir er mwyn cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel rhan o'r cwricwlwm a chynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn nodi eu bwriad i weithio gyda darparwyr hyfforddiant y Cynllun yn eu rhanbarth, ac i gefnogi mentora'r ymarferwyr sydd wedi cwblhau'r Cynllun. Mae'r awdurdodau lleol hefyd yn gosod targedau ar gyfer cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel rhan o'u Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Cynnwys a fformat y cyrsiau: Cyrsiau bloc

- 3.26 Cwrs amser llawn 5 wythnos o hyd yw'r cwrs Mynediad ar gyfer cynorthwywyr dosbarth sydd yn gweithio mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg neu dwy ffrwd. Nod y cwrs yw rhoi'r eirfa a'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol i gynorthwywyr dosbarth allu cefnogi eu cydweithwyr sy'n addysgu.

⁴ Cyflogir Athrawon Bro gan awdurdodau lleol ac maent yn cefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cynradd.

- 3.27 Cwrs dwys amser llawn 11 wythnos o hyd yw'r cwrs Sylfaen ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Nod y cwrs yw cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i athrawon yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, a'u cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg i lefel sylfaen a chymryd y camau nesaf i ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach. Mae'r cwrs yn cynnwys ystod o elfennau megis gwaith llafar, gramadeg, methodoleg, a thasgau ysgrifennu. Er mwyn hyrwyddo rhuglder mae sesiynau yn cael eu neilltuo yn ddyddiol ar gyfer ymarferion siarad mewn parau neu mewn grwpiau. Mae'r ymarferion hyn yn cael eu dylunio yn arbennig ar gyfer deall, ymarfer a chadarnhau cystrawennau newydd.
- 3.28 Mae'r cwrs Canolradd yn gwrs cymharol newydd a dreialwyd yng Nghaerfyrddin yn 2018. Yn ystod y cyfnod dan sylw, roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a oedd yn rhan o'r cwrs hwn (pob un ond 1) yn athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a oedd eisoes wedi mynychu'r cwrs Sylfaen.
- 3.29 Anelir y cyrsiau Uwch at ymarferwyr sydd yn siaradwyr Cymraeg eisoes, naill ai siaradwyr iaith gyntaf neu ddysgwyr sy'n dymuno cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu. Mae modelau'r ddarpariaeth yn amrywio o ddiwrnod neu deuddydd yr wythnos am dymor i gyrsiau bloc 3 wythnos, yn dibynnu ar ofynion yr ymarferwyr a gallu ysgolion i'w rhyddhau i fynychu'r cyrsiau a recriwtio ymarferwyr cyflenwi yn eu lle.

Cynnwys a fformat y cyrsiau: Cymraeg Mewn Blwyddyn

- 3.30 Cwrs newydd ers 2017 yw Cymraeg Mewn Blwyddyn. Yn ystod tymor yr hydref mae'r ymarferwyr yn mynychu'r brifysgol bob dydd ac yn derbyn hyfforddiant ar waith llafar, gramadeg, methodoleg a thasgau ysgrifenedig. Trefnir ymweliadau ag ysgolion eraill ar eu cyfer er mwyn iddynt gael arsylwi ymarferwyr eraill sy'n cyflwyno'r Gymraeg fel pwnc. Yn ystod y tymor mae disgwyl iddynt roi cyflwyniadau byr, e.e. amser cofrestru, amser cylch a chyflwyno cwrs a chyflwyno micro wersi (chwarae rôl addysgu gwersi byrion). Yn nhymor y gwanwyn mae'r hyfforddiant yn y brifysgol yn parhau ond mae'r ymarferwyr yn dychwelyd i'w hysgolion eu hunain am un diwrnod bob wythnos. Maent yn gweithio ar brosiect neu strategaethau i ddatblygu'r Gymraeg yn eu hysgolion yn ystod y dyddiau hyn, ac yn gweithio gyda swyddog o'u consortiwm rhanbarthol neu awdurdod lleol. Yn nhymor yr haf mae'r ymarferwyr yn mynychu'r brifysgol am dri diwrnod yr wythnos, eu hysgolion eu

hunain am un diwrnod, ac ysgol cyfrwng Cymraeg am un diwrnod yr wythnos neu wythnos gyfan yn ystod yr hanner tymor olaf. Maent yn cael cyfle i arsylwi dulliau addysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, ymarfer eu sgiliau Cymraeg, a chyd-addysgu rhai sesiynau.

Cyfleoedd dysgu proffesiynol iaith Gymraeg arall

- 3.31 Nid y Cynllun yw'r unig ffynhonnell hyfforddiant neu ddysgu proffesiynol sydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael i ymarferwyr. Mae yna gefnogaeth i ysgolion gan ymgynghorwyr her eu consortia addysg rhanbarthol y tu hwnt i'r hyn a gynigir gan y cyrsiau Sabothol (mae'r gefnogaeth hon yn cael ei hariannu drwy'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol). Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn cynnig cyrsiau 'blasu' ar-lein am ddim sy'n cyflwyno geirfa ac ymadroddion Cymraeg pob dydd. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig cyrsiau 'Croeso' am ddim sydd yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion syml; mae un fersiwn o'r cwrs wedi ei deilwra ar gyfer ymarferwyr addysg.

4. Theori Newid

- 4.1 Dull o gynllunio a gwerthuso yw theori newid sy'n esbonio sut mae gweithgareddau rhaglen neu brosiect yn cyfrannu at gadwyn o newidiadau sy'n arwain at y deilliannau a fwriadwyd. Paratowyd theori newid fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

Datblygu'r theori

- 4.2 Yn aml, datblygir theorïau newid pan fydd prosiectau'n cael eu cynllunio, er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r newidiadau arfaethedig. Ni ddatblygwyd theori newid ar gyfer y Cynllun yn ystod ei gyfnod cynllunio. Mae'r broses o ddatblygu theori newid ar y pwynt gwerthuso hefyd yn ddefnyddiol gan ei bod yn amlygu'r dangosyddion monitro allweddol sydd eu hangen ac yn nodi a oes bylchau yn y data sydd ar gael. Mae hefyd yn gosod fframwaith ar gyfer asesu a yw'r Cynllun wedi'i gynllunio mewn ffordd sy'n ei alluogi i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir, ac yn darparu strwythur ar gyfer dadansoddi ac archwilio effaith y Cynllun.

Dehongli a datblygu theori newid y Cynllun Sabothol

- 4.3 Man cychwyn datblygu theori newid oedd ymchwil ddesg o adroddiadau cymedrol, gwerthusiadau blaenorol, deunyddiau hyrwyddo'r cyrsiau a thrafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. O'r ymchwil gychwynnol hon nodwyd a chadarnhawyd y prif gamau, o gynllunio i effeithiau tymor hwy sy'n gysylltiedig â'r Cynllun. Nododd yr ymchwil gychwynnol hefyd rai o'r rhagdybiaethau a'r amodau yr oedd angen eu sefydlu i alluogi'r Cynllun i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Defnyddiwyd y canfyddiadau hyn i greu ein theori newid gychwynnol.
- 4.4 Drwy nodi'r camau y mae angen eu cymryd i gyflawni'r newidiadau a ddymunir, ac ystyried hefyd y rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhain, roedd yn bosibl nodi'r data a'r wybodaeth yr oedd angen i'r ymchwil eu casglu er mwyn dangos a yw'r newidiadau hyn wedi digwydd ai peidio. Fe wnaeth hyn, yn ei dro, lywio cynnwys y canllawiau trafod a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfweiliadau gwaith maes (Atodiad B).
- 4.5 Ar ôl cynnal y gwaith maes aeth y tîm gwerthuso ati i addasu a mireinio'r theori ddrafft gan ddefnyddio'r canfyddiadau a'r rhagdybiaethau pellach a ddaeth i'r amlwg. Mae'r theori newid a gyflwynir yn yr adroddiad hwn felly yn un sydd wedi

esblygu yn ystod y gwerthusiad, yn broses sydd wedi llywio'r ymchwil, a hefyd yn offeryn ymchwil sydd wedi'i fireinio yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith maes.

- 4.6 Y bwriad oedd adolygu'r theori ymhellach ar ddiwedd gwaith maes y gwerthusiad trwy gynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid ehangach yn ystod gweithdy. Bu'n rhaid canslo'r gweithdy oherwydd cyfyngiadau a osodwyd yn dilyn COVID-19. Oherwydd hynny prin iawn fu'r drafodaeth ar y theori gan bartneriaid sy'n rhan o'r Cynllun. Dylid ystyried y theori a gyflwynir yma fel un sy'n dal ar ffurf ddrafft, ac yn un a fyddai felly'n elwa o fireinio pellach.


Disgrifiad o theori newid y Cynllun Sabothol

Gorolwg o'r Theori Newid

- 4.7 Y theori sylfaenol sy'n sail i'r Cynllun yw bod angen gwella sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'u defnydd o fethodolegau addysgu, a bod cynnal cyrsiau Sabothol i ffwrdd o'r gweithle yn ffordd dda o wella'r sgiliau hyn. Mae Ffigur 4.1 yn cynnig trosolwg o'r theori newid ac yn dangos y prif gamau rhesymegol, o gynllunio cychwynnol y Cynllun hyd at gyflawni'r canlyniad o wella sgiliau ieithyddol a methodoleg, a chanlyniadau mwy hir-dymor y tu hwnt i hynny.
- 4.8 Mae cam cyntaf y theori yn ymwneud â chynllunio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Y cam nesaf yw'r gweithgareddau recriwtio a darparu hyfforddiant a weithredir o ganlyniad i'r cynlluniau hyn, ac yna allbynnau disgwyledig y gweithgareddau hynny, yn cynnwys gwelliant mewn sgiliau iaith Gymraeg a sgiliau addysgu Cymraeg (neu drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sy'n mynychu cwrs Uwch). Mae'r theori a ddisgrifir yn Ffigur 4.1 yn dangos y dylai cyflawni'r allbynnau hyn arwain at ganlyniadau megis ymarferwyr yn defnyddio mwy o Gymraeg ar draws y cwricwlwm a / neu ddefnyddio Cymraeg mwy cywir yn y dosbarth. Mae'r theori yn dangos y dylai'r deilliannau hyn, yn eu tro, gyfrannu at effeithiau tymor hwy megis gwella dysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion, cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
- 4.9 Yn olaf, mae Ffigur 4.1 yn crynhoi'r rhagdybiaethau neu'r amodau y mae angen iddynt fod ar waith, yn ogystal â rhai o'r ffactorau allanol, sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cynllun e.e. strategaethau a pholisïau cenedlaethol sy'n dylanwadu

ar gynnydd y Cynllun ar hyd y camau hyn. Caiff y rhagdybiaethau hyn a'r ffactorau allanol eu hystyried yn fanylach yn yr adrannau sy'n dilyn.


Ffigur 4.1: Gorolwg o Theori Newid y Cynllun Sabothol



Manylu: Cynllunio'r Cynllun Sabothol

- 4.10 Mae Ffigur 4.2 yn cynnig golwg fanylach ar y theori sy'n dangos yr hyn a all ddylanwadu ar gynllunio'r Cynllun ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghyd â'r rhagdybiaethau cysylltiedig.
- 4.11 Mae ein theori yn dangos sut y gall strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol ddylanwadu ar yr angen am y Cynllun. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod dan sylw yn y gwerthusiad hwn (2013-2019), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050*. Mae'r strategaeth yn gosod targed o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae'r strategaeth yn nodi'r angen i newid y ffordd yr addysgir y Gymraeg yn yr ysgol a chynyddu nifer yr athrawon sydd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, os yw'r targed hwn i'w gyflawni - gweler paragraff 3.3.
- 4.12 Roedd y cyfnod sydd dan sylw yn y gwerthusiad hefyd yn un o newid sylweddol yn y byd addysg, gyda chyhoeddi cwricwlwm newydd sydd yn gosod disgwyliadau ar ysgolion i wella'r modd y caiff y Gymraeg ei haddysgu o Medi 2022 ymlaen. Yn ystod yr un cyfnod cyflwynwyd y safonau proffesiynol newydd sydd yn nodi'r angen i ymarferwyr weithredu i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio a gwella eu dealltwriaeth a'u sgiliau Cymraeg.
- 4.13 Mae'r polisïau a'r strategaethau hyn yn gosod y cyd-destun i'r Cynllun ac yn gyrru'r angen am gynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Rhagdybir bod digon o wybodaeth ar gael am faint o ymarferwyr sydd angen eu huwchsgilio er mwyn cyrraedd y nodau a nodwyd yn y strategaethau hyn, a bod y wybodaeth hon ar gael mewn ffordd sy'n galluogi deall anghenion uwchsgilio ar lefel lleol a lefel ysgol. Cynlluniwyd gwaith maes y gwerthusiad i asesu i ba raddau roedd yna ddigon o wybodaeth ynglŷn â'r angen i uwchsgilio ymarferwyr.

Ffigur 4.2: Theori Newid y Cam Cynllunio Gweithgareddau



4.14 Mae Ffigur 4.2 yn disgrifio'r theori sydd y tu ôl i gynllunio'r Cynllun fel y'i deellir gan y gwerthuswyr, ac yn cyflwyno'r rhagdybiaethau cysylltiedig. Mae peth data ar gael yn barod sy'n medru taflu goleuni ar rai o'r rhagdybiaethau, a chasglwyd rhagor o dystiolaeth yn ystod y gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad. Dyma gaiff ei grynhoi yn Ffigur 4.3 (ac yna'r un fath yn Ffigurau 4.5, 4.7 a 4.9), sef ystyriaeth o'r data sydd ar gael eisoes i feintoli'r hyn sy'n digwydd wrth gynllunio ac i wirio'r rhagdybiaethau; y wybodaeth ychwanegol a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad, a'r bylchau data a gwybodaeth sy'n parhau.

Ffigur 4.3: Theori Newid y Cam Cynllunio Gweithgareddau: anghenion data

Data sydd ei angen	Data sy'n bodoli eisoes a'i ffynhonnell	Data ychwanegol a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad	Bylchau yn y data sydd ar gael
Maint y bwch rhwng y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen, a'r sgiliau sydd gan ymarferwyr. Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth i ni am hyd a lled yr angen i gynyddu sgiliau Cymraeg ymarferwyr. Er mwyn cynhyrchu'r wybodaeth hon bydd angen data ar: - y nifer sydd ei angen o ymarferwyr â gallu i addysgu Cymraeg mewn ysgolion Saesneg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; - nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ffynonellau Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgol (CBGY): Casgliad ar lefel ymarferwyr unigol gan bob ysgol (gan gynnwys gwybodaeth am gyfrwng ieithyddol yr ysgol): lefel sgiliau iaith Gymraeg (yn ôl Fframwaith Cymwyseddau iaith Gymraeg Ymarferwyr Addysg); gweithlu sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg (ac sy'n gwneud hynny ai peidio), ac sy'n addysgu Cymraeg fel pwnc. Yn ogystal bydd y CBGY yn casglu gwybodaeth ynghylch recriwtio i swyddi gwag yn ôl pwnc, ac a oedd yn ofynnol i ymgeiswyr fod yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.⁵ Amllder: blynyddol Cofrestr Ymarferwyr Cyngor y Gweithlu Addysg: gwybodaeth am nifer ymarferwyr yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg; nifer yr ymarferwyr yn ôl eu gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a nifer yr ymarferwyr sydd wedi eu hyfforddi i addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Noder: mae'r Gofrestr yn cynnwys gwybodaeth am ymarferwyr sydd ddim yn addysgu ar y pryd. Amllder: blynyddol Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD): niferoedd ymarferwyr sydd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (Noder: bydd elfennau data am y gweithlu yn CYBLD yn cael eu disodli gan y CBGY yn y dyfodol agos, ond bydd y data yn parhau i fod yn ffynhonnell ar gyfer tueddiadau dros amser) Mae adroddiadau blynyddol ar y cynnydd a wnaed o ran strategaeth <i>Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr</i> yn adrodd ar nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl sector. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnig darlun rhannol, blynyddol ar lefel genedlaethol Ffynhonnell – Adroddiad blynyddol Cymraeg 2050⁶	Casglwyd gwybodaeth a barn rhanddeiliaid (swyddogion consortia rhanbarthol yn benodol) am yr angen am yr hyfforddiant yn eu rhanbarthau.	Data cyson ar lefel cenedlaethol sy'n ymwneud ag anghenion hyfforddiant iaith Gymraeg ymarferwyr. Y gwahaniaeth rhwng y sgiliau Cymraeg sydd ar gael ymhlith ymarferwyr ysgol a'r sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen.

⁵ Mae gwybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru ar y [Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion \(CBGY\)](#)

⁶ *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* - Adroddiad blynyddol 2019–20 ar gael yn [Adroddiad Blynyddol 2019-20 strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#).

	Ar lefel rhanbarthol mae cynlluniau lefel uchel y consortia rhanbarthol yn cael eu cyflwyno'n flynyddol yn eu cynlluniau busnes, ond nid oes manylion ynddynt am fylchau sgiliau gweithlu.		
--	---	--	--


Ffynhonnell - Mae swyddogion rhanbarthol a sirol yn gweithio'n agos gyda'u hysgolion i adnabod anghenion datblygu sgiliau ond nid oes gwybodaeth am hyn wedi ei chyhoeddi.

- 4.15 Disgrifia Ffigur 4.4 y theori sydd ymhlyg yng ngweithgareddau'r Cynllun, sef cynnal y cyrsiau, a recriwtio ymarferwyr i'w mynychu. Mae'r recriwtio'r ymarferwyr mwyaf priodol i'r cyrsiau yn dibynnu ar fodolaeth digon o wybodaeth am hyd a lled yr angen uwchsgilio o fewn y consortia rhanbarthol i'w galluogi i adnabod yr ymarferwyr mwyaf addas. Tybir hefyd bod digon o amser ac adnoddau ar gael i gysylltu ag ysgolion ac ymarferwyr er mwyn rhannu manylion a manteision posibl y cyrsiau yn ogystal ag annog eu cyfranogiad. Mae'r theori hefyd yn nodi bod recriwtio llwyddiannus yn dibynnu ar allu sicrhau mai'r ymarferwyr a fydd yn medru defnyddio'r sgiliau wedi dychwelyd i'r ysgol sy'n cael eu recriwtio i'r cyrsiau.
- 4.16 Roedd y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad i asesu cynnwys a safon y cyrsiau eu hunain, ac mae proses mewn lle ar gyfer cymedroli cynnwys y cyrsiau a ddarperir.⁷ Fodd bynnag, roedd y gwerthusiad yn gallu casglu gwybodaeth ynghylch a oedd cynnwys y cyrsiau yn cyfateb i'r hyn yr oedd ymarferwyr ac ysgolion yn teimlo bod ei angen arnynt. Roedd y gwerthusiad hefyd yn gallu archwilio a oedd y cyrsiau'n cael eu cynnal yn ystod cyfnodau o'r flwyddyn a oedd yn gweddu orau i ysgolion ac ymarferwyr.
- 4.17 Rhagdybir bod parodrwydd a gallu ymarferwyr i fynychu'r cyrsiau hefyd yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys: cefnogaeth gan eu hysgolion a bod yr ysgolion yn barod i'w rhyddhau; bod digon o wybodaeth am y cyrsiau ar gael iddynt, bod y cyrsiau mewn lleoliadau ac ar amserau cyfleus, a bod yr ymarferwyr yn mynychu'r cyrsiau sydd yn addas i'w hanghenion sgiliau nhw fel unigolion ac anghenion sgiliau'r ysgol.
- 4.18 Mae'r theori yn dangos bod ffactorau eraill, y tu hwnt i'r broses o godi ymwybyddiaeth am y Cynllun a'r broses recriwtio, a allai hefyd ddylanwadu ar anghenion ysgolion ac ymarferwyr unigol i gynyddu eu sgiliau Cymraeg ac felly, o bosib, y galw am gyrsiau'r Cynllun. Fel nodwyd ym Mhennod 3 mae ffactorau allanol megis paratoi am gwricwlwm newydd a chyrraedd safonau proffesiynol newydd yn dylanwadu ar y Cynllun, a rhagdybir bod yr ystyriaethau hyn hefyd, erbyn hyn, yn dylanwadu ar ddyhead ymarferwyr ac ysgolion i gymryd rhan yn y cyrsiau.

⁷ Mae cytundeb cymedroli yn rhan o'r Cynllun. Cyflogir unigolyn i gymedroli cyrsiau'r tri darparwr ac i adrodd ar hynny i Lywodraeth Cymru.

4.19 Mae dehongli'r theori sydd y tu ôl i gynllunio gweithgareddau'r Cynllun wedi galluogi ystyriaeth o'r dystiolaeth sydd ar gael i brofi'r theori a'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu er mwyn adolygu'r gweithgareddau recriwtio a hyfforddi. Mae Ffigur 4.5 yn nodi'r data sydd ar gael, a'r data y byddai ei angen er mwyn asesu'n llawn i ba raddau y mae'r Cynllun yn cael ei weithredu mewn ffordd wnaiff arwain at y deilliannau a ddymunir. Mae hefyd yn nodi rhai bylchau data a gwybodaeth sy'n parhau.

Ffigur 4.4: Theori Newid Gweithredu'r Cynllun



Ffigur 4.5: Theori Newid Gweithredu'r Cynllun: anghenion data

Data sydd ei angen	Data sy'n bodoli eisoes a'i ffynhonnell	Data ychwanegol a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad	Bylchau yn y data sydd ar gael
Gweithgareddau: - Nifer yr ymarferwyr sy'n cael eu recriwtio ar gyrsiau'r Cynllun; - Nifer y cyrsiau sy'n cael eu cynnal; - Nifer yr ymarferwyr sy'n mynychu pob cwrs. Fesul cwrs a lleoliad.	Data ar geisiadau am gyrsiau. Data monitro (adroddiadau'r darparwyr a'r consortia i Lywodraeth Cymru) Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru		Dim bylchau amlwg
Rhagdybiaethau - Bod yna alw am y cyrsiau.	Peth gwybodaeth am hyn yn cael ei gasglu gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol Ffynhonnell: Consortia Rhanbarthol		Cysondeb ym manylder y wybodaeth sydd ar gael ar draws rhanbarthau ac awdurdodau lleol.
Rhagdybiaethau - Bod ysgolion yn gefnogol o'r cyrsiau; - Bod yna ddigon o wybodaeth ar gael i ysgolion ac ymarferwyr; - Bod ymarferwyr yn gallu cael eu rhyddhau gan yr ysgol i fynychu'r cwrs; - Bod y cyrsiau yn cael eu cynnal mewn lleoliadau addas; Bod yr ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas i'w lefel/ anghenion hwy ac anghenion yr ysgol.	Nid oes ffynonellau data yn bodoli sydd yn cynnig y data hyn ar gyfer y Cynllun.	Roedd archwilio'r meysydd hyn yn rhan greiddiol o'r gwaith maes gydag ymarferwyr, penaethiaid, darparwyr hyfforddiant a swyddogion consortia rhanbarthol.	Data adborth sy'n ymwneud â'r pwyntiau hyn ar gyfer pob ysgol ac ymarferydd.
Faint o adnoddau sydd gan y consortia rhanbarthol / siroedd i gefnogi datblygu'r sgiliau	Derbynia'r consortia rhanbarthol gyllid grant ac fel amod grant mae'r consortia yn llunio cynlluniau blynyddol ar gyfer darparu dysgu proffesiynol, gan gynnwys cyrsiau sgiliau Cymraeg. Ffynhonnell - Mae gwybodaeth ar gael ynghylch dyraniadau grant Llywodraeth Cymru i'r consortia, a chaiff adroddiadau blynyddol y consortia eu cyhoeddi. Nid oes dadansoddiad ar gael o ba gyfran o'r arian sy'n mynd ar gefnogi'r Cynllun (recriwtio i'r cyrsiau a chefnogaeth wedi'r cyrsiau)		Gwybodaeth am faint o'r cyllid sydd ar gael o fewn y Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol mewn Ysgolion y gellir ei ddyrannu, ar lefel ranbarthol, i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r Cynllun.


Allbynnau a Chanlyniadau'r Cynllun

- 4.20 O ran allbynnau, disgwylir y bydd cyflawni'r Cynllun yn gwella sgiliau iaith Gymraeg a methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg ymarferwyr, fel y dengys Ffigur 4.6.
- 4.21 Bwriad y Cynllun yw y bydd y sgiliau a'r arferion addysgu a ddatblygwyd gan yr ymarferwyr a fynychodd y cyrsiau yn eu galluogi i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y dosbarth ac, mewn nifer o achosion, ar draws y cwricwlwm. Rhagdybir bod angen i'r cyrsiau fod o safon, ac yn cael eu darparu gan diwtoriaid addas a chymwys, a bod yr ymarferwyr yn ymrwmo'n llawn i'r cyrsiau hyn er mwyn cyflawni'r allbwn. Rhagdybir hefyd bod yr ymarferwyr yn dychwelyd i ddysgu mewn ysgol yng Nghymru ar ôl gorffen y cwrs a bod ganddynt y gallu a'r hyder i roi eu sgiliau newydd ar waith. Yn ogystal, y theori yw bod gallu a hyder ymarferwyr i roi'r sgiliau ar waith yn dibynnu ar gael cefnogaeth a chyfleoedd priodol yn yr ysgol.
- 4.22 Nid y Cynllun yw'r unig opsiwn hyfforddi sydd ar gael i gefnogi datblygiad sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr ysgol. Er enghraifft, mae rhai o'r consortia yn cynnig cyrsiau sylfaen i ymarferwyr yn eu hardal. Noda'r theori felly ddylanwadau eraill sy'n dangos na ellir o reidrwydd priodoli'r allbynnau yn gyfan gwbl i'r Cynllun heb hefyd ystyried yr hyfforddiant a'r cymorth arall y gallai'r ymarferwyr hyn fod wedi'u cael.
- 4.23 Allbwn arall sydd wedi ei gynnwys yn ein theori yw cefnogi ymarferwyr i ddangos mwy o arweinyddiaeth mewn perthynas â'r Gymraeg o fewn eu hysgol a chyfrannu at ethos neu agwedd fwy cefnogol tuag at y Gymraeg. Mae'r theori yn awgrymu bod gallu'r Cynllun i gyflawni neu gefnogi hyn yn ddibynnol ar allu ymarferwyr i ddylanwadu ar bolisïau a threfniadau'r ysgol, a hefyd ar y graddau y mae'r cyrsiau eu hunain yn datblygu sgiliau'r ymarferwyr ac yn cefnogi amcanion cynlluniau datblygu ysgolion yr ymarferwyr.
- 4.24 Yn ôl y theori mae'r Cynllun yn datblygu sgiliau sy'n cyd-fynd ag anghenion uwchsgilio ymarferwyr unigol yn ogystal â'r sgiliau sydd eu hangen ar eu hysgolion. Er mwyn cyflawni hyn, rhagdybir bod angen i'r sgiliau a ddatblygir yn ystod y cyrsiau gyd-fynd â nodau datblygiad proffesiynol ymarferwyr a chefnogi nodau cynlluniau datblygu ysgol.
- 4.25 Dengys Ffigur 4.6 hefyd sut y gall cyflawni'r allbynnau gyfrannu at nifer o ganlyniadau yn cynnwys bod ymarferwyr yn defnyddio Cymraeg mwy cywir ac yn cynnwys mwy o Gymraeg yn eu gwersi. Bydd y canlyniadau hyn yn eu tro yn

cyfrannu at nod strategol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn cefnogi'r newidiadau ym myd addysg a ddaw yn sgil y cwricwlwm newydd.

- 4.26 Rhagdybir bod gallu'r Cynllun i gyfrannu at y canlyniadau hyn yn dibynnu ar gynnal yr allbynnau a'r deilliannau dros amser, sef bod y rhai a fynychodd y cyrsiau yn cynnal eu sgiliau neu'n eu datblygu ymhellach. Mae hyn yn ei dro yn dibynnu ar gydnabod anghenion sgiliau parhaus ymarferwyr yng nghynlluniau datblygu proffesiynol ymarferwyr unigol, a bod cyfleoedd ar gael iddynt barhau i ddatblygu eu sgiliau.
- 4.27 Mae Ffigur 4.7 yn nodi'r data sydd ar gael eisoes ynghylch allbynnau, a'r data fyddai ei angen er mwyn cael darlun llawnach o gyfraniad y Cynllun at gyflawni'r deilliannau a ddymunir. Mae hefyd yn nodi rhai bylchau data a gwybodaeth sy'n parhau.

Ffigur 4.6: Theori Newid allbynnau a chanlyniadau'r Cynllun




Ffigur 4.7: Theori Newid allbynnau a chanlyniadau'r Cynllun: anghenion data

Data sydd ei angen	Data sy'n bodoli eisoes a'i ffynhonnell	Data ychwanegol a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad	Bylchau yn y data sydd ar gael
Data i ddangos allbynnau: - Nifer yr ymarferwyr sy'n adrodd bod eu sgiliau iaith wedi gwella a / neu'r nifer lle mae asesiad yn dangos bod sgiliau wedi gwella. - Nifer yr ymarferwyr sy'n adrodd bod eu sgiliau addysgu Cymraeg a / neu trwy gyfrwng Cymraeg wedi gwella a / neu'r nifer lle mae asesiad yn dangos bod sgiliau wedi gwella.	Mae ymarferwyr ar cyrsiau'r Cynllun yn cael asesiadau diwedd cwrs ond nid yw cofnodiadau o'r asesiadau hyn ar gael yn gyhoeddus. Ffynhonnell – darparwyr hyfforddiant	Casglwyd gwybodaeth a barn darparwyr hyfforddiant, ymarferwyr eu hunain a'u penaethiaid	Data monitro sy'n cyfeirio at y rhagdybiaethau a nodwyd yn y golofn gyntaf (data sydd ei angen) sydd yn cael ei gofnodi'n systematig ar draws pob ysgol ac ymarferydd a fu'n rhan o'r Cynllun
Data sydd ei angen i ddangos os yw'r rhagdybiaethau mewn lle: - Tystiolaeth i ddangos bod y cwrs yn cyd-fynd â nodau datblygiad proffesiynol yr athrawon Tystiolaeth i ddangos bod y sgiliau a'r arferion newydd a ddatblygwyd ar y cwrs yn cefnogi nodau cynlluniau datblygu ysgol	Gwybodaeth ar lefel ysgolion unigol Ffynhonnell - cynlluniau datblygu ysgolion]	Casglwyd gwybodaeth a barn ymarferwyr eu hunain a'u penaethiaid	
Data sydd ei angen i ddangos os yw'r rhagdybiaethau mewn lle: - Nifer yr ymarferwyr sy'n dychwelyd i ddysgu mewn ysgol ar ddiwedd y cwrs sabothol - Nifer yr ymarferwyr sy'n adrodd eu bod yn cael cefnogaeth / cyfle gan yr ysgol i ddefnyddio'u sgiliau - Nifer yr ymarferwyr sy'n nodi eu bod yn gallu defnyddio'r sgiliau (ieithyddol a dulliau addysgu) ac adnoddau a ddatblygwyd yn ystod y cwrs yn y dosbarth ar ôl dychwelyd i'r ysgol - Nifer yr ymarferwyr sy'n adrodd eu bod yn ddigon hyderus i roi'r sgiliau newydd ar waith	Dim ffynonellau data yn ymwneud â'r rhagdybiaethau hyn ar gael		Data sy'n cyfeirio at y rhagdybiaethau a nodwyd yn y golofn gyntaf (data sydd ei angen)

Canlyniadau tymor hwy

- 4.28 Yn ôl ein theori newid, bydd cyflawni allbynnau arfaethedig y Cynllun yn cyfrannu at rai canlyniadau tymor hwy, fel y dengys Ffigur 4.8. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau a chynnydd mewn addysgu Cymraeg mewn ysgolion Saesneg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y rhagdybiaeth yw y bydd cyflawni'r allbynnau hyn yn golygu bod ymarferwyr sydd â gwell sgiliau iaith a gwell dealltwriaeth o'r methodolegau addysgu yn cefnogi cynnydd dysgwyr o ran eu sgiliau Cymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn cyfrannu at nod strategol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- 4.29 Dylid pwysleisio mai dim ond cyfrannu tuag at y canlyniadau yn byddai'r Cynllun yn ei wneud: mae nifer o ffactorau eraill a fyddai hefyd yn cyfrannu at yr allbynnau tymor hwy hyn. Er enghraifft, mae gweithgareddau hyfforddi athrawon a datblygiad proffesiynol a gynhelir y tu allan i ddylanwad y Cynllun hefyd yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. O ran cynyddu nifer y bobl a fydd yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050, mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn yn ymestyn o addysg feithrin cyn-ysgol hyd at gyfleoedd dysgu Cymraeg i oedolion. Felly, cyfrannu tuag at y canlyniadau tymor hwy hyn fydd y Cynllun, ac ni ellir priodoli'r canlyniadau yn uniongyrchol i'r Cynllun. Fodd bynnag, os yw'r Cynllun yn cyflawni ac yn cynnal ei allbynnau a'i ddeilliannau arfaethedig, disgwylir iddynt gyfrannu at y canlyniadau tymor hwy. Yn ôl y theori newid, mae cyfraniad y Cynllun i'r canlyniadau tymor hwy hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod anghenion ymarferwyr o ran datblygu sgiliau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau datblygiad proffesiynol. Mae hefyd yn dibynnu ar fodolaeth cyfleoedd i alluogi ymarferwyr i barhau i ddatblygu, cynnal a defnyddio'r sgiliau hyn yn yr ystafell ddosbarth yn y tymor hwy.

Ffigur 4.8: Theori Newid y canlyniadau tymor hwy



4.30 Mae Ffigur 4.9 yn nodi'r data sydd ei angen i adolygu a yw'r Cynllun wedi cyfrannu at ganlyniadau tymor hwy. Mae hefyd yn nodi'r ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd a'r bylchau yn y data.

Ffigur 4.9: Theori Newid y canlyniadau tymor hwy: anghenion data

Data sydd ei angen	Data sy'n bodoli eisoes a'i ffynhonnell	Data ychwanegol a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad	Bylchau yn y data sydd ar gael
Data sydd ei angen i archwilio cyfraniad i ganlyniadau tymor hwy. Noder: yn achos pob un o'r meysydd isod cyfrannu tuag at y canlyniadau hyn yn unig fyddai'r Cynllun Sabothol: - Sgiliau iaith Gymraeg plant a phobl ifanc	Niferoedd a chanrannau siaradwyr sydd yn nodi gallu yn y Gymraeg: Ffynonellau Cyfrifiad y Boblogaeth: niferoedd y bobl 3 oed a throsodd sydd yn nodi gallu o ran deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg Amllder: bob 10 mlynedd Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: niferoedd y bobl 3 oed a throsodd sydd yn nodi gallu o ran deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gwybodaeth hefyd am amllder siarad Cymraeg) Amllder: chwarterol. Arolwg Cenedlaethol Cymru: niferoedd y bobl 16 oed a throsodd sydd yn nodi gallu o ran deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gwybodaeth hefyd am amllder siarad Cymraeg a rhuglder) Amllder: blynyddol Arolygon Defnydd Iaith: niferoedd y bobl 3 oed a throsodd sydd yn nodi gallu o ran deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gwybodaeth hefyd am amllder siarad Cymraeg a rhuglder) Amllder: 1995, 2004-06, 2013-15; 2019-20 Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD): gwybodaeth am ruglder disgyblion yn y Gymraeg ac a yw'r disgybl yn siarad Cymraeg gartref (plant 5 oed a throsodd)⁶ Amllder: blynyddol	Dim data ychwanegol	Data a fydd yn galluogi amcangyfrif i ba raddau y mae'r Cynllun yn cyfrannu at y canlyniadau hyn. Hynny yw, y bylchau data a nodwyd yn Ffigurau 4.3, 4.5 a 4.7.
- Sgiliau ymarferwyr: gallu i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ffynonellau Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgol (CBGY): Casgliad ar lefel ymarferwyr unigol gan bob ysgol (gan gynnwys gwybodaeth am gyfrwng ieithyddol yr ysgol): lefel sgiliau iaith Gymraeg (yn ôl Fframwaith Cymwyseddau iaith Gymraeg Ymarferwyr Addysg); gweithlu sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg (ac sy'n gwneud hynny ai peidio), ac sy'n addysgu Cymraeg fel pwnc. Yn ogystal bydd y CBGY yn casglu gwybodaeth ynghylch		

	recriwtio i swyddi gwag yn ôl pwnc, ac a oedd yn ofynnol i ymgeiswyr fod yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.⁸ Amllder: blynyddol Cofrestr Ymarferwyr Cyngor y Gweithlu Addysg: gwybodaeth am nifer ymarferwyr yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg; nifer yr ymarferwyr yn ôl eu gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a nifer yr ymarferwyr sydd wedi eu hyfforddi i addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Noder: mae'r Gofrestr yn cynnwys gwybodaeth am ymarferwyr sydd ddim yn addysgu ar y pryd.⁹ Amllder: blynyddol Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD): niferoedd ymarferwyr sydd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (Noder: bydd elfennau data am y gweithlu yn CYBLD yn cael eu disodli gan y CBGY yn y dyfodol agos, ond bydd y data yn parhau i fod yn ffynhonnell ar gyfer tueddiadau dros amser).¹⁰		
- Cyrhaeddiad disgyblion, ac ansawdd yr addysgu	Ffynhonnell StatsCymru: gwybodaeth ar gyflawniad mewn arholiadau TGAU Mae data cyrhaeddiad ar gael ar lefel ysgol, at bwrpasau cynllunio a gwerthuso lefel ysgol a lefel awdurdod a rhanbarth, ond ddim ar gael ar lefel genedlaethol. Mae data cyrhaeddiad dysgwyr ar gael yn genedlaethol ar lefel TGAU. Arolygiadau Estyn: ansawdd yr addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg		

⁸ [Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion \(CBGY\)](#)

⁹ Mae [ystadegau'r gweithlu addysg](#) ar gael ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg.

¹⁰ Ar gael yn adran [CYBLD: yr Iaith Gymraeg](#) ar wefan StatsCymru.

5. Canfyddiadau

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid, penaethiaid a / neu aelodau uwch dîm rheoli ysgolion ac ymarferwyr. Mae'n cwmpasu cynllunio ar lefel genedlaethol a rhanbarthol; y broses recriwtio; cymryd rhan yn y cwrs a'r ddarpariaeth ddilynol, ac effaith a dylanwad mynychu'r cyrsiau. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn ymhelaethu ar y camau a'r rhagdybiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y theori newid.

Cynllunio a defnydd strategol o'r Cynllun Sabothol

- 5.1 Ar lefel genedlaethol, mae strategaeth *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*, cyflwyno'r cwricwlwm newydd a'r safonau proffesiynol yn dylanwadu ar yr angen i wella sgiliau Cymraeg y gweithlu ac felly'r angen i gyllido'r hyfforddiant sydd ar gael trwy'r Cynllun.
- 5.2 Swyddogion consortia rhanbarthol sy'n gyfrifol am adnabod yr angen am y cyrsiau o fewn eu rhanbarth, ac maent yn rhannu'r wybodaeth hon gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses o bennu nifer a lefel y cyrsiau fydd yn cael eu hariannu. Mae'r cyllid sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru yn pennu faint o hyfforddiant y gellir ei gefnogi. Gwybodaeth leol y consortia ynghylch yr angen am uwchsgilio sy'n pennu pa ardaloedd daearyddol, a pha ysgolion o fewn yr ardaloedd hyn, sydd i'w targedu ar gyfer yr hyfforddiant hwn.
- 5.3 Esboniodd y swyddogion rhanbarthol eu bod yn defnyddio amryw o ddulliau i gasglu gwybodaeth am yr anghenion a'r galw posibl am gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg ymhlith ymarferwyr yn eu hardal. Nododd rhai swyddogion eu bod yn cyfarfod â phenaethiaid a / neu yn anfon llythyrau a holiaduron byr atynt i ofyn iddynt nodi eu hanghenion hyfforddi. Nododd swyddogion eraill eu bod yn cydlynu cofnod neu fap o anghenion sgiliau ar lefel ysgol neu glwstwr. Mae'r dulliau hyn wedi galluogi'r swyddogion consortia i adnabod ysgolion ac ardaloedd daearyddol lle mae bylchau mewn sgiliau yn bodoli, a nododd y swyddogion consortia bod yna nifer o ardaloedd lle mae bylchau sgiliau yn parhau.
- 5.4 Ar lefel lleol, mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau) yn un offeryn cynllunio, ac yn amlinellu bwriadau awdurdodau lleol i gyflawni nodau a thargedau ar gyfer addysg Gymraeg yn eu hardal. Un o nodau'r CSGAau yw i Allau

gynllunio'r gweithlu o safbwynt cynyddu ei gapasiti sgiliau iaith Gymraeg. Mae disgwyl i'r cynlluniau gyfeirio at sut y bwriedir i'r Cynllun gyfrannu at ddatblygu'r sgiliau hyn. Adolygwyd sampl (12 o'r 22) o CSGAau fel rhan o ymchwil desg y gwerthusiad. Gwelwyd bod rhan fwyaf yr awdurdodau lleol a gafodd eu cynnwys yn y sampl hwn yn cyfeirio at y Cynllun yn eu CSGA, ac yn nodi eu bwriad o ran cynyddu nifer yr ymarferwyr a fydd yn cymryd rhan yn y Cynllun a / neu o ran defnyddio'r Cynllun mewn ffordd fwy strategol. Prin oedd unrhyw fanylion pellach. Dim ond nifer fechan o'r CSGAau a astudiwyd oedd yn mynd llawer y tu hwnt i gyfeirio at y Cynllun ac yn rhoi manylion ynghylch sut maent yn bwriadu defnyddio'r Cynllun i ddiwallu anghenion sgiliau Cymraeg ysgolion ac ymarferwyr yn eu hardal. Paratowyd y CSGAau hyn yn 2016 (ar gyfer y tair blynedd 2017 i 2020) ac felly mae'r wybodaeth a gynhwysir ynddynt bellach wedi dyddio.

- 5.5 Daeth yn amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad bod y data sydd ar gael ar lefel lleol a rhanbarthol am yr angen i uwchsgilio ymarferwyr ysgol yn ddibynnol ar y wybodaeth a gesglir gan unigolion o fewn y consortia a'r awdurdod lleol. Nid oes cofnod cyson o'r wybodaeth hon, ac ni chaiff ei rhannu'n eang. Gan fod y wybodaeth yn aml yn cael ei chasglu yn ystod cyswllt uniongyrchol rhwng swyddogion consortia / athrawon bro ac ysgolion, tybir ei bod yn gyfredol. Fodd bynnag, oherwydd nad yw'r broses casglu gwybodaeth yn gyson ar draws ardaloedd ac oherwydd nad yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd systematig, mae cyfyngiadau i'r trefniadau presennol.
- 5.6 Er mwyn cael mwy o gysondeb yn nulliau casglu a chofnodi'r wybodaeth hon, gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda'r consortia rhanbarthol yn 2018 i gynnal arolwg sgiliau iaith Gymraeg athrawon. Cyfeiriodd swyddog un rhanbarth at ddefnyddio canlyniadau'r arolwg hwnnw i gynllunio i gwrdd ag anghenion datblygu'r gweithlu lleol. Fodd bynnag, er bod ymateb da wedi bod gan ysgolion i'r arolwg hwnnw, eglurodd y swyddog o'r un consortiwm a wnaeth fynegi barn ar hyn, mai darlun anghyflawn a gafwyd, a bod y canlyniadau o ddefnydd cyfyngedig wrth gynllunio i gwrdd ag anghenion.
- 5.7 Mae ein theori newid yn dangos bod cynllunio'r Cynllun yn dibynnu ar gael tystiolaeth sy'n dangos faint o alw sydd i ddatblygu sgiliau newydd, a bod data digonol ar gael i adnabod yr ardaloedd a'r ysgolion lle mae'r angen mwyaf am gefnogaeth a darpariaeth hyfforddiant yn bodoli.

- 5.8 Mae'r canfyddiadau a gyflwynwyd uchod yn awgrymu bod awdurdodau a chonsortia wedi datblygu dulliau cynllunio ar sail gwybodaeth am anghenion yn eu hardaloedd. Fodd bynnag nid yw ansawdd a natur y data yn gyson, ac mewn rhai achosion mae'n anecdotaidd ei natur.

Recriwtio

- 5.9 Yn ôl y theori newid, er mwyn i'r Cynllun gyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir, mae angen i'r cyrsiau recriwtio'r ymarferwyr hynny y mae mwyaf angen eu huwchsgilio. Mae gallu'r Cynllun i wneud hyn yn seiliedig ar argaeledd data a gwybodaeth sy'n adnabod lle mae'r angen mwyaf am yr hyfforddiant, a bod y broses recriwtio yn cael ei hanelu tuag at yr ysgolion hyn.
- 5.10 Swyddogion y consortia ac athrawon bro'r awdurdodau lleol sydd yn bennaf gyfrifol am ymgysylltu gydag ysgolion a recriwtio'r ymarferwyr i'r cyrsiau. Mae gan y swyddogion hynny wybodaeth dda o sefyllfa ac anghenion ysgolion lleol ac felly, ym marn nifer o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd, mewn gwell sefyllfa na'r darparwyr hyfforddiant i ddefnyddio'r wybodaeth fel sail i'r broses recriwtio. Adroddodd swyddogion consortia a darparwyr hyfforddiant fod y systemau ar gyfer nodi'r angen lleol am hyfforddiant a thargedu recriwtio yn unol â hynny yn gweithio'n dda yn eu barn hwy, a'u bod wedi arwain at nifer fawr o ymarferwyr addas yn elwa o'r Cynllun.
- 5.11 Yn ogystal ag adnabod yr ysgolion sydd fwyaf angen cefnogaeth, mae'r broses recriwtio yn ddibynnol ar sicrhau bod amser ac adnoddau ar gael i ymgysylltu â'r ysgolion. Nododd swyddogion consortia eu bod yn neilltuo amser i wneud hyn. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod yr amser a'r adnoddau a oedd ar gael iddynt ganolbwyntio ar y broses recriwtio hon yn brin ar adegau.
- 5.12 Mae rhywfaint o'r cyfrifoldeb am recriwtio ymarferwyr i'r cyrsiau hefyd yn dod o fewn cylch gwaith y darparwyr hyfforddiant. Mae hyn yn golygu bod angen i swyddogion consortia, athrawon bro a darparwyr hyfforddiant gydweithio wrth fynd ati i dargedu ysgolion. Nododd bob un o'r cyfweleion o'r consortia rhanbarthol a'r darparwyr hyfforddiant bod cydweithio da rhyngddynt rhan fwyaf o'r amser. Fodd bynnag, nododd nifer o'r cyfweleion hyn hefyd nad oedd pob agwedd o'r broses recriwtio yn rhedeg yn esmwyth. Nododd rhai darparwyr a swyddogion consortia fod cynnwys nifer o asiantaethau yn y broses yn gallu arwain at rywfaint o ddryswch ynglŷn â phwy sydd yn gwneud beth, gyda hyn ar adegau yn creu risg o ddyblygu rhai gweithgareddau recriwtio yn ddiangen.

- 5.13 Nododd rhai rhanddeiliaid bod diffyg cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid wedi achosi rhwystrau yn y gorffennol. Nodwyd enghraifft gan un swyddog consortiwm lle'r oedd diffyg gwybodaeth ynglŷn â meini prawf cymhwysedd y cyrsiau wedi arwain at sefyllfa lle roeddent wedi recriwtio ymarferydd i'r cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn heb ddeall nad oedd yn gymwys oherwydd ei fod eisoes wedi bod ar gwrs Sylfaen. Nid oedd y swyddog wedi deall hyn gan nad oedd y rheol honno wedi ei chyfathrebu'n glir iddynt cyn hynny. Enghraifft arall o ddiffyg rhannu gwybodaeth a nodwyd gan rai rhanddeiliaid o'r rhanbarthau oedd bod y cadarnhad gan Lywodraeth Cymru o ba gyrsiau fydd ar gael yn y flwyddyn i ddod yn gallu bod yn hwyr. Esboniodd swyddogion rhanbarthol bod yr oedi hwn yn cwtogi ar yr amser oedd ar gael iddynt fedru recriwtio i'r cyrsiau, ac yn achosi rhywfaint o her cynllunio i ysgolion o ran pwy fyddent yn ei ryddhau i fynychu cyrsiau.
- 5.14 Er mai dim ond nifer fach o enghreifftiau o heriau yn y broses recriwtio a gafwyd gan y rhanddeiliaid a gyfwelwyd, maent yn tynnu sylw at y dryswch sy'n gallu codi pan fo nifer o sefydliadau yn ymgymryd â phrosesau tebyg o ran marchnata a recriwtio.
- 5.15 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen gwella prosesau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr holl sefydliadau sy'n rhan o'r broses recriwtio. Maent hefyd yn awgrymu bod angen sicrhau bod gwybodaeth glir yn ymwneud â meini prawf cymhwysedd pob cwrs ar gael ac yn cael ei rhannu gyda'r holl rhanddeiliaid yn rheolaidd.
- 5.16 Mae'r canfyddiadau a nodir uchod yn awgrymu bod y broses recriwtio, er yn heriol ar adegau, yn cael ei thargedu at yr ysgolion hynny lle mae'r angen mwyaf am hyfforddiant wedi'i adnabod. Mater i ysgolion unigol yw penderfynu cymryd rhan yn y Cynllun ai peidio, fodd bynnag, ac fel y nodir isod, mewn llawer o achosion mater i ymarferwyr unigol yw penderfynu cymryd rhan. Esboniodd swyddogion rhanbarthol hefyd nad yw'r cyrsiau wedi'u cyfyngu i'r ysgolion hynny sydd wedi'u targedu. Os bydd ysgolion eraill yn dangos diddordeb arbennig yn yr hyfforddiant, ni chânt eu gwrthod fel arfer. Yn ogystal, os yw'r galw am leoedd ar y cyrsiau yn is na'r disgwyl ymhlith yr ysgolion a dargedwyd, caiff y cwrs ei gynnig i ysgolion eraill yn y rhanbarth. O ganlyniad, er bod y recriwtio wedi'i dargedu'n bwrpasol at ysgolion lle mae'r angen mwyaf, nid yw hyn o reidrwydd yn arwain ymhob achos at sefyllfa lle mai'r ymarferwyr a'r ysgolion a dargedwyd sy'n mynychu'r cyrsiau a ddarperir.

- 5.17 Yn ogystal, canfu'r gwerthusiad nad yw'n bosibl rhagweld y galw am gyrsiau ymhob achos. Nododd swyddogion consortia fod achosion yn codi lle mae ysgolion ac ymarferwyr unigol a fyddai'n elwa ar yr hyfforddiant, ac yn awyddus i fynychu'r cyrsiau, yn methu gwneud hynny. Yn aml mae hyn oherwydd bod gofynion eraill o fewn yr ysgol yn codi sy'n eu hatal rhag mynychu'r cwrs fel y bwriedir.

Penderfynu cymryd rhan

- 5.18 Yn ôl ein theori newid, er mwyn denu ymarferwyr i gymryd rhan yn y cyrsiau Sabothol mae'n rhaid bod yna alw am y cyrsiau hynny. Rhagdybir, felly, bod y cyrsiau a ddarperir yn berthnasol i anghenion ysgolion ac ymarferwyr unigol, a bod digon o wybodaeth am y cyrsiau ar gael i ysgolion ac ymarferwyr.
- 5.19 Nododd y rhan fwyaf o'r penaethiaid a gyfwelwyd eu bod wedi clywed am y Cynllun trwy e-bost neu lythyr gan eu consortiwm rhanbarthol. Mae hyn yn awgrymu fod gwybodaeth am y cyrsiau ar gael, a bod y wybodaeth hon yn cael ei thargedu'n bwrpasol at yr ysgolion mae'r consortia yn ceisio eu recriwtio i'r Cynllun. Nododd dau bennaeth, fodd bynnag, eu bod wedi dod o hyd i wybodaeth am y Cynllun ar eu liwt eu hunain wrth iddynt chwilio am gyfleodd hyfforddi i wella safon Cymraeg eu staff.
- 5.20 Roedd rhan fwyaf yr ymarferwyr wedi clywed am y Cynllun drwy eu hysgol, naill ai gan eu pennaeth yn uniongyrchol neu drwy hysbyseb gan y consortiwm neu ddarparwr hyfforddiant trwy llaw'r pennaeth. Nododd rhai ymarferwyr eu bod wedi clywed am y Cynllun gan eu cydweithwyr neu gyfeillion mewn ysgolion eraill. Cyfeiriodd nifer fechan o ymarferwyr at glywed gan athrawon bro / athrawon ymgynghorol neu gydlynnydd y Gymraeg yn uniongyrchol.
- 5.21 O fewn yr 80 o geisiadau i fynychu'r cyrsiau a adolygwyd, y rhesymau dros gymryd rhan a nodwyd gan benaethiaid dro ar ôl tro oedd eu bod yn rhagweld y byddai'r Cynllun yn eu:
- cefnogi i gyflawni blaenoriaethau cynllun datblygu ysgol yn ymwneud â chynyddu defnydd o'r Gymraeg;
 - cefnogi i ymateb i argymhellion yn ymwneud â defnydd o'r Gymraeg a wnaed yn ystod arolygiad Estyn;

- cefnogi i gyflwyno Siarter Iaith / Cymraeg Campus- a gweithio tuag at wobwr Siarter Iaith neu Cymraeg Campus;¹¹
- galluogi i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws pob pwnc yn eu hysgol er mwyn ymateb i ofynion y cwricwlwm newydd.

- 5.22 Roedd y rhesymau yn amrywio ychydig yn ôl y math o gyrsiau roedd yr ymarferwyr yn ceisio amdanynt. Yr angen i ddatblygu sgiliau a fyddai'n cefnogi rhai o nodau strategol iaith Gymraeg yr ysgol (ac yn arbennig i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd) oedd y prif reswm a nodwyd gan benaethiaid dros annog ymarferwyr i fynychu naill ai'r cyrsiau Mynediad neu Sylfaen. Mae hyn yn cadarnhau rhai elfennau o'n theori newid, hynny yw bod ffactorau megis cyflwyno'r cwricwlwm newydd ac arolygiadau Estyn yn gallu dylanwadu ar y galw sydd am y cyrsiau ymhlith ysgolion.
- 5.23 Yn ôl ein theori newid hefyd, dylai cyflwyno'r safonau proffesiynol newydd yn ystod y cyfnod dan sylw a'r gofynion o ran y Gymraeg sydd wedi'u cynnwys yn y safonau fod yn ffactor ychwanegol wrth ddylanwadu ar y galw am y cyrsiau. Fodd bynnag, ni chyfeiriodd yr un o'r ceisiadau a adolygwyd at y safonau newydd fel rheswm dros wneud cais am unrhyw un o'r cyrsiau. Gan nad oedd y safonau hyn ar waith tan fis Medi 2018 mae'n bosibl nad oeddent wedi dod yn flaenoriaeth i ysgolion yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y gwerthusiad hwn.
- 5.24 Roedd y rhesymau a nodwyd gan benaethiaid yn y ceisiadau ar gyfer y cyrsiau Uwch yn cyfeirio i raddau helaeth at yr angen i wella safon ieithyddol ymarferwyr unigol. Cyfeiriodd nifer o'r penaethiaid yn y ceisiadau ar gyfer cyrsiau Uwch yn benodol am yr angen i sicrhau bod aelodau staff yn medru defnyddio Cymraeg graenus wrth siarad ac ysgrifennu yn y dosbarth, a hefyd wrth gyfathrebu gyda rhieni. Rhoddodd y penaethiaid yr un rheswm dros gymryd rhan yn y cwrs Uwch yn ystod y cyfweiliadau.
- 5.25 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod penaethiaid yn ystyried y cyfleoedd uwchsgilio a gynigir gan y Cynllun fel rhai sy'n cyd-fynd ag anghenion strategol iaith Gymraeg eu hysgol a'u bod yn edrych ar yr hyfforddiant a gynigir trwy'r Cynllun fel ffordd o fynd i'r afael â nhw. Pwysleisiodd y penaethiaid a gyfwelwyd na fyddai'r

¹¹ Rhaglenni i hybu defnydd y Gymraeg yn gymdeithasol mewn ysgolion cynradd yw'r Siarter Iaith (ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg) a Cymraeg Campus (ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg). Cyhoeddwyd [Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig](#) yn 2020.

awydd i gymryd rhan wedi bod yn ddigon i'w galluogi i rhyddhau ymarferwyr i fynychu'r cyrsiau pe baent wedi gorfod talu costau cyflenwi.

- 5.26 O fewn y sampl o ffurflenni cais a adolygwyd, roedd cymhelliant ymarferwyr i ymgeisio yn amrywio yn ôl lefel y cwrs. Nododd y rhan fwyaf resymau'n ymwneud â'u hawydd i wella sgiliau Cymraeg fel rhan o'u datblygiad proffesiynol eu hunain. Er enghraifft ymysg yr ymarferwyr oedd yn ceisio am y cwrs Mynediad, cyfeiriodd sawl un at y cyfle i allu defnyddio mwy o Gymraeg achlysurol tu fewn a thu allan i'r dosbarth fel y prif reswm dros fod eisiau mynychu'r cwrs. Y prif reswm a roddwyd gan ymarferwyr oedd yn ceisio am le ar y cwrs Sylfaen oedd y cyfle i wella eu gallu a'u hyder i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn ogystal â datblygu syniadau newydd ar sut i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y dosbarth. Yr awydd i wella gramadeg, deall rheolau ieithyddol a medru ysgrifennu yn y Gymraeg yn fwy cywir oedd y prif resymau a roddwyd yng ngheisiadau'r cyrsiau Uwch. Roedd yr ymgeiswyr hyn hefyd am allu defnyddio Cymraeg mwy cywir yn y dosbarth er mwyn gwella sgiliau ieithyddol y plant yn y dosbarth.
- 5.27 Er bod rhan fwyaf yr ymarferwyr wedi nodi rhesymau yn ymwneud â'u datblygiad proffesiynol personol fel y prif reswm dros geisio am le ar un o'r cyrsiau, nododd rhai o'r ymarferwyr a gyfwelwyd (10 allan o 54 ar draws y cyrsiau) at y cyswllt rhwng cymryd rhan yn y cwrs a chynlluniau datblygu eu hysgol, gan nodi enghreifftiau tebyg i'r rhai a nodwyd uchod gan benaethiaid.
- 5.28 Roedd barn y swyddogion rhanbarthol ar resymau ymarferwyr a phenaethiaid dros ddewis cymryd rhan yn cefnogi'r hyn a nodwyd gan y penaethiaid a'r ymarferwyr eu hunain. Fodd bynnag, nododd rhai swyddogion rhanbarthol eu bod yn ymwybodol bod gan rai penaethiaid agenda llai cadarnhaol dros gefnogi eu hymarferwyr i fynychu'r cwrs, a'u bod yn wylidwrs o hynny:
- ‘Rwy'n ymwybodol bod rhai penaethiaid eisiau cael gwared ar athro am flwyddyn, am wahanol resymau, felly mae'r tîm yn gorfod gwyllo allan am hynna; ond gobeithio bod y staff yn nabod eu hardaloedd’. (Swyddog consortiwm rhanbarthol)
- 5.29 Nododd rhan fwyaf y penaethiaid a gyfwelwyd, lle'r oedd aelod o'u staff wedi mynychu cyrsiau Sylfaen a/neu Mynediad, eu bod yn cynnig cyfle i'r holl ymarferwyr yn eu hysgol gymryd rhan yn y cyrsiau hyn, ac nad oeddent yn dewis ymarferwyr penodol i wneud cais. Yn yr achosion hyn, felly, ymarferwyr unigol a ddewisodd gymryd rhan yn un o'r cyrsiau ai peidio, nid yr ysgol. Y prif reswm am hyn, a

roddwyd gan benaethiaid, oedd nad oedd yn bosibl gorfodi ymarferwyr i fynychu'r cwrs. Nododd y penaeithiaid hyn eu bod hefyd o'r farn mai cymhelliant a diddordeb personol ymarferwyr unigol i wella eu sgiliau iaith Gymraeg ddylai fod y prif reswm dros ddewis dilyn y cwrs.

'We inform all the teachers about the offer of doing the course and see who's interested - to date only one teacher has shown interest and taken up the course'. (Pennaeth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg)

'Once we find out which courses are being run each year, as well as when and where they are being delivered, we let staff members know and ask anyone who's interested to let us know. We don't usually restrict people although the practicality of releasing staff can be a challenge'. (Pennaeth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg)

- 5.30 Er i'r rhan fwyaf o benaethiaid ganiatáu i ymarferwyr benderfynu drostynt eu hunain a oeddent yn dymuno gwneud cais am un o'r cyrsiau ai peidio, roedd rhai eithriadau. Cynigiodd rhai penaeithiaid enghreifftiau o sut roeddent wedi gwrthod caniatáu i rai ymarferwyr a oedd am fynychu un o'r cyrsiau wneud hynny oherwydd ymrwymadau eraill oedd gan yr ymarferwyr yn yr ysgol ar y pryd. Ychydig iawn o enghreifftiau a gynigiwyd gan benaethiaid yn y cyfweiliadau o dargedu neu annog athrawon penodol i fynychu cyrsiau Mynediad a Sylfaen. Mae'r dull cymharol ddiduedd hwn o ddewis ymarferwyr i fynychu'r cyrsiau hyn i'w weld yn groes i'r bwriadau mwy strategol dros gymryd rhan yn y Cynllun a nodwyd gan benaethiaid yn y ffurflenni cais. Mae'r dull hwn o hunandewis yn codi'r cwestiwn a yw hyn yn sicrhau bod yr ymarferwyr mwyaf priodol, fel y nodwyd yn y theori newid, yn cael eu cofrestru ar y cyrsiau ym mhob achos - hynny yw, yr ymarferwyr sydd fwyaf angen eu huwchgilio yn ogystal â'r rhai fydd yn medru defnyddio'r sgiliau ar ôl diwedd y cwrs.
- 5.31 Yn achos y cyrsiau Uwch, cynigiodd penaeithiaid enghreifftiau o sut roeddent wedi annog ymarferwyr penodol yn eu hysgol i fynychu'r cwrs er mwyn gwella rhai elfennau o'u sgiliau ieithyddol. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r cyrsiau Uwch roedd sawl sefyllfa lle mai awydd yr ymarferydd i fynychu'r cwrs oedd man cychwyn ceisio am le.
- 5.32 Ymysg penaeithiaid a oedd wedi cefnogi ymarferydd Cymraeg Mewn Blwyddyn cafwyd mwy o enghreifftiau lle'r oedd y penaeithiaid, neu aelodau eraill o'r uwch dim rheoli, wedi bod yn fwy rhagweithiol ac wedi rhoi mwy o bwyslais ar ddewis (neu

wrthod caniatáu i) ymarferwyr i fynychu'r cwrs yn hytrach na gadael i'r penderfyniad eistedd gyda'r ymarferwyr unigol. Esboniodd y penaethiaid a gyfwelwyd bod rhyddhau aelod staff am flwyddyn gyfan yn fuddsoddiad amser sylweddol ar ran yr ysgol a'r ymarferydd. Roedd y rhan fwyaf o'r penaethiaid hyn eisiau sicrhau bod yr ymarferwyr a ddewiswyd i fynychu'r cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn yn gallu ymgymryd ag ymrwymadau'r cwrs ac yn gallu ysgwyddo cyfrifoldebau dros wella neu gynyddu'r ddarpariaeth addysgu a / neu weithgareddau cyfrwng Cymraeg, ar draws yr ysgol ar ôl gorffen y cwrs.

Gwybodaeth a chefnogaeth cyn dechrau'r cwrs

- 5.33 Mae ein theori newid yn dangos bod angen digon o wybodaeth am y cyrsiau i sicrhau bod ymarferwyr yn dewis mynychu'r cyrsiau a ddarperir trwy'r Cynllun. Nododd rhan fwyaf yr ymarferwyr a gyfwelwyd bod cael hyd i wybodaeth bellach am y cyrsiau yn hawdd unwaith iddynt wneud cais llwyddiannus am le ar un o'r cyrsiau. Adroddodd yr ymarferwyr eu bod wedi cael y wybodaeth hon trwy sgysiau o flaen llaw gyda thiwtoriaid y cyrsiau, ac weithiau gan ymarferwyr eraill a oedd wedi mynychu un o'r cyrsiau.

'They gave me a little more insight into the kind of workload that I should expect and so on'. (Ymarferydd cwrs Sylfaen)

- 5.34 Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymarferwyr (10 o'r 54) o'r farn nad oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth am lefel y cwrs a'r disgwyliadau fyddai arnynt yn ystod y cyfnod sabothol. Roedd dau o'r rhain yn athrawon cyflenwi a gafodd le ar gwrs ar ôl bod ar restr wrth gefn, ac efallai y tu allan i'r broses arferol o ran derbyn gwybodaeth trwy law ysgolion. Cafodd yr wyth arall anawsterau dod o hyd i'r wybodaeth gywir:

'It was difficult to find the right information at the beginning - the sabbatical website and [University] websites are not entirely in line with each other in terms of dates. But once I was in contact with the main tutor, I had enough information, because I got information directly from her and I knew what to review beforehand'. (Ymarferydd cwrs Sylfaen)

- 5.35 Nododd rhan fwyaf yr ymarferwyr eu bod wedi cael cyfweliad anffurfiol dros y ffôn neu wyneb yn wyneb gyda darparwyr y cwrs, er mwyn asesu lefel eu sgiliau

ieithyddol a chael sgwrs am gynnwys a disgwyliadau'r cwrs. Nododd nifer fechan nad oeddent wedi cael cyfweliad, neu nad oeddent yn cofio cael cyfweliad.

- 5.36 Mae'r theori newid yn dangos bod sicrhau bod ysgolion yn cael cefnogaeth i ryddhau ymarferwyr o'u swydd dydd i ddydd am gyfnod o amser yn elfen bwysig o allu ymarferwyr i fynychu'r cyrsiau. Fel nodwyd ym Mhennod 2, mae ysgolion yn cael cefnogaeth ariannol trwy'r Cynllun i dalu am athro / cynorthwydd dysgu cyflenwi. Fodd bynnag, cyfeiriodd sawl ymarferydd a phennaeth at y gefnogaeth dda ychwanegol roeddent wedi ei chael gan swyddog o'r awdurdod lleol neu'r rhanbarth. Roedd hyn yn cynnwys cymorth mewn perthynas â gwybodaeth ar ochr weinyddol e.e. prosesau yn gysylltiedig â threfnu athro cyflenwi. Fodd bynnag gwnaethant fynegi pryder bod capasiti'r swyddogion hynny i gynnig cymorth wedi bod yn llai yn y blynyddoedd diwethaf yn eu tyb hwy.

Barn ar y cyrsiau

- 5.37 Mae ein theori newid yn dangos bod gallu darparwyr i gynnal cyrsiau a fydd yn arwain at yr allbynnau a ddymunir yn dibynnu ar eu gallu i gynnal cyrsiau priodol o safon uchel.
- 5.38 Mae pob darparwr yn cyflwyno'r un maes llafur ar draws y canolfannau; mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau Sabothol wedi cael eu hachredu ac mae gweithdrefnau mewnol pob prifysgol yn cael eu gweithredu ar gyfer sicrhau ansawdd. Roedd y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn i asesu ansawdd y cyrsiau. Felly, ni ofynnwyd i'r rhai a holwyd i roi sylwadau ar hyn.
- 5.39 Mae'r theori newid hefyd yn dangos bod cyflwyno cyrsiau a fydd yn arwain at yr allbynnau a ddymunir yn dibynnu ar y ragdybiaeth bod cynnwys y cyrsiau yn diwallu anghenion ymarferwyr ac ysgolion. Mae hefyd yn seiliedig ar y ragdybiaeth y cynhelir y cyrsiau ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n gyfleus i ymarferwyr eu mynychu. Mae'r paragraffau sy'n dilyn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad sy'n ymwneud â'r pwyntiau hyn.

Strwythur a natur y cyrsiau

- 5.40 Roedd consensws cryf yn atebion yr ymarferwyr a'r penaethiaid bod strwythur a chynnwys y cyrsiau yn addas ar eu cyfer. Nododd nifer helaeth (yn ddigymell) eu bod o'r farn bod y ddarpariaeth addysgu hefyd o safon uchel iawn. Roedd y

mwyafrif hefyd yn ystyried lleoliad y cwrs yn gyfleus, a'r adeg o'r flwyddyn a hyd y cwrs yn briodol. Roedd rhai eithriadau i hyn, fodd bynnag. Roedd rhai cyfranogwyr, yn enwedig cynorthwyyr mewn ardaloedd mwy gwledig, yn ei chael hi'n anodd teithio i gyrraedd lleoliad y cwrs.

5.41 Roedd mwyafrif yr ymarferwyr a'r penaethiaid o'r farn bod hyd y cyrsiau yn briodol. Fodd bynnag, nododd pedwar o'r 22 ymarferydd a fu ar y cwrs Sylfaen y byddai wedi bod yn well ganddynt pe byddai'r cwrs wedi bod yn hirach, gan eu bod yn teimlo nad oedd hyd y cwrs yn ddigon i'w galluogi i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol i'r lefel y byddent wedi ei ddymuno.

5.42 Roedd dau bennaeth a oedd wedi rhyddhau ymarferwyr i fynychu'r cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn o'r farn bod y cwrs yn rhy hir. Nodwyd bod caniatáu i athrawon fod allan o'r ysgol am 12 mis yn tarfu gormod ar yr ysgol ac ar yr ymarferwyr eu hunain. O ganlyniad roedd y penaethiaid hyn yn llai awyddus i ryddhau athrawon a fyddai o bosibl yn dymuno ymgymryd â chwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn yn y dyfodol.

'The one term course is brilliant but having a teacher out of school for a year is challenging. This teacher who was on the year course felt 'out of the loop ' when she returned and found it difficult to step back to school on her return – it took a little time to adjust '. (Pennaeth, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg).

5.43 Dywedodd pennaeth arall, a oedd wedi rhyddhau un athro i fynychu cwrs Sylfaen, nad oedd yn bwriadu rhyddhau unrhyw ymarferwyr i fynychu'r cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn. Roedd y pennaeth o'r farn bod blwyddyn yn amser rhy hir i athro fod allan o'r ysgol - yn enwedig yn y cyfnod presennol a llawer o newidiadau yn gysylltiedig â chyflwyno'r cwricwlwm newydd yn cymryd lle o fewn ysgolion.

'It [The Foundation Course] was just the right length of time to make sure that the teacher could develop the skills without the process being too disruptive to the school. A year long course may, in my opinion, have been too long'. (Pennaeth, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg).

5.44 Er bod cyllid ar gael i dalu am staff cyflenwi tra bod yr ymarferydd i ffwrdd o'r ysgol, mae'r canfyddiadau uchod yn awgrymu nad yw hyn bob amser yn ddigon o gymhelliant i'w rhyddhau o'r ysgol.

5.45 Nododd rhai o'r ymarferwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y cwrs Sylfaen a'u penaethiaid fod dod o hyd i amser cyfleus i fynychu'r cwrs llawn amser am 11 wythnos wastad yn mynd i fod yn heriol. Yn eu barn hwy, nid oes byth amser

delfrydol ond bod rhai tymhorau yn llai cyfleus, er enghraifft dechrau tymor yr hydref pan fo athrawon yn dod i adnabod eu dosbarth newydd, neu dymor yr haf pan fod angen i athrawon lunio adroddiadau diwedd blwyddyn. Gwnaeth un athrawes oedd wedi mynychu'r cwrs Canolradd yn ystod tymor yr haf esbonio ei bod wedi datblygu sgiliau iaith Gymraeg da yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, roedd diwedd y cwrs yn cyd-fynd â dechrau gwyliau'r haf i ysgolion, a chan nad oedd ganddi gyfle i siarad unrhyw Gymraeg y tu allan i'r ysgol yn ystod yr haf, roedd hi'n teimlo bod ei sgiliau Cymraeg wedi mynd yn 'rhydlyd' erbyn iddi ddychwelyd i'r ysgol a chyn iddi gael cyfle i'w defnyddio yn ei dosbarth.

- 5.46 Mae'r theori yn dangos bod annog ymarferwyr i fynychu'r cyrsiau yn dibynnu ar y ragdybiaeth bod y cyrsiau'n cael eu cynnal ar adegau ac mewn lleoliadau cyfleus. Mae'r canfyddiadau uchod yn awgrymu nad oedd yr adegau a'r lleoliadau y cynhaliwyd y cyrsiau yn gyfleus i'r holl ymarferwyr a gynhwyswyd yn y sampl a gyfwelwyd - ond i'r mwyafrif roedd y trefniadau'n foddhaol.

Cynnwys y cyrsiau

- 5.47 Roedd dros hanner yr ymarferwyr a gyfwelwyd (o bob lefel cwrs) o'r farn bod eu cwrs yn ddwys iawn, ac esboniodd rhai ohonynt eu bod yn aml yn teimlo allan o'u dyfnder, yn enwedig yn ystod wythnos gyntaf y cwrs. Roedd hyn yn wir yn achos ymarferwyr oedd wedi mynychu cyrsiau Sylfaen a lefel Mynediad yn bennaf. Bron ym mhob achos, nododd yr ymarferwyr hyn hefyd eu bod yn teimlo i'r profiad fod yn un gwerth chweil, er yn heriol, ac roeddent yn croesawu'r ffaith eu bod wedi cael eu gwthio'n galed i wella eu sgiliau Cymraeg.
- 5.48 Esboniodd yr ymarferwyr o bob cwrs bod eu sgiliau ieithyddol, ysgrifenedig a llafar, yn ogystal â'u dulliau addysgu, wedi cael eu hasesu yn rheolaidd. Roedd y rhan fwyaf (tua thri chwarter) o'r farn bod yr asesiadau yn briodol a'u bod yn teimlo'n gyfforddus gyda'r dulliau asesu. Fodd bynnag, nododd pump o'r ymarferwyr a fu ar gwrs Sylfaen bod yr asesu wedi peri straen iddynt, a nododd dau ohonynt eu bod yn teimlo bod gormod o amser wedi'i neilltuo i asesu cynnydd. Yn eu barn hwy, gellid bod wedi defnyddio'r amser hwn i ddysgu mwy.
- 5.49 Roedd darparwyr hyfforddiant a swyddogion rhanbarthol o'r farn bod cynnwys a strwythur y cyrsiau yn addas i anghenion ymarferwyr, ond codwyd ambell bwynt ganddynt am sut y gellid, yn eu barn hwy, wella'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Roedd pob un swyddog rhanbarthol a gyfwelwyd, yn ogystal â rhai darparwyr

a phenaethiaid, yn awyddus i ystyried dulliau eraill ac amgen o ddatblygu sgiliau Cymraeg. Cynigiodd rhai ohonynt syniadau am ddulliau o drefnu hyfforddiant o fewn y gweithle a symud tuag at fwy o ddysgu o bell fel bod opsiynau ychwanegol i ymarferwyr fedru gwella eu sgiliau heb ymrwymo i gwrs dwys Sabothol.

- 5.50 Cynigiwyd y syniadau uchod fel awgrymiadau o elfennau ychwanegol y gellid eu cynnwys fel rhan o'r Cynllun. Mae'r syniadau a gynigiwyd yn codi cwestiynau am ddealltwriaeth gwahanol rhanddeiliaid o hyd a lled y Cynllun. Mae'n amlwg o'r sylwadau bod galw am fwy o hyfforddiant a chymorth iaith Gymraeg i ymarferwyr, yn ychwanegol i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae rôl eisoes gan gonsortia i ddarparu'r math hwn o hyfforddiant llai dwys i ategu'r Cynllun. Roedd hi'n amlwg o'r cyfweiliadau bod nifer o ymarferwyr a phenaethiaid yn gweld y Cynllun fel y prif, os nad yr unig ffynhonnell o hyfforddiant a chymorth iaith Gymraeg sydd ar gael iddynt. Mae'n bosibl mai dyna sydd wrth wraidd eu barn bod angen i'r Cynllun esblygu ac ehangu i ddarparu mathau eraill o gymorth a hyfforddiant.
- 5.51 Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, mae'n ymddangos y gallai fod angen ystyried ymhellach sut mae sicrhau bod ymarferwyr a phenaethiaid yn deall ac yn defnyddio'r Cynllun, yn hytrach na bod angen newid dyluniad y Cynllun. Yn hytrach na disgwyl i'r Cynllun ddarparu holl hyfforddiant iaith Gymraeg ymarferwyr, a bod y dasg o ddatblygu sgiliau wedi ei chwblhau ar ddiwedd cwrs, mae'n bosibl y dylent gael eu tywys i edrych y tu hwnt i'r Cynllun tuag at opsiynau hyfforddi a chymorth eraill (gweler paragraff 3.31), a hynny fel rhan o gynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr unigol.
- 5.52 Mae'r theori newid yn dangos bod cyflwyno cyrsiau sy'n denu ysgolion ac ymarferwyr yn seiliedig ar y ragdybiaeth bod cynnwys y cwrs yn cwrdd ag anghenion ymarferwyr ac ysgolion. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir uchod yn awgrymu bod cynnwys y cyrsiau a ddarperir trwy'r Cynllun yn diwallu anghenion yr ymarferwyr a'r penaethiaid a gyfwelwyd.

Cefnogaeth ddilynol wedi'r cyrsiau: y consortia rhanbarthol

- 5.53 Allbwn yr anelir ato o fewn y Cynllun yw bod ymarferwyr sy'n mynychu'r cyrsiau yn gallu:
- defnyddio Cymraeg yn eu gwersi / wrth gefnogi gwersi;
 - cynnwys mwy o Gymraeg yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm;

- defnyddio methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn y dosbarth.

Yn ôl ein theori newid mae gallu ymarferwyr i gyflawni hyn yn seiliedig ar y ragdybiaeth bod yr ymarferwyr sy'n mynychu'r cyrsiau yn:

- cael cefnogaeth a'r cyfle gan yr ysgol i ddefnyddio'u sgiliau a'u hadnoddau ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol, ac yn
- parhau i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

- 5.54 Ystyriodd y gwerthusiad faint o gymorth roedd ysgolion ac ymarferwyr yn ei dderbyn fel rhan o'r Cynllun ar ôl iddynt orffen y cwrs, a pha weithgareddau eraill roedd ymarferwyr ac ysgolion yn eu gwneud er mwyn cynnal y sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y cwrs.
- 5.55 Darparu'r cyrsiau yn unig yw cytundeb y Llywodraeth gyda'r darparwyr hyfforddiant, a daw'r cyswllt ffurfiol rhwng y darparwyr a'r cyfranogwyr i ben ar ddiwedd y cwrs. Fodd bynnag, er nad yw cynnig cymorth i ymarferwyr ar ôl iddynt orffen y cwrs sabothol yn rhan o'r cytundeb, dywedodd rhai ymarferwyr fod darparwyr hyfforddiant wedi cadw mewn cysylltiad â hwy ar ôl y cwrs a'u bod wedi cynnig cymorth ôl-ofal anffurfiol iddynt yn y broses.
- 5.56 Rôl y consortia yw darparu cefnogaeth ddilynol i'r cyrsiau, ac maent yn gwneud hyn trwy gefnogaeth athrawon bro/athrawon ymgynghorol yr ysgolion. Mae ariannu'r ddarpariaeth hon, fodd bynnag, y tu allan i gytundeb y Cynllun, a phenderfyniad i'r consortia unigol yw beth i'w ariannu a sut y gwneir hynny. Gall y consortia rhanbarthol ddefnyddio'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol i ariannu'r ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, nododd rhai swyddogion consortia bod yr amser oedd ar gael iddynt i gefnogi'r ysgolion a'r ymarferwyr gyda chymorth ôl-ofal yn gyfyngedig. Esboniodd y swyddogion bod hyn wedi bod yn her gynyddol yn y blynyddoedd diweddar gyda nifer y cyn-gyfranogwyr yn cynyddu, a bod adnoddau i'w cefnogi wedi aros yr un fath. Roedd y darparwyr hyfforddiant hefyd o'r farn bod 'prinder athrawon ymgynghorol' a phrinder amser i gefnogi'r ysgolion wedi'r cwrs.
- 5.57 Ers i'r swyddogion fynegi'r safbwyntiau hyn, mae un o'r darparwyr hyfforddiant wedi'i gontractio i greu adnoddau, sy'n cynnwys pecyn ôl-ofal a gaiff ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r consortia. Bydd hyn yn cynyddu faint o adnoddau ôl-ofal y gall swyddogion gyfeirio ymarferwyr atynt o hyn ymlaen.

5.58 Gofynnwyd i'r ymarferwyr a gyfwelwyd a oeddent wedi derbyn cymorth ar ôl y cyrsiau, a nododd y mwyafrif ohonynt nad oeddent wedi derbyn unrhyw gymorth gan unrhyw un y tu allan i'r ysgol yn dilyn y cyrsiau.

'Dim ôl ofal wrth y consortiwm lleol na'r brifysgol - mi fydden ni'n disgwyl mwy gan fod y buddsoddiad yn y cwrs yn fawr.' (Ymarferydd cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn)

[There was] 'no support as I recall – just straight back into it after the course.'
(Ymarferydd cwrs Mynediad)

5.59 Esboniodd rhai ymarferwyr a phenaethiaid, fodd bynnag, eu bod wedi derbyn cefnogaeth i weithredu'r hyn a ddysgwyd ar y cwrs, gan gynnwys ymweliadau ysgol gan athrawon bro i arsylwi a chynnig adborth ar wersi a gwersi gloywi. Nododd rhai ymarferwyr hefyd eu bod wedi cael sesiwn gyda swyddog consortiwm a'u pennaeth i'w helpu i gynllunio sut roeddent yn mynd i ymgorffori'r sgiliau a'r arferion a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod sabothol yn yr ystafell ddosbarth.

'Cawsom ni gyfarfod gyda swyddog [consortium] a'r pennaeth ym mis Medi ac mae cynllun [ar gyfer defnyddio mwy o Gymraeg yn y dosbarth] gyda ni am y flwyddyn nawr.' (Ymarferydd cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn)

'The athrawes bro tends to provide it [support after the course]. The staff member had lengthy meetings with her, and lessons were monitored.' (Pennaeth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg)

5.60 Nododd rhan fwyaf yr ymarferwyr a phenaethiaid y byddent yn croesawu mwy o gefnogaeth ar ôl y cwrs, ac roeddent o'r farn y dylid cynnig hyn fel rhan o'r Cynllun. Yn achos y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn yn arbennig, rhannodd ymarferwyr, penaethiaid a darparwyr yr un dyhead o gwmpas yr angen, yn eu tyb hwy, i ffurfioli ychydig ar yr ôl-ofal sydd ar gael yn y cyfnod ar ôl y cwrs. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylai fod gofyniad neu gefnogaeth i ymarferwyr y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn, fel rhan o'u telerau i ymgymryd â'r cwrs, i gwblhau tasgau neu heriau penodol yn ystod y flwyddyn yn dilyn y cwrs er mwyn cynnal eu brwdfrydedd a'u sgiliau Cymraeg. Mae hwn yn enghraifft arall sy'n awgrymu bod rhai ymarferwyr a phenaethiaid yn cam-ddehongli rôl y Cynllun fel un sy'n cefnogi datblygiad parhaus sgiliau ac arferion addysgu ymarferwyr.

Cefnogaeth ddilynol wedi'r cyrsiau: cefnogaeth gan yr ysgol

- 5.61 Nododd 20 o'r 54 o ymarferwyr a gyfwelwyd eu bod wedi cael cymorth gan eu penaethiaid neu gydweithwyr eraill yn eu hysgol i'w cynorthwyo i weithredu'r sgiliau Cymraeg yr oeddent wedi'u dysgu. Roedd enghreifftiau o'r cymorth yn amrywio o gydweithwyr Cymraeg eu hiaith yn gwneud ymdrech benodol i siarad Cymraeg â nhw y tu allan i'r ystafell ddosbarth, i sesiynau penodol gyda'r pennaeth neu yn ystod diwrnodau hyfforddiant mewn swydd i gynllunio sut yr oeddent yn mynd i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn y dosbarth.
- 5.62 Nododd naw o'r 54 o ymarferwyr nad oeddent wedi derbyn unrhyw gefnogaeth gan eu hysgol ar ôl iddynt orffen y cwrs. Roedd rhai o'r ymarferwyr hyn o'r farn nad oedd angen cefnogaeth ychwanegol ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Ar y llaw arall, nododd tua un rhan o dair o'r ymarferwyr (17) y byddent wedi dymuno derbyn mwy o gefnogaeth gan yr ysgol a / neu asiantaethau eraill wedi i'r cwrs orffen.

Datblygiad proffesiynol parhaus

- 5.63 Nid rôl y Cynllun na chyfrifoldeb y consortia rhanbarthol yn unig yw cefnogi datblygiad parhaus sgiliau Cymraeg ymarferwyr unigol. Mae gan ysgolion ac ymarferwyr unigol gyfrifoldeb dros eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain fel y nodir yn y model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. Mae yna hefyd gyfleoedd dysgu proffesiynol iaith Gymraeg arall ar gael i ymarferwyr.
- 5.64 Roedd tystiolaeth glir yn ffurflenni cais y Cynllun o fwriad nifer o ymarferwyr i ddefnyddio'r cyrsiau fel rhan o'u datblygiad proffesiynol personol. Fodd bynnag, prin iawn oedd yr enghreifftiau oedd gan ymarferwyr i'w cynnig yn ystod cyfweiliadau, a nifer fechan yn unig a nododd eu bod wedi parhau i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a'u methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Gymraeg ar ôl iddynt gwblhau'r cwrs.
- 5.65 Rhoddwyd sawl rheswm ymarferol am hyn (pwysau amser, cyfrifoldebau y tu allan i'r ysgol; wedi newid rôl yn yr ysgol). Er bod y rhesymau hyn yn ddilys, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw cynnal y sgiliau wedi bod yn flaenoriaeth iddynt hwy fel ymarferwyr nac i'w hysgolion dros y blynyddoedd wedi'r cwrs. Mae hyn, o bosib, yn awgrymu bod ymarferwyr o'r farn mai dim ond ymrwymiad tymor byr sydd ei angen i wella eu sgiliau iaith Gymraeg a'u methodolegau addysgu - h.y. mynychu'r cwrs Sabothol. Os felly, nid fyddent o reidrwydd yn ystyried y Cynllun fel un cam yn

unig o fewn eu datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â'u sgiliau iaith Gymraeg a'u harferion addysgu, ond yn hytrach yn ystyried eu cyfranogiad yn y Cynllun fel yr unig gam sydd ei angen.

- 5.66 Cafwyd rhai enghreifftiau, fodd bynnag, o ymarferwyr a oedd wedi parhau â'u datblygiad iaith Gymraeg ar ôl y cwrs - drwy gymorth gan swyddogion y consortia a chan eu hymdrechion eu hunain. Nodwyd gan yr ymarferwyr bod hyn wedi eu galluogi i gynyddu a gwella ymhellach eu defnydd o'r Gymraeg yn y dosbarth.
- 5.67 Gan ddychwelyd at ein theori newid, os nad yw ymarferwyr yn cynnal ac yn cryfhau eu sgiliau fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus, yna bydd hyn yn debygol o effeithio ar eu gallu i gynnwys mwy o Gymraeg yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm. Felly hefyd bydd y Cynllun yn cael llai o gyfraniad at wella addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Effaith y cyrsiau a'r Cynllun

- 5.68 Mae ein theori newid yn dangos y ffactorau sydd yn gorfod bod mewn lle i sicrhau bod mynychu'r cyrsiau yn gwella sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr yn ogystal â'u harferion addysgu Cymraeg (heblaw am y cyrsiau Uwch), a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn y dosbarth. Yn ôl y theori dylai datblygu neu wella'r sgiliau a'r arferion addysgu hyn alluogi ymarferwyr i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y dosbarth a chynnwys mwy o Gymraeg yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adran hon yn seiliedig ar farn ymarferwyr ar sut ac i ba raddau maent yn rhoi'r sgiliau a'r arferion addysgu a ddatblygwyd ar waith, a'r effaith mae hyn wedi ei gael ar y ffordd maent yn addysgu'r Gymraeg neu yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu.

Effaith ar sgiliau ieithyddol a hyder i'w defnyddio

- 5.69 Nododd bob un o'r ymarferwyr a gyfwelwyd fod eu sgiliau iaith Gymraeg, yn eu barn hwy, wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan yn y cwrs Sabothol. Yn ogystal, nododd y rhan fwyaf bod eu hyder i ddefnyddio'r sgiliau hynny wedi datblygu neu wella. Nododd y cynorthwyywyr oedd wedi mynychu'r cwrs lefel Mynediad eu bod yn teimlo eu bod wedi datblygu digon o sgiliau Cymraeg i'w galluogi i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Er bod y cyrsiau Mynediad yn gymharol fyr, roedd digon o gynnwys yn y cwrs, yn ôl y cyfweleion, i'w galluogi i ddefnyddio'r

Gymraeg yn achlysurol gyda phlant yn y dosbarth ac wrth gynnal tasgau eraill fel darllen straeon byrion yn y Gymraeg i grwpiau o blant: tasgau nad oeddynt yn medru eu gwneud yn y Gymraeg cyn mynychu'r cwrs.

5.70 Roedd rhan fwyaf yr ymarferwyr a fu ar y cwrs Sylfaen o'r farn bod eu hyder yn y Gymraeg wedi cynyddu yn dilyn y cwrs. Fodd bynnag, roedd mwy o amrywiaeth barn ymhlith y grŵp hwn o gyfweleion. Er bod y rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod y cwrs wedi bod yn addas ar eu cyfer, nododd un rhan o dair (saith allan o 22) y byddent wedi dymuno gallu gwella eu sgiliau a'u hyder ymhellach. Esboniodd yr ymarferwyr hyn nad oedd y cynnydd yn eu sgiliau ieithyddol wedi bod yn ddigonol i'w galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth i'r graddau y byddent wedi ei ddymuno. Roedd yr ymarferwyr a fu ar gws Sylfaen hefyd yn fwy tebygol nac ymarferwyr cyrsiau eraill o nodi eu bod yn teimlo bod eu sgiliau a'u hyder wedi lleihau dros amser ers bod ar y cwrs, ac felly'n teimlo bod angen rhagor o hyfforddiant a chefnogaeth arnynt.

5.71 Nododd pob un o'r cyfweleion a fu ar gyrsiau Uwch (y cyrsiau uwch i gynorthwywyr a'r cyrsiau uwch i athrawon) eu bod yn teimlo bod cynnydd sylweddol wedi bod yn eu sgiliau iaith Gymraeg. Gan fod y cwrs yma ar gyfer ymarferwyr a oedd eisoes yn medru'r Gymraeg, cynnydd yng nghywirdeb eu hiaith, yn enwedig eu hiaith ysgrifenedig, oedd y prif beth a nodwyd gan gyfranogwyr y cyrsiau yma. Adroddodd rhai bod y cwrs wedi eu galluogi i ddefnyddio mwy o dermau Cymraeg cywir yn eu gwersi a chynnig model iaith da i'w dysgwyr.

'Rwy'n dod o deulu di-Gymraeg ond wedi cael addysg Gymraeg ond doedd gen i ddim yr hyder gyda phethau gramadegol fel treiglo ayyb. Er fy mod yn gallu siarad Cymraeg cyn y cwrs nid oedd gen i'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn yr ysgol. Ar ôl y cwrs mi oedd gen i'r hyder oedd angen.' (Ymarferydd cwrs Uwch i gynorthwywyr)

'Heb fynychu'r cwrs fyddwn i ddim wedi cael digon o hyder i addysgu mewn Ysgol Gymraeg. Yn bendant ni fyddwn lle ydw i heddiw yn [mewn ysgol cyfrwng Cymraeg] heb fynychu'r cwrs.' (Ymarferydd cwrs Uwch i athrawon)

5.72 Roedd enghreifftiau o ddefnyddio'r sgiliau ieithyddol ar ôl y cwrs yn fwy niferus ymhlith y rhai oedd wedi dilyn y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn. Roedd rhan fwyaf ymarferwyr y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn yn teimlo eu bod bron yn rhugl yn y Gymraeg wedi cwblhau'r cyfnod sabothol, ac o ganlyniad i'r cwrs. Amlygwyd hyn yn y ffaith bod chwech allan o'r wyth a gyfwelwyd wedi dewis cynnal y cyfweliad yn

gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigiodd yr ymarferwyr hyn enghreifftiau o sut roedd y cynnydd yn eu medrau a'u geirfa Gymraeg wedi eu galluogi i gyflwyno gwersi cyfrwng Cymraeg ar draws nifer o bynciau, ac i fod yn hyderus wrth gywiro gwaith ysgrifenedig a llafar disgyblion yn eu hysgol.

- 5.73 Er bod yr ymarferwyr o'r farn bod eu sgiliau ieithyddol wedi cynyddu ers mynychu'r cwrs, nid yw'n bosibl priodoli gallu ieithyddol ymarferwyr ar ddiwedd y cwrs yn gyfan gwbl i'r hyfforddiant a dderbyniwyd. Mae gallu ieithyddol ymarferwyr ar ddiwedd y cwrs hefyd yn rhannol ddibynnol ar eu gallu ieithyddol ar ddechrau'r cwrs. Roedd asesiad ymarferwyr eu hunain o'u gallu ieithyddol yn y Gymraeg cyn iddynt fynychu un o'r cyrsiau yn amrywio yn ôl lefel y cwrs. Nododd rhan fwyaf yr ymarferwyr oedd wedi mynychu'r cwrs Mynediad nad oedd ganddynt bron unrhyw sgiliau Cymraeg cyn dechrau'r cwrs. Roedd rhan fwyaf yr ymarferwyr a fynychodd gwrs Sylfaen yn cofio rhywfaint o Gymraeg ers eu dyddiau ysgol a / neu wedi mynychu gwersi yn eu hamser eu hunain cyn mynychu'r cwrs. Nododd rhan fwyaf yr ymarferwyr a oedd wedi mynychu'r cyrsiau Uwch eu bod wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac roedd un wedi gwneud gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. I'r rhain roedd y cwrs Uwch yn gyfle iddynt wella cywirdeb eu Cymraeg ac i fod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r iaith yn y dosbarth.
- 5.74 Ymysg yr ymarferwyr a gyfwelwyd a fynychodd y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn, roedd dau wedi eu geni a'u haddysgu y tu allan i Gymru ac felly heb ddysgu Cymraeg yn yr ysgol. Roedd un o'r ymarferwyr wedi gwneud Safon Uwch Cymraeg ail iaith tra yn yr ysgol. Roedd gan bob un ohonynt rywfaint o sgiliau Cymraeg ac wedi naill mynychu cyrsiau ar eu liwt eu hunain yn y gorffennol neu wedi derbyn rhywfaint o addysg Cymraeg yn yr ysgol. Nid yr hyfforddiant yn unig felly sydd yn gyfrifol am sgiliau ieithyddol ymarferwyr a fynychodd y cyrsiau. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth a gynigiwyd, mae'n ymddangos fod yr hyfforddiant wedi gwella'r sgiliau oedd ganddynt yn barod.

Effaith ar fethodoleg addysgu

- 5.75 Yn ogystal â gwella sgiliau ieithyddol ymarferwyr, mae'r cyrsiau Sabothol yn rhoi hyfforddiant ar fethodolegau addysgu i'r cyfranogwyr. Cynigiodd ymarferwyr enghreifftiau o dechnegau addysgu newydd yr oeddent wedi'u dysgu ar y cwrs. Roedd y rhain yn dechnegau addysgu Cymraeg yn ogystal â thechnegau ac adnoddau i gyflwyno mwy o Gymraeg neu wella sgiliau llythrennedd Cymraeg

dysgwyr mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Nododd un ymarferydd fu ar gwrs Mynediad bod y cwrs wedi dangos iddo ddulliau posibl o ddefnyddio geiriau Cymraeg yn ystod chwarae achlysurol yng ngwersi'r Cyfnod Sylfaen.

- 5.76 Ymarferwyr fu ar y cwrs Sylfaen a rannodd y rhan fwyaf o enghreifftiau o sut roeddent wedi addasu a newid eu dulliau addysgu ar ôl gorffen y cwrs. Nododd rhai bod y dulliau a ddatblygwyd o ran sut i addysgu Cymraeg fel ail iaith wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol iddynt.

'I learnt a lot about how to teach a language as a second language – for example describe a scene using visual pictures as prompts - then repeat the exercise but without the picture etc - one of many good examples they showed us.'

(Ymarferydd cwrs Sylfaen)

Nododd nifer o'r ymarferwyr a oedd wedi mynychu'r cwrs Sylfaen eu bod wedi cael eu cyflwyno i adnoddau addysgu yn ogystal â methodolegau yn ystod y cwrs, ac roedd hyn wedi eu galluogi i gyflwyno mwy o Gymraeg mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Roedd rhai o'r syniadau yn seiliedig ar gemau neu weithgareddau yn ymwneud â phwnc neu thema benodol a oedd yn cynnwys termau Cymraeg:

'[We were given] lots of ideas of how to use Welsh in various instances; we were introduced to magazines, new books, and programmes and games. I picked up lots of ideas from the other teachers on the course.' (Ymarferydd cwrs Sylfaen)

'All the resources and lesson plans developed during the course were pulled together and shared with everyone in the group at the end of the course. So, I've got access to those even now, and I still use them when delivering lessons across the curriculum'. (Ymarferydd cwrs Sylfaen)

Defnyddio sgiliau Cymraeg ac arferion addysgu yn y Gymraeg yn y dosbarth

- 5.77 Er mwyn i ymarferwyr ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y dosbarth a chynnwys mwy o Gymraeg mewn gwersi ar draws y cwricwlwm mae angen i ymarferwyr ddefnyddio'r sgiliau ieithyddol a dulliau addysgu a ddatblygwyd yn ystod y cwrs yn y dosbarth ar ôl dychwelyd i'r ysgol.
- 5.78 Cafwyd nifer o enghreifftiau o sut mae'r sgiliau ieithyddol a'r technegau addysgu a ddatblygwyd gan gyfranogwyr y Cynllun yn cael eu defnyddio yn y dosbarth.

Dywedodd pob un o'r cynorthwywyr dysgu a fu ar y cwrs Mynediad eu bod wedi cyflwyno mwy o Gymraeg i'r ystafell ddosbarth o ganlyniad i'r cwrs.

- 5.79 Nododd mwyafrif y rhai fu ar gwrs Sylfaen (20 allan o 22) eu bod hefyd wedi defnyddio mwy o Gymraeg yn yr ysgol yn dilyn y cwrs, ond nid oedd o hyd yn glir o'r ymatebion hyn faint oedd yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd yn y dosbarth. Roedd y ddau oedd heb ddefnyddio mwy o Gymraeg o ganlyniad i'r cwrs yn athrawon cyflenwi ac yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o hyder i ddefnyddio mwy o Gymraeg gan eu bod yn newid dosbarth ac ysgol yn aml. Fodd bynnag gwnaeth un o'r athrawon cyflenwi nodi ei bod wedi cael llawer mwy o waith cyflenwi ar ôl gorffen y cwrs Sabothol Sylfaen oherwydd ei bod yn awr yn gallu cynnig sgiliau Cymraeg.
- 5.80 Nododd saith allan o'r 22 cyfranogwr ar gwrs Sylfaen eu bod wedi cyflwyno mwy o Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn dilyn y cwrs. Mewn rhai achosion roedd hyn oherwydd bod polisi a ffocws yr ysgol wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hyn; hynny yw, ffactorau ar wahân i fod wedi mynychu'r cwrs wnaeth beri i'r newid hyn ddigwydd. Ar y llaw arall, nododd dau ymarferydd eu bod wedi cyflwyno mwy o Gymraeg ar draws y cwricwlwm oherwydd bod y cwrs wedi eu hysgogi a'u hysbrydoli i wneud hynny.
- 5.81 Nododd rhai o gyfranogwyr y cwrs Sylfaen nad oeddent yn teimlo'n hyderus iawn i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y dosbarth ar ôl gorffen y cwrs. Yn ogystal, nododd yr ymarferwyr hyn bod eu sgiliau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg, yn eu barn hwy, wedi erydu dros amser. Oherwydd hyn, nododd un ymarferydd nad oedd yn defnyddio bron unrhyw Gymraeg yn y dosbarth erbyn hyn.
- 5.82 Cynigiodd holl gyfranogwyr y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn enghreifftiau o sut roeddent wedi cyflwyno mwy o Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn eu dosbarthiadau. Nodwyd enghreifftiau gan un ymarferydd o sut roedd wedi defnyddio adnoddau a ddatblygwyd yn ystod y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn yn ymwneud â chwpan pêl droed y byd i gyflwyno mwy o Gymraeg yn ymwneud â daearyddiaeth. Nododd ymarferydd arall ei f/bod wedi defnyddio'r adnoddau a methodolegau addysgu o'r cwrs i ddatblygu a chyflwyno gwersi hanes yn ddwyieithog.
- 5.83 Roedd yr ymarferwyr Cymraeg Mewn Blwyddyn yn cydnabod bod mwy o ffocws ar gyflwyno a defnyddio mwy o Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn cael ei ddylanwadu i raddau helaeth gan elfennau allanol fel y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, roedd ymarferwyr y cwrs blwyddyn o'r farn mai'r sgiliau a'r technegau a ddatblygwyd ar y cwrs Sabothol oedd wedi eu galluogi i ddefnyddio mwy o Gymraeg:

'Mae lot wedi newid. Nawr dwi'n dysgu pethau yn Gymraeg drwy'r dydd ac ar draws y cwricwlwm yn Gymraeg.' (Ymarferydd cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn)

- 5.84 Nododd un cyfranogwr y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn fod yr hyn a ddysgodd trwy'r cwrs am fethodoleg addysgu ail iaith wedi gwneud iddi sylweddoli y gallai ddisgwyl llawer mwy gan ei disgyblion mewn perthynas â'u gallu i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Roedd hyn wedi ei hannog i 'wthio'i' disgyblion ychydig ymhellach trwy gyflwyno'r Gymraeg ym mhob pwnc.
- 5.85 Er bod ymarferwyr y cwrs lefel Uwch eisoes yn defnyddio'r Gymraeg, roeddent yn teimlo bod y cwrs wedi gwella cywirdeb eu hiaith, ac yn eu barn hwy, gwella ansawdd cyflwyniad eu gwersi. Ymhlith yr enghreifftiau a gynigiwyd oedd ymarferydd yn defnyddio termau Cymraeg lle'r oedd tuedd i ddefnyddio termau Saesneg cyn mynychu'r cwrs.
- 5.86 Er bod yr enghreifftiau a nodwyd uchod yn darparu tystiolaeth anecdotaidd sy'n ymwneud â'r sgiliau a ddatblygir a sut y cânt eu defnyddio, nid oes tystiolaeth ehangach o sut y defnyddir y sgiliau a ddatblygwyd gan yr holl ymarferwyr a fynychodd y cyrsiau na'r gwahaniaeth a wnânt. Disgwylir i ysgolion nodi tystiolaeth yn eu cynlluniau datblygu ysgolion o sut mae'r hyfforddiant hwn wedi gwneud gwahaniaeth. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos o'r cyfweiliadau a gafwyd gyda swyddogion consortia bod unrhyw dystiolaeth o'r fath yn cael ei chynhyrchu na'i chasglu ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.

Effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol

- 5.87 Nododd rhan fwyaf yr ymarferwyr a'r penaethiaid a gyfwelwyd eu bod yn credu bod cynnydd wedi bod yn y defnydd anffurfiol o'r iaith tu allan i'r dosbarth, ac yn ehangach ar draws yr ysgol, ers i ymarferwyr o'u hysgol fod ar un o'r cyrsiau Mynediad, Sylfaen neu Cymraeg Mewn Blwyddyn. Ymhlith yr enghreifftiau a gynigiwyd oedd mwy o ddefnydd o Gymraeg achlysurol wrth siarad gyda chydweithwyr a disgyblion y tu allan i'r dosbarth, mwy o arddangosfeydd gweledol cyfrwng Cymraeg, a mwy o waith cyfrwng Cymraeg yn y dosbarth.

'The language has rubbed off on other colleagues and they're more willing to use Welsh with each other. Children now hear Welsh being used more naturally.'
(Pennaeth ysgol gynradd Saesneg)

'Siarad Cymraeg gydag athrawon eraill a phlant nawr - plant yn dechrau ateb nôl yn y Gymraeg nawr hefyd.' (Ymarferydd cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn)

- 5.88 Nododd pedwar ymarferydd a oedd wedi mynychu'r cwrs Sylfaen eu bod wedi cyflwyno mwy o wasanaethau ysgol yn y Gymraeg ers cwblhau'r cwrs, ac roedd eraill wedi annog mwy o weithgareddau iaith Gymraeg trwy'r ysgol gan gynnwys diwrnodau Eisteddfod.

'I wrote a script in Welsh for the school eisteddfod and am now conducting assemblies in Welsh - I couldn't do that before the course.' (Ymarferydd cwrs Sylfaen)

- 5.89 Roedd enghreifftiau niferus o gynyddu defnydd Cymraeg achlysurol gan yr ymarferwyr yn dilyn mynychu'r cyrsiau Sabothol, ond nid oes tystiolaeth glir mai'r Cynllun oedd sbardun y cynnydd. Yn ôl penaethiaid, mae ffactorau eraill megis paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, ymwneud rhai ysgolion gyda'r rhaglen Siarter Iaith/Cymraeg Campus, neu gymhelliad personol yr ymarferydd wedi dylanwadu ar y cynnydd hwn hefyd. Fodd bynnag, ymddengys bod y Cynllun wedi hwyluso'r cynnydd, er bod ffactorau eraill hefyd wedi dylanwadu ar yr angen i anelu at y cynnydd. Yn hynny o beth, mae'n bosibl dod i'r casgliad fod y ffactorau eraill hyn a'r Cynllun yn atgyfnerthu ei gilydd wrth gyfrannu at newid yn y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i defnyddio mewn ysgolion.

Effaith ar arweinyddiaeth ymarferwyr

- 5.90 Un o'r canlyniadau y mae'r Cynllun yn anelu at ei gyflawni yw bod ymarferwyr yn dangos mwy o arweinyddiaeth mewn perthynas â'r Gymraeg o fewn eu hysgol ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Er mwyn ymchwilio a oedd ymarferwyr wedi gwneud hyn, holwyd y penaethiaid a'r ymarferwyr a oedd unigolion wedi derbyn cyfrifoldebau ychwanegol o fewn eu hysgol yn sgil y cwrs. Cyfeiriodd nifer o ymarferwyr at enghreifftiau lle roeddent yn awr yn chwarae rôl fwy blaenllaw yn trefnu a chynnal gweithgareddau Cymraeg ac yn annog brwdfrydedd gan eraill.
- 5.91 Rhannodd cynorthwyyr a fu ar y cwrs lefel Mynediad rai enghreifftiau o sut maent yn cefnogi cynllunio ar gyfer cynyddu defnydd o'r iaith ar draws yr ysgol. Roedd eu gallu i wneud hyn, yn eu barn hwy, o ganlyniad uniongyrchol i fod wedi mynychu'r cwrs.

5.92 Roedd enghreifftiau mwy niferus gan y rheiny a fu ar y cwrs Sylfaen o weithgareddau neu drefniannau ar draws eu hysgol lle roeddent wedi cymryd yr awenau ers mynychu'r cwrs. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ymgymryd â rôl cydlynedd iaith Gymraeg yn eu hysgol;
- cefnogi'r cydlynedd iaith Gymraeg presennol i ddatblygu gweithgareddau ysgol-gyfan newydd yn y Gymraeg;
- cychwyn clwb Cymraeg o'r newydd i ddisgyblion yn yr ysgol;
- sefydlu grŵp rhieni lle gallai rhieni ddod at ei gilydd i ddysgu mwy o ganeuon Cymraeg a Chymraeg achlysurol y gallent wedyn eu defnyddio i annog eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref.

Roedd pedwar o'r wyth a fu ar y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn â chyfrifoldeb dros wella'r broses o gyflwyno a defnyddio mwy o Gymraeg ar draws holl weithgareddau'r ysgol. Esboniodd un ohonynt ei bod wedi ymgymryd â nifer o gyfrifoldebau ychwanegol ar ôl y cwrs gan gynnwys arwain ar y Gymraeg ar draws yr ysgol, cyflwyno syniadau i gefnogi'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm i'r uwch dîm rheoli, ac adolygu cywirdeb y cynnwys Cymraeg o fewn llyfrau gwaith disgyblion ar draws yr ysgol. Roedd gan ymarferydd arall gyfrifoldeb dros godi safon y Gymraeg a'r Saesneg ar draws ei hysgol.

5.93 Ymddengys o'r sampl fach hon o gyfweiliadau bod rhai o'r ymarferwyr a gymerodd ran yn y Cynllun wedi ymgymryd â chyfrifoldebau newydd sy'n dylanwadu ar addysgu Cymraeg ar draws eu hysgol. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r dystiolaeth hon a oedd y cyfrifoldebau ychwanegol a gymerwyd gan yr unigolion hyn o ganlyniad uniongyrchol i'w cyfranogiad yn y Cynllun. Roedd rhai ymarferwyr eisoes wedi ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn cyn mynychu'r cwrs, ac roedd eraill wedi mynychu'r cwrs i baratoi ar gyfer y cyfrifoldebau ychwanegol yr oedd disgwyl iddynt ymgymryd â nhw ar ôl cwblhau'r cwrs. Serch hynny, ym mhob achos roedd yr ymarferwyr o'r farn eu bod yn gallu ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn yn well o ganlyniad i fod ar y cwrs.

Dylanwad ar ethos ac agwedd tuag at y Gymraeg

5.94 Gofynnwyd i benaethiaid ac ymarferwyr nodi a oeddent yn teimlo bod cymryd rhan yn y Cynllun wedi dylanwadu ar agwedd ac ethos eu hysgol tuag at y Gymraeg. Yn nhyb y rhan fwyaf o benaethiaid ac ymarferwyr, roedd gan eu hysgolion agwedd ac

ethos cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg eisoes. Mae hyn i'w ddisgwyl mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (Ile'r oedd ymarferwyr wedi dilyn cwrs Uwch) ond roedd y safbwynt yn gyson ar draws yr ysgolion. Roedd y penaethiaid a'r ymarferwyr o'r farn bod cyfranogi yn y Cynllun wedi cefnogi ethos eu hysgol at y Gymraeg yn hytrach na dylanwadu arno.

- 5.95 Fodd bynnag, adroddodd nifer fechan bod y Cynllun wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ethos ag agwedd eu hysgol,

'Yes – did have a positive influence in attitude to Welsh, there was not much focus on Welsh language or culture before. The teacher has introduced a bit more of both since returning [from the sabbatical course].' (Pennaeth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg)

- 5.96 Er hyn, hyd yn oed ymhlith y penaethiaid a'r ymarferwyr a nododd eu bod wedi gweld newid agwedd yn ddiweddar, roeddent o'r farn mai ffactorau eraill oedd y prif ddylanwadau yn hytrach na'u hymwneud nhw â'r Cynllun. Nododd ymarferwyr fod y Gymraeg yn dod yn fwyfwy o flaenoriaeth yn eu hysgol am nifer o resymau gan gynnwys cyflwyno'r cwricwlwm newydd, ymateb i argymhellion yn dilyn arolwg Estyn a chymryd rhan yn y rhaglen Siarter Iaith.

- 5.97 Ymddengys fod agwedd ac ethos presennol ysgolion tuag at y Gymraeg yn cael mwy o ddylanwad ar allu ymarferwyr i weithredu'r sgiliau a'r arferion a ddatblygwyd na'r dylanwad y mae sgiliau a galluoedd a ddatblygir gan ymarferwyr yn ei gael ar ethos ysgolion tuag at yr iaith.

Rhannu sgiliau ac arferion addysgu gyda chydweithwyr

- 5.98 Gall cefnogi unigolion sydd wedi elwa o'r cyrsiau i rannu'r arferion addysgu a ddatblygwyd ganddynt gydag ymarferwyr eraill, gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwersi yn eu hysgol. Gofynnwyd i benaethiaid a oedd unrhyw drefniadau mewn lle i ymarferwyr rannu eu profiadau a'u sgiliau newydd gyda'u cydweithwyr ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Cynigiodd nifer o benaethiaid a oedd wedi cefnogi ymarferwyr i fynychu cwrs Sylfaen enghreifftiau lle'r oedd ymarferwyr yn rhannu syniadau a phrofiadau gyda'i chydweithwyr yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd staff neu yn ystod rhwydweithio dydd i ddydd o fewn yr ysgol:

'The teacher [who attended the Foundation course] is always sharing ideas and resources with other members of staff.' (Pennaeth ysgol gynradd).

'I've shared resources [with colleagues] not sure if they've used them though'.
(Ymarferydd cwrs Sylfaen)

- 5.99 Cynigiodd rhai penaethiaid ac ymarferwyr enghreifftiau o brosesau mwy ffurfiol gan gynnwys arwain sesiynau hyfforddiant mewn swydd yn ymwneud â chynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ysgol a phwysleisio'r angen i gynnwys y Gymraeg mewn gwersi ar draws y cwricwlwm mewn cyfarfodydd staff.
- 5.100 Fodd bynnag, roedd yr enghreifftiau hyn yn y lleiafrif ac yn gyfyngedig yn bennaf i'r ymarferwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn. Nododd rhan fwyaf y penaethiaid a gyfwelwyd nad oedd unrhyw drefniadau penodol mewn lle yn eu hysgol i alluogi cyfranogwyr y Cynllun i rannu eu profiadau ar draws yr ysgol.

Rhannu profiadau y tu hwnt i'r ysgol

- 5.101 Gofynnwyd i randdeiliaid a oedd gweithdrefnau mewn lle i ymarferwyr rannu eu profiadau yn ehangach y tu hwnt i'w hysgolion eu hunain wedi'r cwrs. Soniodd y swyddogion consortia am gynadleddau a digwyddiadau lle'r oedd rhai o'r rheiny fu'n rhan o'r Cynllun wedi cael y cyfle i siarad am eu profiadau. Dim ond ymarferwyr a oedd wedi mynychu'r cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn a nododd enghreifftiau o sut yr oeddent wedi rhannu eu profiad a'u sgiliau addysgu gydag ysgolion eraill. Yr oedd hyn yn cynnwys un enghraifft lle'r oedd ysgol wedi derbyn grant gan y consortiwm i ryddhau'r ymarferydd o'i ysgol am ychydig ddyddiau i gyflwyno gwersi Cymraeg mewn ysgol arall o fewn eu clwstwr.

Rhwystrau

- 5.102 Mae'r adran hon yn adlewyrchu rhai o'r rhwystrau o ran cyflawni nodau arfaethedig y Cynllun, a amlygwyd drwy'r dystiolaeth a gasglwyd. Mae'n dychwelyd at rai pynciau sydd eisoes wedi'u trafod mewn adrannau cynharach, ond mae'n gwneud hynny yng nghyd-destun y rhwystrau sy'n gysylltiedig â hwy.

Rhwystrau rhag cymryd rhan

- 5.103 Nododd rhai penaethiaid nad oedd bob amser yn bosibl dod o hyd i athro neu gynorthwywyr addas i gyflenwi, ac felly nid oedd yn bosibl rhyddhau staff i fynychu'r

cyrsgiau. Er enghraifft, nododd un pennaeth fod trefnu darpariaeth gyflenwi i gymryd lle cynorthwywyr sy'n gyfrifol am ofalu am blant ag anghenion dysgu ychwanegol a'r athrawon mwyaf profiadol yn yr ysgol, yn arbennig o heriol.

- 5.104 Nododd rhai penaethiaid fod cyflwyno'r cwricwlwm newydd wedi eu harwain i ystyried yr angen i fuddsoddi yn sgiliau Cymraeg y gweithlu ac felly eu hangen am y cyrsiau Sabothol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad oeddent yn teimlo eu bod mewn sefyllfa i ryddhau ymarferwyr i fynychu cwrs Sabothol ar hyn o bryd, oherwydd bod angen iddynt aros yn yr ysgol i gefnogi paratoadau ar gyfer y gwaith ymarferol arall sy'n ymwneud â'r cwricwlwm newydd.

Rhwystrau rhoi'r sgiliau ar waith

- 5.105 Y rhwystr mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymarferwyr oedd y diffyg amser sydd ar gael i gynllunio'r ffordd orau o ddefnyddio'u sgiliau ieithyddol a dulliau addysgu newydd yn y dosbarth ar ôl dychwelyd i'r ysgol.
- 'Everyone is so busy and they come back off the course and straight back into the classroom environment. I barely have any time to ask them about what they've learnt etc.' (Pennaeth ysgol gynradd)
- 5.106 Rhwystr arall a nodwyd gan ddau ymarferydd fu ar gwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn oedd yr her o ail-ymgyfarwyddo nôl yn yr ysgol ar ôl bod i ffwrdd am flwyddyn. Er eu bod wedi cadw cyswllt gyda'u hysgolion, ac wedi dychwelyd i'r ysgol yn rheolaidd yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf, nid oedd y cyswllt hwn wedi cynnwys treulio amser yn ôl yn eu hystafell ddosbarth eu hunain. I'r ymarferwyr hyn roedd y broses o addasu yn ôl i'r drefn o addysgu eu dosbarth yn anodd am ychydig.
- 5.107 Ffactor arall a allai fod yn llesteirio dylanwad tymor hwy y Cynllun yw cynaliadwyedd y sgiliau a'r arferion addysgu a ddatblygir. Er enghraifft, nododd nifer o ymarferwyr a oedd wedi mynychu'r cwrs Sylfaen fod y sgiliau yr oeddent wedi'u datblygu wedi dirywio dros amser, a'u bod felly wedi colli eu hyder i ddefnyddio'r iaith.
- 5.108 Mae angen nodi ei bod yn debygol fod nifer o ffactorau a allai effeithio ar pa mor hir mae ymarferwyr yn gallu cynnal eu sgiliau, gan gynnwys eu brwdfrydedd personol i wneud hynny. Fodd bynnag, gall ffactorau eraill sydd y tu hwnt i'w rheolaeth gael dylanwad, gan gynnwys y flaenoriaeth a roddir ar y Gymraeg yn eu hysgol a lefel y cynllunio yn eu hysgol mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg o fewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Mae'r dystiolaeth o'r gwaith maes yn awgrymu, os na chaiff y

sgiliau a'r arferion hyn eu rhoi ar waith yn fuan ar ôl i ymarferwyr ddychwelyd i'r ysgol ac yn rheolaidd ar ôl hynny, yna bydd eu gallu i'w gweithredu yn lleihau'n gymharol gyflym.

Rhwystrau o ran dangos effaith ehangach a thymor hwy y Cynllun

- 5.109 Casglodd y gwaith maes dystiolaeth ar gyflawni nodau'r Cynllun o'r sampl o ysgolion ac ymarferwyr a gyfwelwyd, yn ogystal â chyfweliadau gyda rhanddeiliaid eraill a gwaith ymchwil desg. Fodd bynnag, gan mai sampl gymharol fach o ysgolion ac ymarferwyr a gyfwelwyd (tua 4 y cant o holl gyfranogwyr y Cynllun) ni allwn fod yn gwbl hyderus bod casgliadau'r dystiolaeth a gasglwyd yn ymwneud â phawb a gymerodd ran yn y Cynllun yn ystod y cyfnod hwn.

6. Casgliadau ac Argymhellion

- 6.1 Nod y gwerthusiad oedd asesu traweffaith y Cynllun ac archwilio sut, ac i ba raddau, y mae'r Cynllun yn cyfrannu at newid yn y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu neu yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion, a chyfraniad y Cynllun i ddarpariaeth datblygiad proffesiynol iaith Gymraeg neu gyfrwng Cymraeg i ymarferwyr.
- 6.2 Casglwyd dystiolaeth trwy ddulliau cymysg: roedd datblygu theori newid yn elfen ganolog o'r astudiaeth, a chynhaliwyd yr ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid a sampl o ymarferwyr a phenaethiaid er mwyn archwilio mewn mwy o ddyfnder y materion a amlygwyd wrth i'r theori gael ei datblygu. Mae angen cadw mewn cof, felly, nad yw'r dystiolaeth a gasglwyd am brofiadau ymarferwyr ac ysgolion unigol o anghenraid yn cynrychioli profiadau buddiolwyr y Cynllun yn ehangach. Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau ac yn cynnig argymhellion ar sail y dystiolaeth a gasglwyd.
- 6.3 Cwblhawyd adroddiad y gwerthusiad yn ystod pandemig COVID-19, yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd cyn i'r pandemig gychwyn. Yn amlwg, felly, mae'r hinsawdd o ran darparu'r Cynllun wedi newid yn ystod y misoedd diwethaf, gyda nifer o gyrsiau yn cael eu gohirio am resymau ymarferol, ac eraill yn cael eu trosi'n gyrsiau ar-lein. Wrth ystyried y casgliadau a'r argymhellion sy'n dilyn, mae'n bwysig cadw mewn cof y bydd y cyd-destun o ran eu gweithredu wedi newid.

Canfyddiadau cyffredinol

- 6.4 Mae'r cyd-destun polisi yn amlygu'r angen i wella sgiliau Cymraeg athrawon yn unol â gofynion y safonau proffesiynol a'r cwricwlwm ysgol newydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod targed uchelgeisiol erbyn 2050 o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, ac wedi pwysleisio pwysigrwydd y sector addysg er mwyn cyflawni'r nod hwn. O ganlyniad mae angen addysgu Cymraeg i bob disgybl, ac er mwyn cyflawni hyn, mae angen sicrhau bod gan ymarferwyr y sgiliau i wneud hynny.
- 6.5 Er nad oes data cadarn ar gael i ddangos y bwlch sgiliau rhwng yr hyn sydd ar gael a'r hyn sydd ei angen o ran sgiliau Cymraeg ymarferwyr addysg, roedd y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad yn dangos bod bwlch sgiliau mewn llawer o ardaloedd daearyddol ac mewn ysgolion unigol. Mae'n ymddangos felly angen o

hyd am ymyrraeth benodol i gynyddu sgiliau iaith Gymraeg a dulliau addysgu Cymraeg ymarferwyr ysgol.

- 6.6 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan sampl o ymarferwyr, penaethiaid a rhanddeiliaid eraill ar gyfer y gwerthusiad yn dangos eu bod yn fodlon ar y cyfan â dyluniad a chynnwys y Cynllun, ac yn awgrymu mân welliannau yn unig. Adroddodd pob un o'r ymarferwyr a gyfwelwyd bod y Cynllun wedi gwella eu sgiliau iaith Gymraeg a'u methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod galw o hyd ymhlith penaethiaid ac ymarferwyr am y cyrsiau sabothol a ddarperir. Daw'r gwerthusiad hwn felly i'r casgliad bod y Cynllun yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i sgiliau Cymraeg ymarferwyr, a bod angen o hyd am y Cynllun.

Argymhelliad 1 – Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu a chefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg fel rhan o raglen dysgu proffesiynol i ymarferwyr ysgol.

Defnydd Strategol o'r Cynllun Sabothol i greu newid

- 6.7 Mae'r Cynllun wedi'i dargedu at yr ysgolion a'r ymarferwyr hynny lle mae'r angen mwyaf i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr wedi'i nodi gan swyddogion consortia. Wrth wneud hyn mae'r Cynllun yn cefnogi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn *Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl*, i gefnogi a datblygu'r gweithlu addysg 'i addysgu Cymraeg fel iaith fyw a sicrhau cynnydd yn niferoedd y gweithwyr addysg proffesiynol a fydd yn gallu gweithio'n effeithiol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog' (Llywodraeth Cymru 2017d:26). Mae gofynion y cwricwlwm newydd o ran sicrhau bod dysgwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg wedi hoelio sylw ysgolion ac ymarferwyr tuag at wella'u sgiliau Cymraeg, ac ymddengys bod hyn hefyd wedi cyfrannu at y galw sydd am y cyrsiau Sabothol. Dylid nodi bod y Cynllun wedi bodoli ers cyn i'r strategaethau a'r polisïau a enwir uchod gael eu cyflwyno, ond canfu'r gwerthusiad bod aliniad rhwng nodau'r Cynllun a nodau'r strategaethau hyn.
- 6.8 Ar lefel sefydliadau unigol defnyddir y Cynllun i ateb blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau datblygu nifer o ysgolion. Mae'r cynlluniau hyn yn aml yn cynnwys bwriad a chymau gweithredu tuag at gynyddu defnydd o'r Gymraeg y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r blaenoriaethau hyn yn eu tro yn cael

eu dylanwadu gan amcanion neu ofynion ynghylch y Gymraeg mewn polisïau neu ddatblygiadau cenedlaethol gan gynnwys y cwricwlwm newydd, a chynlluniau megis Cymraeg Campus neu'r Siarter Iaith.

- 6.9 Mae'r safonau proffesiynol newydd yn gofyn bod ymarferwyr yn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn barhaus. Fodd bynnag, dim ond ym mis Medi 2018 y daeth y safonau newydd hyn yn statudol, ac felly nid welwyd llawer o dystiolaeth o'u dylanwad yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y gwerthusiad hwn. Gyda'r safonau proffesiynol bellach yn cael eu defnyddio gan bob athro ac arweinydd ysgol bydd yn bwysig bod y cyfleoedd a gynigir drwy'r Cynllun yn cael eu gweld yng nghyd-destun y safonau proffesiynol.

Argymhelliad 2 – Wrth hyrwyddo'r Cynllun a recriwtio ymarferwyr, dylai swyddogion consortia addysg rhanbarthol dynnu sylw ysgolion at sut mae'r Cynllun yn cyfrannu at wireddu nodau strategaethau addysg ac iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ac at alluogi ymarferwyr i fodloni'r safonau proffesiynol.

- 6.10 Er bod nifer o ysgolion yn nodi'r angen i wella sgiliau Cymraeg a methodolegau addysgu dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg ymarferwyr yn eu cynlluniau datblygu ysgol, nid yw'n ymddangos bod unrhyw ofyniad clir ar ysgolion i ddarparu tystiolaeth bellach ynglŷn â sut, nac i ba raddau, y mae sgiliau a methodolegau wedi eu rhoi ar waith ar ôl i gyfnod sabothol yr ymarferwyr ddod i ben. Nid oedd tystiolaeth glir ar gael (y tu hwnt i dystiolaeth hunan-adrodd gan y sampl a gyfwelwyd yn ystod cyfweiliadau'r gwerthusiad) o sut mae'r sgiliau a'r arferion hyn yn cael eu defnyddio yn yr ysgol yn y misoedd a'r blynyddoedd wedi i ymarferwyr fod ar gwrs. Heb y wybodaeth hon nid yw'n bosibl dod i gasgliad clir ynglŷn â'r graddau y mae'r Cynllun wedi ei ddefnyddio'n strategol i greu newid. Er mwyn asesu effaith y Cynllun mewn ffordd fwy systematig, byddai proses fwy penodol o gofnodi defnydd y sgiliau nôl yn yr ysgol a rhannu'r wybodaeth honno gyda'r consortia a Llywodraeth Cymru yn hanfodol. Gallai proses o gofnodi hefyd fod yn ffordd o rymuso nifer o elfennau eraill h.y. helpu i gynllunio'r gefnogaeth ôl-gwrs, helpu i sicrhau bod ysgolion ac ymarferwyr yn gwneud defnydd llawn o'r sgiliau newydd a ddatblygwyd a chyfrannu at gronfa o arferion da ynghylch sut i wneud y gorau o'r sgiliau newydd.

Argymhelliad 3 – Dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod ysgolion sy'n rhyddhau ymarferwyr i fynychu cyrsiau yn adrodd yn systematig ar sut mae ymarferwyr yn defnyddio eu sgiliau newydd wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd y cwrs. Dylai consortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i gynnwys y dystiolaeth hon yn eu cynllun datblygu ysgol ac mewn trafodaethau gyda'r ymgynghorwyr her.

Cyfraniad y Cynllun o ran datblygu sgiliau a gallu ymarferwyr, yng nghydestun ehangach eu datblygiad proffesiynol

- 6.11 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwerthusiad yn awgrymu fod sgiliau ieithyddol Cymraeg yr ymarferwyr a gyfwelwyd wedi gwella, yn eu tyb hwy, o ganlyniad i fynychu un o'r cyrsiau Sabothol. Cynigiwyd enghreifftiau o sut roedd ymarferwyr wedi rhoi'r sgiliau hyn ar waith yn y dosbarth ac ym mywyd ysgol yn ehangach. Cynigiwyd rhai enghreifftiau hefyd lle'r oedd ysgolion wedi cynllunio sut y byddai sgiliau ymarferwyr yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau ar ôl iddynt ddychwelyd o'r cyrsiau. Roedd yr enghreifftiau hyn yn cynnwys rhoi cyfrifoldebau ychwanegol i gydlynu gweithgareddau Cymraeg ar draws yr ysgol i ymarferwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y Cynllun. Fodd bynnag, nid oedd camau i wneud y defnydd gorau o'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y cwrs yn amlwg o fewn pob ysgol lle cyfwelwyd ymarferydd neu bennaeth, ac roedd ffactorau eraill (y Siarter Iaith yn benodol) hefyd wedi cael dylanwad.
- 6.12 Roedd nifer fach o ymarferwyr a holwyd heb ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg a ddatblygwyd drwy'r Cynllun yn eu hysgol. Roedd y rhesymau dros hyn yn amrywio o ddiffyg hyder neu gyfleoedd amlwg i'w defnyddio, i achosion lle'r oedd eu gallu a'u hyder i ddefnyddio'r sgiliau wedi dirywio dros amser. Esboniodd eraill nad oedd cyfle wedi bod i ymarfer neu fynychu hyfforddiant pellach fel yr oeddent wedi ei fwriadu.
- 6.13 Cafwyd nifer o enghreifftiau o ymarferwyr a oedd wedi cael cefnogaeth gan eu penaethiaid ac athrawon bro i gynllunio sut i roi'r arferion addysgu a ddatblygwyd ar waith ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn amlwg ymhob achos. Mewn nifer o achosion y disgwyl oedd y byddai'r ymarferwyr yn defnyddio'r arferion hyn yn y dosbarth yn syth ar ôl iddynt ddychwelyd o'r cwrs heb unrhyw gymorth ychwanegol gan yr ysgol.

- 6.14 Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a phenaethiaid yn cydnabod yr angen i gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg a methodolegau addysgu ymhellach ar ôl iddynt gwblhau'r cwrs, a dywedodd llawer ohonynt eu bod eisiau rhagor o gefnogaeth. Ymddengys fod llawer o benaethiaid, ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill yn disgwyl i'r cymorth datblygu parhaus hwn gael ei ddarparu drwy'r Cynllun, fel pecyn atodol, er nad yw hyn yn rhan o ddyluniad y Cynllun nac yn rhan o'r cytundebau i ddarparu'r cyrsiau. Y consortia sy'n darparu cefnogaeth ddilynol i'r cyrsiau, a hynny y tu allan i gytundeb y Cynllun. Nododd rhai swyddogion consortia bod yr amser oedd ar gael iddynt hwy i gefnogi'r ysgolion a'r ymarferwyr gyda chymorth ôl-ofal yn gyfyngedig. Cynigiwyd rhai enghreifftiau o ymarferwyr unigol a oedd wedi bwrw ati ar eu liwt eu hunain i gynnal ac ymestyn eu sgiliau iaith Gymraeg ymhellach ar ôl gorffen eu cwrs Sabothol, a'r ymarferwyr hyn oedd yn tueddu i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn rheolaidd yn eu gwersi. Ers i'r gwaith maes orffen mae un o'r darparwyr hyfforddiant wedi eu contractio i greu adnoddau, sy'n cynnwys pecyn ôl-ofal a fydd yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda'r consortia.

Argymhelliad 4 - Dylai consortia rhanbarthol rannu gwybodaeth glir â chyfranogwyr ar natur a ffynhonnell cymorth ddilynol sydd ar gael ar ddiwedd y cyrsiau. Gan ehangu ar waith sydd wedi dechrau ar becyn ôl-ofal, gallai'r dasg hon gynnwys mapio'r cymorth a'r hyfforddiant dilynol sydd ar gael ar draws pob rhanbarth a datblygu dealltwriaeth gliriach o'r anghenion cymorth dilynol.

Argymhelliad 5 - Dylai consortia rhanbarthol ehangu eu cymorth i ymarferwyr ac ysgolion drwy gynnig mwy o gefnogaeth ar sut i gynllunio i wneud y defnydd gorau o'r sgiliau a ddatblygwyd gan ymarferwyr yn ystod y cyrsiau Sabothol.

- 6.15 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod angen rhoi sylw pellach i sut mae'r Cynllun yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu ysgolion, ac i rôl y Cynllun o fewn ystod o ddarpariaeth dysgu proffesiynol i ymarferwyr. Wrth roi sylw pellach i hyn byddai angen pwysleisio rôl yr ymarferwyr eu hunain, yn ogystal â rôl arweinwyr ysgolion wrth gymryd cyfrifoldeb am gydnabod ac ymdrin ag anghenion datblygiad proffesiynol parhaus eu staff, yn hytrach na disgwyl i fynychu cwrs Cynllun Sabothol ynddo'i hun fod yr unig ateb. Fel rhan o hyn dylid edrych ar sut y gallai'r consortia addysg rhanbarthol gefnogi ymarferwyr ac ysgolion drwy hwyluso mynediad i hyfforddiant a chefnogaeth ddilynol ar ôl i ymarferwyr ddychwelyd i'w hysgolion.

Argymhelliad 6 - Dylai Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol bwysleisio mai un math o hyfforddiant, ymysg arlwy o bosibiliadau dysgu proffesiynol, yw cyrsiau Cynllun Sabothol. Dylid gwneud hyn er mwyn annog a chefnogi ysgolion ac ymarferwyr i ystyried y Cynllun fel un dull o gefnogi datblygiad sgiliau iaith Gymraeg a methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Gymraeg ymarferwyr ac nid yr unig ddull.

Cyfraniad y Cynllun Sabothol i arferion addysgu a darpariaeth gwricwlaidd ysgolion

- 6.16 Nododd ymarferwyr a fynychodd gyrsiau Sylfaen, Uwch a Chymraeg Mewn Blwyddyn eu bod wedi datblygu arferion addysgu newydd o ganlyniad uniongyrchol i'r cwrs. Roedd y rhain yn cynnwys arferion yn ymwneud ag addysgu Gymraeg fel ail iaith ac adnoddau i'w cefnogi i gyflwyno mwy o Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Nododd ymarferwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y cwrs Mynediad eu bod hwythau wedi dysgu mwy am reolau ysgrifennu'r iaith a datblygu mwy o hyder. Casglwyd tystiolaeth hefyd gan ymarferwyr a rhai penaethiaid ynglŷn â sut mae'r sgiliau hyn wedi cael eu rhoi ar waith gan y rhai a fynychodd y cwrs.
- 6.17 Er mwyn i'r Cynllun lwyddo, mae'n rhaid i ymarferwyr fedru rhannu'r arferion addysgu newydd gyda chydweithwyr yn eu hysgolion ar ôl diwedd y cwrs. Cafwyd enghreifftiau o ymarferwyr yn rhannu eu gwybodaeth am yr arferion ac adnoddau addysgu a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod sabothol gyda chydweithwyr yn ystod diwrnodau hyfforddiant mewn swydd. Nid oedd y rhannu hwn yn digwydd yn gyson, ac mae'r graddau y mae rhannu sgiliau a phrofiad yn digwydd eto i'w weld yn ddibynnol ar frwdfrydedd a gallu ymarferwyr unigol i wneud hyn, yn hytrach nag o ganlyniad i gynllunio bwriadus o fewn yr ysgol.
- 6.18 Casglwyd nifer fechan o enghreifftiau hefyd - gan ysgolion a swyddogion consortia - o sut mae ymarferwyr yn rhannu eu harferion addysgu ag ysgolion eraill o fewn eu clwstwr neu ar draws rhanbarthau a chonsortia. Roedd y rhain yn tueddu i fod yn ymarferwyr oedd wedi mynychu cwrs Gymraeg Mewn Blwyddyn, a phrin oedd enghreifftiau o hyn ymhlith ymarferwyr a fynychodd y cyrsiau eraill.

Argymhelliad 7 - Dylai ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ymarferwyr i rannu arferion addysgu ac enghreifftiau o roi eu sgiliau newydd ar waith gyda'u cydweithwyr ac ysgolion eraill er mwyn ymestyn cyrhaeddiad effaith y Cynllun.

Tystiolaeth at ddibenion gwerthuso

- 6.19 Casglodd y gwerthusiad dystiolaeth trwy ymchwil desg a chyfweiliadau gyda rhanddeiliaid a sampl o ysgolion ac ymarferwyr (tua 4 y cant o'r holl ymarferwyr a wnaeth gymryd rhan yn y Cynllun yn ystod y cyfnod 2013-2019). Er bod maint y sampl yn briodol ar gyfer ymchwil ansoddol ac yn cynnig cyfle i archwilio mewn dyfnder y cwestiynau ymchwil, dylid nodi fod y sampl fach o ysgolion ac ymarferwyr a gyfwelwyd yn golygu na allwn fod yn hyderus bod casgliadau'r dystiolaeth a gasglwyd yn gynrychioliadol o bawb a gymerodd ran yn y Cynllun yn ystod y cyfnod dan sylw.
- 6.20 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad yn cynnig gwybodaeth yn ymwneud ag effaith y Cynllun ar ymarferwyr ac ysgolion yn y tymor byr. Nid yw yn ein galluogi i ddod i gasgliadau pendant ar gyfraniad y Cynllun at ganlyniadau tymor hwy. Er mwyn dod i'r casgliadau hyn, byddai angen casglu ac adolygu data meintiol pellach. Amlygodd y broses o ddatblygu theori newid rai meysydd data allweddol y byddai eu hangen, yn ogystal â rhai bylchau yn y data sydd ar gael ar hyn o bryd ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Argymhelliad 8 - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal ymchwil meintiol i gasglu gwybodaeth gan fuddiolwyr y Cynllun – yn ymarferwyr ac ysgolion - i gyfrannu at ddarlun llawnach o effaith y Cynllun.

- 6.21 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r broses werthuso yn awgrymu fod y theori newid yn cynnig adlewyrchiad cywir o'r llif rhesymeg rhwng mewnbynnau, allbynnau a deilliannau'r Cynllun a'i gyfraniad i ganlyniadau tymor hwy. Er hynny, dylid ystyried y theori a gyflwynir ym Mhennod 4 yn theori ddrafft a fyddai'n elwa o gael ei gwirio a'i mireinio ymhellach. Dylai hyn gynnwys trafodaeth fanwl gyda rhanddeiliaid - cam na fu modd ei gwblhau fel rhan o'r gwerthusiad hwn oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Mae'r broses o ddadansoddi'r theori hefyd wedi datgelu rhai bylchau o ran data: mae'r dystiolaeth sy'n sail i ganfyddiadau'r gwerthusiad ar y cyfan wedi eu cyfyngu i arsylwadau ac enghreifftiau a ddarparwyd yn ystod cyfweiliadau. Gellid bod wedi

cryfhau'r casgliadau pe bai tystiolaeth ddogfennol ar gael, a data yn erbyn dangosyddion o ddefnydd sgiliau'r ymarferwyr ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol (gweler Argymhelliad 3 uchod).

Argymhelliad 9 - Dylai Llywodraeth Cymru roi sylw i fireinio'r theori newid ar gyfer y Cynllun Sabothol drwy (i) gynnwys mwy o fewnbwn gan randdeiliaid; (ii) gwneud y defnydd helaethaf posibl o'r data sydd yn bodoli eisoes ynghylch capasiti sgiliau'r gweithlu (gallu yn y Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg), a (iii) ymdrin â'r bylchau data a thystiolaeth sydd wedi eu hamlygu yn y gwerthusiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawnach o gyfraniad y Cynllun i ganlyniadau tymor hwy.

Llyfryddiaeth

Dateb (2007) *Evaluation of the NPTP and Sabbaticals Scheme*. Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru. Heb ei gyhoeddi.

Llywodraeth Cymru (2010) [Gwerthusiad o'r Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol Estynedig Beilot i Ymarferwyr](#)

Llywodraeth Cymru (2014) [Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012](#)

Llywodraeth Cymru (2015) [Dyfodol Llwyddiannus](#)

Llywodraeth Cymru (2017a) [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#)

Llywodraeth Cymru (2017b) [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Rhaglen Waith 2017-21](#)

Llywodraeth Cymru (2017c) [Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21](#)

Llywodraeth Cymru (2017d) [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-2021](#)

Llywodraeth Cymru (2018) [Cynllun Sabothol Yn Cyfrannu At Gael Miliwn O Siaradwyr Cymraeg](#)

Llywodraeth Cymru (2019a) [Tudalennau Hwb ar y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol](#)

Llywodraeth Cymru (2019b) [Tudalennau Hwb ar safonau proffesiynol](#)

Llywodraeth Cymru (2020a) [Canllawiau Cwricwlwm i Gymru](#)

Llywodraeth Cymru (2020b) [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Adroddiad Blynyddol 2018-19](#)

Atodiad A: Gwybodaeth am gyrsiau'r Cynllun Sabothol

Ffigur A.1: Crynodeb o gynnwys y cyrsiau

Cwrs	Disgrifiad
Cwrs Mynediad Amser llawn 5 wythnos	Cwrs amser llawn 5 wythnos o hyd ar gyfer cynorthwyr dosbarth sydd yn gweithio mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Nod y cwrs yw darparu'r eirfa a'r patrymau iaith sydd eu hangen ar y cyfranogwyr i'w galluogi i: • gynorthwyo'u cyd-weithwyr o athrawon i ddarparu'r Maes Dysgu a Phrofiad Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen; • cynorthwyo'u cyd-weithwyr o athrawon i addysgu'r Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2; • cyflwyno'r Gymraeg yn achlysurol ym mhob agwedd ar fywyd ysgol, boed yn y dosbarth, ar y buarth neu yn allgyrsiol.
Cwrs Sylfaen Amser llawn 11 wythnos	Cwrs amser llawn 11 wythnos o hyd yw hwn ar gyfer c ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Nod y cwrs yw: • addysgu gramadeg a geirfa'r iaith i ymarferwyr; • datblygu hyder yr ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol mewn ystod ehangach o gyd-destunau; • rhoi'r adnoddau iaith a'r hyder i ymarferwyr gyflwyno Cymraeg ail iaith i ddysgwyr hyd at o leiaf lefel 5 y Cwricwlwm Cenedlaethol; • paratoi ymarferwyr i gyflwyno rhai gwersi neu rannau o wersi pynciau eraill y cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg; • meithrin cywirdeb fel bod athrawon yn cynnig model iaith da i ddysgwyr; • rhannu arfer dda o ran addysgu Cymraeg ail iaith; • datblygu gwybodaeth yr athrawon o fethodoleg addysgu ail iaith; • ehangu gwybodaeth am adnoddau addas a datblygiadau diweddar eraill ym maes y Gymraeg gan feithrin arweinwyr pwnc blaengar; • cynhyrchu siaradwyr Cymraeg hyderus.
Cwrs Canolradd	Cwrs newydd ers 2018. Mae'r cwrs wedi'i anelu at ymarferwyr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
Cwrs Uwch Rhan amser	Mae model darparu yn amrywio, ond medru bod yn ddeuddydd yr wythnos am dymor. Anelir y cyrsiau Uwch at ymarferwyr sydd yn siaradwyr Cymraeg eisoes ac sydd am: • ymestyn eu sgiliau iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn cyd-destun proffesiynol. • atgyfnerthu a datblygu eu sgiliau iaith personol wrth addysgu, asesu ac ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol amrywiol; • datblygu eu gwybodaeth o fethodoleg addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; • bod yn hyderus i ymdrin â therminoleg eu pwnc yn effeithiol ac yn gywir; • datblygu hyder wrth wirio cywirdeb iaith disgyblion.
Cymraeg Mewn Blwyddyn Amser llawn Un flwyddyn	Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ieithyddol yr ymarferwyr er mwyn eu galluogi i ddatblygu'r modd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio a'i haddysgu yn eu hysgolion. Rhoddir pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ynghyd â rhoi cyfle i ymarferwyr weithio yn strategol er mwyn datblygu dwyieithrwydd yn eu hysgolion. Mae ymarferwyr yn paratoi adnoddau a chyflwyno gwersi trawsgwricwlaidd yn dilyn meysydd y cwricwlwm newydd ynghyd â datblygu sgiliau i allu asesu a chynnig adborth ieithyddol i ddisgyblion.

Ffynhonnell: Manyleb ar gyfer gwerthuso'r Cynllun Sabothol, gwefannau'r darparwyr hyfforddiant.

Ffigur A.2: Crynodeb o hanes y Cynllun Sabothol

Cyfnod Cytundebu	Pwy sy'n mynychu	Darparwr	Lefel	Nifer cyfranogwyr	Cyd-destun strategol y cyfnod
Rownd 1: Peilot 2005-2010	Athrawon a darlithwyr Addysg Bellach oedd eisoes â sgiliau Cymraeg	Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd. Ehangu tua diwedd y cyfnod i gynnwys Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Cynllun Grant)	Uwch (Peilota cyrsiau ar lefel Mynediad a Sylfaen ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Aberystwyth.	240	Datblygwyd y Cynllun Sabothol yn wreiddiol fel peilot yn 2005 er mwyn cyflawni amcan 'Iaith Pawb' (y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar y pryd) o gynyddu cyflenwad yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu a hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ystod o bynciau cyn- ac ôl-16.
Rownd 2: Sefydlwyd cytundebau newydd ar gyfer darparu cyrsiau yn y cyfnod 2011-2014	Athrawon, cynorthwyyr addysgu a darlithwyr addysg bellach	Prifysgol Bangor; Prifysgol Caerdydd; Prifysgol y Drindod Dewi Sant (Caffael)	Uwch, Mynediad Sylfaen	717	Yn Ebrill 2010 cyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Un o'i amcanion strategol oedd datblygu isadeiledd cenedlaethol a rhanbarthol i gyflwyno Datblygiad Proffesiynol Parhaus mewn methodolegau cyfrwng Cymraeg a sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr, er mwyn gwella safonau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg.
Rownd 3: Medi 2014 – 2017; ac ymestyn hyd at 2020	Athrawon a chynorthwyyr addysgu. Darlithwyr addysg bellach (hyd at 2017). Ers 2017 mae'r ddarpariaeth i ddarlithwyr addysg bellach drwy gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Prifysgol Bangor (darparu cyrsiau yn ardal GWE); Prifysgol Caerdydd (darparu cyrsiau yn ardal GCA a Chonsortium Canolbarth y De); Prifysgol y Drindod Dewi Sant (darparu cyrsiau yn ardal ERW; Cytundeb rhannu arfer da; cytundeb darparu adnoddau);		Medi 2013 hyd Gorffennaf 2018 roedd 952 o gyfranogwyr	<i>Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010</i> dal yn weithredol. Cyhoeddwyd <i>Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21</i> ym mis Rhagfyr 2017 yn gosod cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a Chymraeg dros y pedair blynedd, yn unol â'r weledigaeth yn <i>Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl</i> , Mae cynllunio a datblygu'r gweithlu yn un o amcanion y Cynllun, a cheir cyfres o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r maes.
Cymraeg Mewn Blwyddyn: blwyddyn academiaidd 2017 ymlaen.	Athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	2017/18: Prifysgol Bangor (cwrs yn Rhuthun); Prifysgol Caerdydd (Caerdydd); Prifysgol y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin). 2018/19 a 2019/20: Prifysgol Bangor (Rhuthun); Prifysgol Caerdydd (Caerdydd); Prifysgol y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin ac Abertawe).	Cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn	2017/18: 36 2018/19: 68 2019/20: 73	

Atodiad B: Canllawiau Holi

Canllaw holi: ymarferwyr

Canllaw holi: penaethiaid/uwch dîm

Canllaw holi: Llywodraeth Cymru – tîm Sabothol

Canllaw holi: Llywodraeth Cymru - rôl anuniongyrchol/ strategol

Canllaw holi: swyddogion rhanbarthol

Canllaw holi: darparwyr hyfforddiant

Canllaw i ymarferwyr

Nodiadau i'r ymchwilydd:

- Defnyddir y ' cwrs ' i gyfeirio at y Cynllun Sabothol ar lefel mynediad, sylfaen ac uwch, yn ogystal â Chymraeg mewn blwyddyn.
- Ar gyfer pob cwestiwn, dylai'r ymchwilydd holi am fanylion, enghreifftiau a 'r sail resymegol dros yr ymateb, fel y bo'n briodol.
- Lle bo'n briodol, ymchwilydd i ofyn ar ba sail y gwneir arsylwadau (e.e. arsylwadau o effaith /gwahaniaeth).

	Mynediad	Sylfaen	Uwch	CmB
Cefndir				
1. Rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau yn eich ysgol. <i>Cadarnhau rôl addysgu.</i> <i>Cadarnhau cyfrifoldebau ar lefel ysgol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r Gymraeg.</i>	✓			
2. Rhowch drosolwg o'ch lefel o brofiad gyda'r Gymraeg cyn mynychu'r cwrs. <i>A gawsoch chi unrhyw addysg ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg?</i> <i>A ydych wedi dilyn unrhyw gyrsiau Cymraeg o'r blaen?</i> <i>Sut byddech chi'n disgrifio eich lefel sgiliau iaith Gymraeg cyn mynychu'r cwrs? Promptio i ofyn am lefel o sgiliau Cymraeg e.e. mynediad, sylfaen, canolradd ac ati.</i> <i>Beth – os o gwbl – oeddech chi'n ei gyflwyno cyn mynychu'r cwrs o ran addysgu'r Gymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?</i>	✓			
Ymgysylltiad cychwynnol â'r cwrs				
3. Esboniwch sut y daethoch i fynychu'r cwrs. <i>Sut a phryd y clywsoch chi gyntaf am y cwrs?</i> <i>Sut wnaethpwyd y penderfyniad ynghylch pwy o'ch ysgol chi ddylai fynychu'r cwrs?</i> <i>Beth oedd eich dros wneud cais? Promptio i holi am gymhelliant personol a dylanwadau allanol.</i>	✓			
4. A roddwyd unrhyw gymorth a/neu wybodaeth i chi cyn i chi fynychu'r cwrs? <i>Pwy ddarparodd y cymorth a/neu'r wybodaeth hon?</i> <i>Disgrifiwch y cymorth a/neu'r wybodaeth a gawsoch.</i> <i>A oedd y cymorth a/neu'r wybodaeth hon yn ddigonol i'ch paratoi ar gyfer dechrau'r cwrs?</i>	✓			
Cyflwyno'r cwrs				
5. Beth yw eich barn am strwythur y cwrs? <i>Hyd</i> <i>Dwysedd</i>	✓			

<i>Lleoliad</i>				
6. Beth yw eich barn ar gynnwys y cwrs? <i>Perthnasedd i'ch rôl yn yr ysgol</i> <i>Y cydbwysedd ar y cwrs rhwng methodolegau addysgu a gwella eich sgiliau iaith</i> <i>Perthnasedd i ofynion y cwrwllwm</i> <i>Unrhyw fylchau o ran cynnwys</i>	✓			
7. A ddarparwyd adnoddau ar eich cyfer a/neu a wnaethoch chi ddatblygu adnoddau i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y cwrs? <i>Disgrifiwch yr adnoddau hyn a sut rydych wedi'u defnyddio.</i>	✓			
8. Beth yw eich barn chi am addysgu'r cwrs? <i>Ansawdd yr addysgu</i> <i>Cydbwysedd rhwng ymarferion ymarferol e.e. chwarae rôl, meicro-wersi a'r ochr theori.</i> <i>Pa mor ddiddorol?</i> <i>Cyfathrebu â'r hyfforddwr.</i>	✓			
9. Beth yw eich barn ar sut y cafodd eich cynnydd ei asesu yn ystod y cwrs? <i>Rhowch drosolwg o'r broses asesu.</i> <i>Dwysedd</i> <i>Priodoldeb</i>	✓			
Effaith y cwrs				
10. A wnaeth mynychu'r cwrs wneud gwahaniaeth i'ch sgiliau iaith Gymraeg? <i>Disgrifiwch os gwelwch yn dda.</i>	✓			
11. A wnaeth mynychu'r cwrs wneud gwahaniaeth i'ch hyder i ddefnyddio'r Gymraeg? <i>Disgrifiwch.</i>	✓			
<i>Hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich ysgol mewn amrywiaeth o gyd-destunau</i> <i>Hyder i gynnal sgysiau yn Gymraeg</i>	✓	✓	✓	✓
<i>Hyder i ddefnyddio iaith dechnegol sy'n ymwneud â'ch maes pwnc</i> <i>Hyder i wirio cywirdeb iaith disgyblion</i>		✓	✓	✓
<i>Hyder i fodlu sgiliau iaith Gymraeg i gydweithwyr a disgyblion.</i>	✓	✓	✓	✓
12. A wnaeth mynychu'r cwrs wneud gwahaniaeth i 'ch defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol? <i>Disgrifiwch.</i> <i>Cyflwyno Cymraeg achlysurol mewn cyd-destunau ysgol gwahanol</i> <i>Defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwrwllwm</i>	✓	✓	✓	✓

<i>Cyflwyno (neu gefnogi cyflwyno) elfennau iaith Gymraeg y cwricwlwm newydd mewn gwahanol gyfnodau allweddol</i> <i>Cyflwyno (neu gefnogi cyflwyno) elfennau o wersi drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>				
13. A wnaeth mynychu'r cwrs wneud gwahaniaeth i 'ch ymarfer addysgu? <i>Disgrifiwch.</i>	✓			
<i>Sgiliau a'r gallu i gefnogi addysgu Cymraeg yn eich ysgol</i>	✓			
<i>Sgiliau a'r gallu i ddysgu Cymraeg yn eich ysgol</i> <i>Sgiliau (a bod yn gyfarwydd â) methodolegau addysgu Cymraeg fel ail iaith</i> <i>Cywirdeb iaith, er mwyn gweithredu fel model iaith da ar gyfer disgyblion</i> <i>Sgiliau i asesu a rhoi adborth i ddisgyblion ar eu hiaith Gymraeg</i>		✓	✓	✓
<i>Gallu a'r hyder i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</i> <i>Atgyfnerthu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer asesu a chynnal gweithgareddau gweinyddol</i> <i>Gwybodaeth am strategaethau addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog</i>			✓	
14. A wnaeth mynychu'r cwrs wneud gwahaniaeth i gynllunio ac arwain ar gyfer y Gymraeg ar draws eich ysgol? <i>Disgrifiwch.</i>	✓			
<i>Dylanwad ar sut rydych chi a'ch ysgol yn cynllunio ar gyfer addysgu'r Gymraeg ar draws yr ysgol</i>	✓	✓		✓
<i>Ehangu gwybodaeth am adnoddau addas a methodolegau addysgu'r Gymraeg</i>		✓	✓	✓
<i>Eich rôl fel arweinydd ym maes pwnc y Gymraeg</i>		✓	✓	✓
<i>Gweithio'n strategol i ddatblygu dwyieithrwydd yn eich ysgol</i> <i>Paratoi adnoddau a chyflwyno gwersi trawsgwricwlaidd yn unol â'r meysydd cwricwlwm newydd.</i> <i>Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd (lle bo'n briodol).</i>		✓	✓	✓
15. A wnaeth mynychu'r cwrs wneud gwahaniaeth i ethos ac agwedd eich ysgol tuag at yr iaith Gymraeg? <i>Disgrifiwch.</i>	✓			
16. Yn gyffredinol, pa wahaniaeth y mae eich cyfranogiad chi yn y cwrs wedi'i wneud i'ch ysgol?	✓			

Cefnogaeth a chynlluniau ar ôl y cwrs				
17. Disgrifiwch eich wythnosau cyntaf wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl cwblhau'r cwrs.	✓			
18. A oedd cefnogaeth neu ddarpariaeth ddilynol ar gael i chi unwaith y gwnaethoch ddychwelyd i'r ysgol? Beth oedd natur y ddarpariaeth hon a phwy sy'n darparu? <i>Pa gymorth oedd ar gael o fewn eich ysgol?</i> <i>Pa gefnogaeth oedd ar gael yn y clwstwr?</i> <i>Pa gymorth oedd ar gael gan eich awdurdod lleol?</i> <i>Pa gymorth oedd ar gael gan eich consortiwm addysg rhanbarthol?</i> <i>A oedd y gefnogaeth hon yn addas a digonol?</i> <i>Erbyn hyn, pa gefnogaeth neu ddarpariaeth sydd ar gael i chi?</i>	✓			
19. A oes unrhyw gynlluniau neu strwythurau ar waith i chi rannu eich profiad a'ch gwybodaeth newydd â chydweithwyr? Disgrifiwch y cynlluniau neu'r strwythurau hyn. <i>O fewn eich ysgol</i> <i>O fewn clwstwr eich ysgol</i> <i>Ar lefel awdurdod lleol</i> <i>Ar lefel ranbarthol.</i> <i>A yw'r cynlluniau hyn yn addas ac yn ddigonol?</i>	✓			
Rhwysrau a gwelliannau angenrheidiol				
20. A ydych wedi wynebu unrhyw rwysrau o ran gallu defnyddio eich profiad a'ch sgiliau newydd ar gyfer addysgu a dysgu. Beth yw'r rhwysrau hyn? Sut maen nhw wedi cael eu goresgyn/ sut gellid eu goresgyn? <i>Rhwysrau o fewn yr ystafell ddosbarth</i> <i>Rhwysrau o fewn yr ysgol</i> <i>Rhwysrau ar lefel clwstwr neu ranbarthol</i>	✓			
21. A oes unrhyw welliannau i'r Cynllun Sabothol y byddech yn eu hawgrymu?	✓			
22. A oes unrhyw faterion pellach yr hoffech eu codi mewn perthynas â'r Cynllun Sabothol neu mewn perthynas â'r gwerthusiad?	✓			

Canllaw ar gyfer penaethiaid/Uwch dîm (mynediad, sylfaen a Chymraeg mewn blwyddyn)

Nodiadau i'r ymchwilwyr:

- Defnyddir y gair 'cwrs' i gyfeirio at y Cynllun Sabothol ar lefel mynediad, sylfaen ac uwch, yn ogystal â Chymraeg mewn blwyddyn.
- Ar gyfer pob cwestiwn, dylai'r ymchwilydd holi am fanylion, enghreifftiau a'r sail resymegol dros yr ymateb, fel y bo'n briodol.
- Lle bo'n briodol, yr ymchwilydd i ofyn ar ba sail y gwneir arsylwadau (e.e. arsylwadau o effaith, data).

Cefndir

- 1. Rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau yn eich ysgol.**
 - a. Cadarnhau'r rôl.
 - b. Cadarnhau cyfrifoldebau ar lefel ysgol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- 2. Rhowch drosolwg o ymgysylltiad eich ysgol â'r Cynllun Sabothol.**
 - a. Faint o athrawon sydd wedi dilyn y cyrsiau?
 - b. Dros faint o flynyddoedd?
 - c. Pa gyrsiau sydd wedi cael eu dilyn e.e. mynediad, sylfaen, Cymraeg mewn blwyddyn?
- 3. Beth yw'r prif ganlyniadau rydych chi'n gobeithio eu cyflawni trwy gysylltiad eich ysgol â'r Cynllun Sabothol?**
 - a. Gyda pha flaenoriaethau neu heriau y gallai'r Cynllun Sabothol eich helpu?

Cymryd rhan yn y Cynllun Sabothol

- 4. Sut ydych chi'n cael gwybodaeth am y cyfleoedd a gynigir drwy'r cynllun bob blwyddyn?**
 - a. Pwy sy'n darparu'r wybodaeth hon i chi?
 - b. Beth y'ch chi'n ei dderbyn?
 - c. A yw'r ysgol yn cael cynnig cyfleoedd y Cynllun Sabothol bob blwyddyn?
- 5. Pam wnaethoch chi benderfynu cymryd rhan yn y cynllun sabothol?**
- 6. Sut mae eich ysgol yn penderfynu pa athrawon neu gynorthwywyr (a faint ohonynt) sy'n addas ar gyfer mynychu cwrs?**
 - a. Pwy sy'n cymryd rhan (y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol) wrth wneud y penderfyniad hwn?
 - b. Pa feini prawf ydych chi'n eu defnyddio i benderfynu pa athrawon neu gynorthwywyr sy'n addas?
 - c. A wneir penderfyniadau ar sail tymor byr/o flwyddyn i flwyddyn, neu fel rhan o gynllun tymor hirach?
- 7. Ar ôl penderfynu cymryd rhan, pa wybodaeth a gafodd eich ysgol cyn i'r athro neu'r athrawes/cynorthwydd fynychu'r cwrs?**
 - a. Esboniwch.
 - b. Pwy ddarparodd y wybodaeth hon?

- c. A oedd y wybodaeth hon yn ddigonol (i) i chi ddeall yr hyn a ddisgwyd/beth oedd eich rôl chi fel ysgol a (ii) i'r unigolyn/unigolion ddeall yr hyn a ddisgwyd ganddynt?

8. Pa wybodaeth gafodd yr athrawon neu gynorthwyyr o'ch ysgol cyn mynychu'r cwrs?

- a. Pwy ddarparodd y wybodaeth hon?
- b. A oedd y wybodaeth hon yn ddigonol?

Ymgysylltu: ymgysylltu strategol

9. A ddefnyddir y Cynllun i gefnogi cynlluniau a/neu strategaethau ehangach yn yr ysgol, ac os felly, sut ac i ba raddau?

- a. Promptio - Cynllun gwella ysgol
- b. Datblygiad proffesiynol /cynllunio DPP staff
- c. Cynllunio'r Gymraeg
- d. Strategaethau ar gyfer ymateb i ofynion y cwricwlwm newydd

10. (Os na chafodd ei ateb eisoes) A oes trafodaethau a phenderfyniadau wedi'u gwneud am y Cynllun sy'n cynnwys eraill y tu allan i'r ysgol – e.e. gyda phartneriaid ar lefel clwstrwr, awdurdod lleol neu gonsortiwm, o ran,

- a. Dewis ymarferwyr i gymryd rhan
- b. Rhoi cymorth ar ôl mynychu'r cwrs
- c. Gwneud defnydd o sgiliau newydd ymarferwyr

Dylunio'r cyrsiau

11. Beth yw eich barn ar ddyluniad y cyrsiau?

- a. Promptio os oes angen ar hyd, dwyster, lefelau, cynnwys, hygyrchedd.

Effaith

Noder: ymchwilwyr i ofyn ar ba sail y gwneir arsylwadau (e.e. arsylwadau o effaith, data).

12. A yw mynychu'r cwrs/cyrsiau wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau iaith Gymraeg yr athrawon /cynorthwyyr?

13. A yw mynychu'r cwrs/cyrsiau wedi gwneud gwahaniaeth i hyder athrawon a chynorthwyyr addysgu i ddefnyddio'r Gymraeg?

14. A yw mynychu'r cwrs/cyrsiau wedi gwneud gwahaniaeth i ddefnydd athrawon a chynorthwyyr o'r Gymraeg o fewn yr ysgol?

- a. Cyflwyno Cymraeg achlysurol mewn cyd-destunau ysgol gwahanol.
- b. Defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm.
- c. Darparu (neu gefnogi cyflwyniad) elfennau iaith Gymraeg y cwricwlwm newydd mewn gwahanol gyfnodau allweddol.
- d. Cyflwyno (neu gefnogi cyflwyniad) elfennau o wersi drwy gyfrwng y Gymraeg.

15. A yw mynychu'r cwrs/cyrsiau wedi gwneud gwahaniaeth i arferion addysgu athrawon a chynorthwyyr.

- a. Y sgiliau a'r gallu i addysgu/cefnogi addysgu'r Gymraeg yn eich ysgol.
- b. Gwybodaeth o fethodolegau addysgu Cymraeg ail iaith.
- c. Dealltwriaeth o arfer dda mewn perthynas ag addysgu Cymraeg ail iaith.
- d. Dealltwriaeth o iaith gywir er mwyn gweithredu fel model iaith da ar gyfer disgyblion.
- e. Sgiliau ar gyfer asesu a rhoi adborth i ddisgyblion ar eu Cymraeg.

16. Oedd cyfranogiad yr ysgol yn y cynllun sabothol yn gwneud gwahaniaeth i gynllunio ac arwain ar gyfer y Gymraeg ar draws eich ysgol.

- a. Rolau a chyfrifoldebau athrawon a chynorthwyr.
- b. Effaith ar sut mae'r ysgol yn gynllunio ar gyfer addysgu Cymraeg ar draws yr ysgol.
- c. Ehangu gwybodaeth am adnoddau addas ac arfer da mewn methodolegau addysgu Cymraeg.
- d. Gweithio'n strategol i ddatblygu dwyieithrwydd yn eich ysgol.
- e. Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

17. A wnaeth cymryd rhan yn y Cynllun Sabothol wneud gwahaniaeth i ethos ac agwedd eich ysgol tuag at y Gymraeg?

18. Yn gyffredinol, pa wahaniaeth y mae cymryd rhan yn y Cynllun Sabothol wedi ei wneud i'ch ysgol chi?

- a. Faint o ddylanwad – os o gwbl – y gall athrawon a chynorthwyr sy'n mynychu'r cyrsiau ei gael yn eich ysgol?

Cefnogaeth a chynlluniau ar ôl y cwrs

19. A oes cymorth neu ddarpariaeth ddilynol ar gael i athrawon a chynorthwyr ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol? Beth yw natur y ddarpariaeth hon a phwy sy'n ei darparu?

- a. Pa gymorth sydd ar gael o fewn eich ysgol?
- b. Pa gymorth sydd ar gael yng nghlwstwr eich ysgol?
- c. Pa gymorth sydd ar gael gan eich awdurdod lleol?
- d. Pa gymorth sydd ar gael gan eich consortïwm addysg rhanbarthol?
- e. A yw'r cymorth hwn yn addas ac yn ddigonol?

20. A oes unrhyw gynlluniau yn eu lle ar gyfer athrawon a chynorthwyr addysgu sydd wedi mynychu cyrsiau i rannu profiad a gwybodaeth gyda chydweithwyr? Disgrifiwch y cynlluniau neu'r strwythurau hyn.

- a. O fewn eich ysgol.
- b. O fewn clwstwr eich ysgol.
- c. At ar lefel awdurdod lleol.
- d. Ar lefel ranbarthol.
- e. A yw'r cynlluniau hyn yn addas ac yn ddigonol?

21. A oes unrhyw gymorth ar gael i ysgolion sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun sabothol?

- a. Cymorth i ysgolion wneud y defnydd gorau o sgiliau newydd athrawon a chynorthwyr.
 - i. Disgrifiwch y gefnogaeth yma.
 - ii. Pwy sy'n darparu'r cymorth hwn?
 - iii. Beth yw eich barn ar y cymorth hwn?
- b. Cymorth i ysgolion i ddarparu ôl-ofal addas i athrawon a chynorthwyr addysgu sydd wedi mynychu cyrsiau.
 - i. Disgrifiwch y gefnogaeth yma.
 - ii. Pwy sy'n darparu'r cymorth hwn?
 - iii. Beth yw eich barn ar y cymorth hwn?

Rhwystrau a gwelliannau angenrheidiol

22. A yw'r ysgol wedi wynebu unrhyw rwystrau o ran gallu manteisio ar y cynllun? Beth yw'r rhwystrau hyn? Sut maen nhw wedi cael/sut gellid eu goresgyn?
- a. Promptio: holi am y rhwystrau ar lefelau gwahanol – ar lefel ymarferwr; ar lefel ysgol; a thu hwnt i'r ysgol, h.y. ar lefel clwstwr/awdurdod lleol/rhanbarthol.
23. A yw'r ysgol wedi wynebu unrhyw rwystrau o ran gallu manteisio ar unrhyw effeithiau sy'n deillio o bresenoldeb ymarferwyr yn y cynllun? Beth yw'r rhwystrau hyn? Sut maen nhw wedi cael/sut gellid eu goresgyn?
- a. Promptio: holi am y rhwystrau ar lefelau gwahanol – ar lefel ymarferwr; ar lefel ysgol; a thu hwnt i'r ysgol, h.y. ar lefel clwstwr/awdurdod lleol/rhanbarthol.
24. A oes unrhyw welliannau i'r Cynllun Sabothol y byddech yn eu hawgrymu?
25. A oes unrhyw faterion pellach yr hoffech eu codi mewn perthynas â'r Cynllun Sabothol neu mewn perthynas â'r gwerthusiad?

Canllaw ar gyfer cyfweiliadau cwmpasu: Swyddogion Llywodraeth Cymru – tîm y Cynllun Sabothol

Nodyn 1: Defnyddir 'Cynllun' yma i olygu y Cynllun Sabothol ar lefel mynediad, sylfaen ac uwch a'r cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn.

Nodyn 2: Lle bo'n briodol bydd angen gofyn beth yw sail y sylwadau (arsylwi, data monitro, ayb).

CEFNDIR

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl.
 - a. Cadarnhau teitl a rôl.
 - b. Prif gyfrifoldebau, gan gynnwys mewnbwn i ba raglenni/ cynlluniau eraill.
2. Esboniwch y cefndir tu ôl i ddatblygiad y *Cynllun Sabothol* – *cyrsgiau ar lefel mynediad/sylfaen ac uwch*, gan nodi, yn benodol:
 - a. Y sail damcaniaethol i'r Cynllun.
 - b. Beth mae'r Cynllun yn ceisio ei newid neu ei wella?
 - c. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r Cynllun yn adeiladu ar ymyrraeth flaenorol a/neu ymchwil yn y maes?
3. Esboniwch y cefndir tu ôl i ddatblygiad y *cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn*?
 - a. Pam bod y cwrs wedi ei sefydlu?
 - i. Beth mae'r cwrs yn ceisio ei newid neu ei wella?
 - ii. Beth oedd yr angen a'r rhesymeg dros ei sefydlu?
 - b. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r cwrs yn adeiladu ar ymyrraeth flaenorol a/neu ymchwil yn y maes?
 - c. Unrhyw ystyriaethau / heriau newydd wedi codi yn sgil ei gyflwyno?

DYLUNIAD

4. Beth oedd y broses ar gyfer cynllunio dyluniad a chwmpas y Cynllun?
 - a. Pwy (a pha bartneriaid) fu'n rhan o'r broses o gynllunio?
5. Beth yw nodweddion allweddol y Cynllun Sabothol?
6. Beth yw'r broses o gynllunio cynnwys y cyrsiau, a phwy sy'n arwain ar hynny?
7. Beth yw'r rhagdybiaethau sy'n sail i ddyluniad y Cynllun? (Nodyn - Er mwyn dechrau'r broses o lunio Theori Newid)
8. Beth yw cryfderau a gwendidau dyluniad y Cynllun yn eich barn chi?

RÔL STRATEGOL

9. Beth yw'r gydberthynas rhwng y Cynllun a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru? Yn benodol,
 - a. Beth yw cyfraniad disgwylidig y Cynllun hwn tuag at weledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr *iaith Gymraeg*?
 - b. Beth yw cyfraniad disgwylidig y Cynllun hwn tuag at weledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y *Gymraeg mewn addysg*?
 - c. Beth yw cyfraniad disgwylidig y Cynllun hwn tuag at weledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer *diwygiadau addysg / cwricwlwm*?
 - d. Beth yw cyfraniad disgwylidig y Cynllun hwn tuag at weledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer *darpariaeth datblygiad proffesiynol parhaus*?
10. Sut mae'r Cynllun yn cyd-fynd â'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac i'r trefniadau asesu yng Nghymru?
11. Ar lefel genedlaethol sut mae holl gyrsiau'r Cynllun Sabothol yn cael eu defnyddio'n strategol i greu newid yn y ddarpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Gymraeg mewn ysgolion?
 - a. Rhewch drosolwg (os yn hysbys) o sut mae ymarferwyr yn cael eu targedu?
 - b. Rhewch drosolwg (os yn hysbys) o'r gefnogaeth i ymarferwyr cyn ac ar ôl mynychu'r cyrsiau.
 - c. Rhewch drosolwg (os yn hysbys) o'r gweithdrefnau mewn lle i ymarferwyr rannu eu profiadau wedi iddynt gwblhau eu hyfforddiant.
12. Ydy'r Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol yn lleol ac yn rhanbarthol i gynllunio'r ddarpariaeth addysgol hyd y gwyddoch chi? Beth yw'r dystiolaeth am hyn?

GWEITHREDU / RÔL LLYWODRAETH CYMRU

13. Amlinellwch rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Cynllun.
 - a. Beth yw'r cydbwysedd rhwng rôl oruchwylio/rheoli a rôl weithredol Llywodraeth Cymru?
 - b. Esboniwch natur y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid gweithredu eraill, yn benodol (i) y darparwyr a (ii) y consortia.

14. Rhowch drosolwg o'r gwaith rheoli a gweinyddu sydd ynghlwm â'r cynllun mae LIC yn ei gyflawni.
 - a. A oes unrhyw agweddau penodol o weithrediad y Cynllun sy'n arbennig o heriol?
 - b. A oes unrhyw heriau wedi'u hadrodd gan bartneriaid eraill wrth weithredu'r Cynllun?
15. A oes unrhyw amrywiadau yn y ffordd y mae'r Cynllun yn cael ei weithredu mewn gwahanol rannau/rhanbarthau o Gymru a gan y gwahanol darparwyr hyfforddiant? Os oes, beth yw'r amrywiadau a beth yw'r rhesymau amdanynt?
16. Yn eich profiad chi o reoli gweithrediad y Cynllun, beth yw'r amodau a'r nodweddion sy'n dylanwadu ar allu partneriaid (darparwyr hyfforddiant, consortia, awdurdodau ac ysgolion) i weithredu'r Cynllun yn effeithiol?
17. Beth yw'r trefniadau monitro a sicrhau ansawdd ar gyfer y Cynllun? Gan bwy?

CYFRANIAD AT DDATBLYGIAD PROFFESIYNOL YMARFERWYR

18. Pa effaith y bwriedir y bydd y Cynllun Sabothol (ar y wahanol lefelau a Cymraeg mewn Blwyddyn) yn ei gael ar:
 - a. ddatblygiad sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu'r Gymraeg (a sut bydd modd adnabod yr effaith yn y tymor byr a thymor hirach?);
 - b. gallu a hyder ymarferwyr i ddefnyddio patrymau iaith yn gywir gyda disgyblion a gallu a hyder ymarferwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn benodol y cyrsiau uwch)
 - c. gwaith cynllunio mewn ysgolion a sut mae'r Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol i greu newid (a sut bydd modd adnabod yr effaith yn y tymor byr a thymor hirach?);
 - d. cynllunio rhanbarthol (h.y. sut mae'r Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol gan y consortia);
 - e. y defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm;
 - f. defnydd achlysurol o'r Gymraeg yn yr ysgol;
 - g. agwedd yr ysgol tuag at y Gymraeg.
19. Pa dystiolaeth / dangosyddion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i adrodd ar yr uchod (rhestr cwestiwn 18) ac ar ddeilliannau eraill y Cynllun?
 - a. Pwy sy'n gyfrifol am gasglu a chraffu ar y dystiolaeth?
 - b. Sut mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio?
 - c. A oes dulliau posibl o fireinio'r broses hon?
20. Pa ffactorau a pha amodau sydd yn cyfrannu at hwyluso neu rwystro effaith y Cynllun?

UNRHYW FATERION ERAILL

21. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi mewn perthynas â'r Cynllun neu mewn perthynas â'r gwerthusiad?

Canllaw ar gyfer cyfweiliadau cwmpasu: Swyddogion Llywodraeth Cymru – rôl anuniongyrchol/ strategol

Nodyn 1: Defnyddir 'Cynllun' yma i olygu y Cynllun Sabothol ar lefel mynediad, sylfaen ac uwch ac ar gyfer Cymraeg mewn Blwyddyn.

Nodyn 2: Lle bo'n briodol bydd angen gofyn beth yw sail y sylwadau (arsylwi, data monitro, ayb).

CEFNDIR

2. Rhowch drosolwg o'ch rôl.
 - a. Cadarnhau teitl a rôl.
 - b. Prif gyfrifoldebau, gan gynnwys mewnbwn i ba raglenni/ cynlluniau eraill.
3. Beth yw eich dealltwriaeth o'r Cynllun Sabothol – cyrsiau ar lefel mynediad/sylfaen ac uwch?
 - a. Beth mae'r Cynllun yn ceisio ei newid neu ei wella?
 - b. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r Cynllun yn adeiladu ar ymyrraeth flaenorol a/neu ymchwil yn y maes?
4. Beth yw eich dealltwriaeth o'r cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn yn benodol?
 - a. Pam bod y cwrs wedi ei sefydlu?
 - b. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r Cynllun yn adeiladu ar ymyrraeth flaenorol a/neu ymchwil yn y maes?
 - c. Unrhyw ystyriaethau / heriau newydd wedi codi yn sgil ei gyflwyno?
5. Amlinellwch rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Cynllun, a'ch rôl chi.

DYLUNIAD

6. Oeddech chi'n rhan o'r broses o gynllunio dyluniad a chwmpas y Cynllun?
 - a. Beth oedd y broses ar gyfer cynllunio dyluniad a chwmpas y Cynllun?
 - b. Pwy (a pha bartneriaid) fu'n rhan o'r broses o gynllunio?
7. Beth yw'r rhagdybiaethau sy'n sail i ddyluniad y Cynllun? (Nodyn - Er mwyn dechrau'r broses o lunio Theori Newid)
8. Beth yw cryfderau a gwendidau dyluniad y Cynllun yn eich barn chi?

RÔL STRATEGOL

9. Beth yw'r gydberthynas rhwng y Cynllun a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru? Yn benodol,
 - a. Beth yw cyfraniad disgwylidig y Cynllun hwn tuag at weledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer *yr iaith Gymraeg*?
 - b. Beth yw cyfraniad disgwylidig y Cynllun hwn tuag at weledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y *Gymraeg mewn addysg*?
 - c. Beth yw cyfraniad disgwylidig y Cynllun hwn tuag at weledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer *diwygiadau addysg / cwricwlwm*?

- d. Beth yw cyfraniad disgwylidig y Cynllun hyn tuag at weledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer *darpariaeth datblygiad proffesiynol parhaus*?
10. Sut mae'r Cynllun yn cyd-fynd â'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac i'r trefniadau asesu yng Nghymru?
11. Ar lefel genedlaethol sut mae holl gyrsiau'r Cynllun Sabothol yn cael eu defnyddio'n strategol i greu newid yn y ddarpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Gymraeg mewn ysgolion?

EFFAITH

12. Pa effaith y bwriedir y bydd y Cynllun Sabothol (ar y wahanol lefelau a Gymraeg mewn Blwyddyn) yn ei gael ar:
- a. ddatblygiad sgiliau Gymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu'r Gymraeg (a sut bydd modd i Lywodraeth Cymru (ac eraill megis y consortia ac ysgolion) adnabod yr effaith yn y tymor byr a thymor hirach?);
 - b. gallu a hyder ymarferwyr i ddefnyddio patrymau iaith yn gywir gyda disgyblion, a gallu a hyder ymarferwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn benodol y cyrsiau uwch)
 - c. cynllunio ysgolion a sut mae'r Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol i greu newid (a sut bydd modd adnabod yr effaith yn y tymor byr a thymor hirach?);
 - d. cynllunio rhanbarthol (h.y. sut mae'r Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol gan y consortia er mwyn datblygu sgiliau Gymraeg eu hymarferwyr);
 - e. y defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm;
 - f. defnydd achlysurol o'r Gymraeg yn yr ysgol;
 - g. agwedd yr ysgol tuag at y Gymraeg.
13. Ar sail eich dealltwriaeth chi o sut mae'r Cynllun yn cael ei weithredu, pa ffactorau a pha amodau sydd yn cyfrannu at hwyluso neu rwystro effaith y Cynllun?

UNRHYW FATERION ERAILL

14. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi mewn perthynas â'r Cynllun neu mewn perthynas â'r gwerthusiad?

Canllaw ar gyfer cyfweiliadau cwmpasu: Swyddogion Rhanbarthol

Nodyn 1: Defnyddir 'Cynllun' yma i olygu y Cynllun Sabothol ar lefel mynediad, sylfaen ac uwch a'r cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn.

Nodyn 2: Lle bo'n briodol bydd angen gofyn beth yw sail y sylwadau (arsylwi, data monitro, ayb).

CEFNDIR A CHYNLLUNIO

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl.
 - a. Cadarnhau teitl y swydd a safle o fewn strwythur y consortiwm.
 - b. Prif gyfrifoldebau, gan gynnwys pa raglenni/ cynlluniau.
 - c. Unrhyw swyddi/rolau blaenorol perthnasol.
2. Beth yw'r broses ar gyfer cynllunio i ddefnyddio'r *Cynllun Sabothol – cyrsiau ar lefel mynediad/sylfaen ac uwch* yn eich rhanbarth?
 - a. Pwy sy'n rhan o'r broses? Beth yw eu mewnbwn?
 - b. Beth yw natur y cyswllt rhwng swyddogion eich consortiwm chi a swyddogion Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses o gynllunio sut i weithredu'r Cynllun yn eich rhanbarth?
 - c. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r cwrs yn adeiladu ar ymyrraeth flaenorol neu gynlluniau eraill?
3. Esboniwch y cefndir tu ôl i ddatblygiad y cwrs *Cymraeg mewn Blwyddyn* yn eich rhanbarth.
 - a. Pwy sy'n rhan o'r broses? Beth yw eu mewnbwn?
 - b. Beth yw natur y cyswllt rhwng swyddogion eich consortiwm chi a swyddogion Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses o gynllunio sut i weithredu'r Cynllun yn eich rhanbarth?
 - c. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r cwrs yn adeiladu ar ymyrraeth flaenorol neu gynlluniau eraill?
 - d. Unrhyw ystyriaethau / heriau newydd wedi codi yn sgil ei gyflwyno?

CYNLLUNIO STRATEGOL

4. Beth yw'r gydberthynas rhwng y Cynllun a chynlluniau / rhaglenni / darpariaethau eraill ar lefel ysgol, awdurdod a chonsortiwm? (ee. Cynlluniau Gwella Ysgol, addysg gychwynnol i athrawon; datblygiadau Cwricwlwm i Gymru, strategaethau sirol a rhanbarthol; cyrsiau eraill e.e. Cymraeg i oedolion).
 - a. A yw'r Cynllun yn cyfoethogi neu'n ychwanegu gwerth at gynlluniau strategol eraill, yn eich barn chi? Os ydynt, ym mha ffordd? Os nad ydynt, pam?
 - b. A yw'r consortia /ALI yn cynllunio darpariaethau eraill ac yn blaenoriaethu pa ymarferwyr ddylai gael mynediad i'r darpariaethau hyn er mwyn ychwanegu gwerth / osgoi dyblygu gyda'r Cynllun Sabothol?
5. Beth yw cyfraniad y Cynllun at gynlluniau a strategaethau y consortiwm (e.e. y cynllun busnes; gofyn am gopi os nad ar y we).

6. Ar lefel rhanbarthol sut mae holl gyrsiau'r Cynllun Sabothol yn cael eu defnyddio'n strategol i greu newid yn y ddarpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.

GWEITHREDU'R CYNLLUN

[Trafod fesul Cynllun, os yn briodol]

7. Rhowch drosolwg o'r model o weithredu'r Cynllun yn eich rhanbarth.
- Nifer yr ymarferwyr (ac ysgolion) sy'n cymryd rhan.
 - Beth yw'r broses o ran penderfynu pa ymarferwyr sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant? Pwy sy'n penderfynu, a beth yw'r meini prawf?
 - Beth yw rôl (i) awdurdodau lleol a (ii) ysgolion wrth weithredu'r Cynllun?
 - Ydy'r consortia / ALI yn rhoi mewnbyn uniongyrchol i'r cyrsiau? Beth yw natur y mewnbyn?
 - Sut y daw ysgol/ymarferwyr i wybod am y Cynllun? / Sut ydych yn cyfathrebu amcanion y Cynllun?
 - Pa arweiniad, hyfforddiant neu ganllawiau sydd yn cael eu darparu gan y consortiwm ynglŷn â'r Cynllun Sabothol?
 - Sut, ac i ba raddau, mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth cyn mynychu'r cyrsiau? Pwy sydd yn darparu'r gefnogaeth a beth yw natur y ddarpariaeth?
 - Sut, ac i ba raddau, mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth (i) yn ystod yr hyfforddiant a (ii) ar ôl dychwelyd i'w hysgolion i roi eu sgiliau ar waith. Beth yw natur y ddarpariaeth hon a phwy sy'n ei darparu?
 - Oes gweithdrefnau mewn lle i ymarferwyr rannu eu profiadau yn ehangach wedi iddynt gwblhau eu hyfforddiant? Sut mae hyn yn cael ei weithredu?
 - Esboniad o unrhyw amrywiaethau rhwng ysgolion / clystyrau. Yn eich tyb chi, beth yw'r eglurhad dros yr amrywiaethau?
 - A oes rhai ysgolion/ymarferwyr yn dewis peidio cymryd rhan? Beth yw'r rhesymau am hyn yn eich barn chi?
 - Esboniwch natur y cyswllt rhwng y consortiwm a (i) Llywodraeth Cymru (ii) darparwyr hyfforddiant (iii) awdurdodau lleol (iv) consortia eraill.
 - Gyda pha rhanddeiliaid eraill ydych chi'n gweithio fel rheol? Beth yw natur y cyswllt a'r cydweithio?
8. Beth yw cryfderau a gwendidau dyluniad y Cynllun yn eich barn chi?
- A oes unrhyw agweddau penodol o weithrediad y Cynllun sy'n arbennig o lwyddiannus?
 - A oes unrhyw agweddau penodol o weithrediad y Cynllun sy'n arbennig o heriol?
 - A oes unrhyw heriau wedi'u hadrodd gan eraill (e.e. ymarferwyr, ysgolion) wrth weithredu'r Cynllun?
 - Ydy'r heriau hyn wedi cael sylw? Sut a gan bwy? A oes unrhyw ddatrysiadau wedi eu hystyried / eu rhoi ar waith?
9. Yn eich profiad chi o reoli gweithrediad y Cynllun, beth yw'r amodau a'r nodweddion sy'n dylanwadu ar allu partneriaid (darparwyr hyfforddiant, awdurdodau ac ysgolion) i weithredu'r Cynllun yn effeithiol?
10. Beth yw'r trefniadau monitro a sicrhau ansawdd sydd mewn lle?

EFFAITH

11. Pa effaith y bwriedir y bydd y Cynllun Sabothol (gan gynnwys Cymraeg mewn Blwyddyn) yn ei gael ar:
 - a. ddatblygiad sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu'r Gymraeg (a sut bydd modd adnabod yr effaith yn y tymor byr a thymor hirach?);
 - b. gallu a hyder ymarferwyr i ddefnyddio patrymau iaith yn gywir gyda disgyblion, a gallu a hyder ymarferwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn benodol y cyrsiau uwch);
 - c. cynllunio'r ddarpariaeth o fewn ysgolion a sut mae'r Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol i greu newid (a sut bydd modd adnabod yr effaith yn y tymor byr a thymor hirach?);
 - d. cynllunio rhanbarthol (h.y. sut mae'r Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol gan y consortia);
 - e. y defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm;
 - f. defnydd achlysurol o'r Gymraeg yn yr ysgol;
 - g. agwedd yr ysgol tuag at y Gymraeg.
12. Pa dystiolaeth / dangosyddion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i adrodd ar yr uchod (rhestr cwestiynau uchod) ac ar ddeilliannau eraill y Cynllun? Pwy sy'n gyfrifol am gasglu a chraffu ar y dystiolaeth? A oes dulliau posibl o fireinio'r broses hon?
13. Pa ffactorau a pha amodau sydd yn cyfrannu at hwyluso neu rwystro effaith y Cynllun?

UNRHYW FATERION ERAILL

14. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi mewn perthynas â'r Cynllun neu mewn perthynas â'r gwerthusiad?

Canllaw ar gyfer darparwyr hyfforddiant

Nodyn 1: Defnyddir 'Cynllun' yma i olygu y Cynllun Sabothol ar lefel mynediad, sylfaen ac uwch a'r cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn.

Nodyn 2: Lle bo'n briodol bydd angen gofyn beth yw sail y sylwadau (arsylwi, data monitro, ayb).

Gorolwg a Chefndir

1. Rhewch drosolwg o'ch rôl.
 - a. Cadarnhau teitl a rôl.
 - b. Prif gyfrifoldebau, gan gynnwys mewnbwn i ba gyrsiau/ cynlluniau eraill.
2. Esboniwch sut y daethoch i gynnig *Cynllun Sabothol – cyrsiau ar lefel mynediad/sylfaen ac uwch*, yn eich sefydliad gan nodi, yn benodol:
 - a. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r Cynllun yn adeiladu ar ymyrraeth flaenorol a/neu ymchwil yn y maes?
3. Esboniwch sut y daethoch i gynnig y *cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn*?
 - a. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'r cwrs yn adeiladu ar ymyrraeth flaenorol a/neu ymchwil yn y maes?
 - b. Unrhyw ystyriaethau / heriau newydd wedi codi yn sgil ei gyflwyno?

4. Rhowch grynodeb o'r ddarpariaeth yn eich sefydliad ar gyfer (i) Cynllun Sabothol – cyrsiau ar lefel mynediad/sylfaen ac uwch a (ii) Cymraeg mewn Blwyddyn?
- Cadarnhau pa lot yn y cyfnod cytundebu o Fedi 2014 ymlaen.
 - Cadarnhau ardal y ddarpariaeth.
 - Beth yw lleoliadau'r cyrsiau (pam y lleoliadau hyn).
 - Faint sydd yn dilyn y cyrsiau eleni, a faint sydd wedi dilyn y cyrsiau yn y blynnyddoedd diweddar.

Strwythur a chynnwys y cyrsiau

5. Rhowch grynodeb o'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan eich sefydliad chi:
- Beth yw strwythur y cyrsiau (holi am: hyd; faint o ddyddiau'r wythnos; oes dysgu o bell)
 - Oes mentoriaid / tiwtoriaid personol? Sut mae'r system mentoriaid / tiwtoriaid personol yn gweithio?.
 - Beth yw cynnwys y cyrsiau?
 - Beth yw natur y gwersi?
 - Beth yw natur yr ymarferion / gweithgareddau y mae angen i'r cyfranogwyr fod yn eu cwblhau
 - Oes ymweliadau yn cael eu cynnwys fel rhan o'r arlwy?
 - oes unrhyw tasgau yn cymryd lle tu allan i'r dosbarth?
 - Sut mae adnoddau ar gyfer y cyrsiau yn cael eu paratoi?
 - (Ar gyfer y cyrsiau uwch) – sut caiff y cyrsiau eu teilwra ar gyfer carfannau penodol o ymarferwyr? Oes addasu i wahanol lefelau sgiliau iaith? Oes addasu yn ôl faint o gymorth sydd angen?

Dylunio'r cyrsiau

6. Beth yw sail cynnwys y cyrsiau?
7. Ai'r un cynnwys sydd ar draws y darparwyr hyfforddiant?
- os oes gwahaniaeth yn y cynnwys, pwy sydd yn pennu'r cynnwys?
 - Ydych chi'n cydlynu / cyfathrebu gyda darparwyr eraill er sicrhau cysondeb?
8. Sut ydych chi fel darparwyr (neu ddylunwyr y cyrsiau) yn sicrhau bod y cyrsiau yn ymateb, a chynorthwyo ymarferwyr i ymateb, i ddiwygiadau i'r cwricwlwm ac i'r trefniadau asesu yng Nghymru?

Asesu a chymedroli

9. Beth sy'n cael ei asesu fel rhan o'r cyrsiau?
10. Pa gyrsiau sydd wedi cael eu hachredu, a gan bwy?
- Ydy'r cyfranogwyr yng weld gwerth derbyn achrediad am eu Dysgu?
11. Beth yw'r broses gymedroli?
- Ydy hwn yn broses ddefnyddiol? Ydy'ch chi'n gweithredu ar unrhyw adborth a dderbynnir?

Cyswllt gyda'r ymarferwyr

12. Oes gennych fewnbwn i'r broses ymgeisio ar gyfer ymarferwyr? Ydych chi'n gweld eu ffurflenni cais? Pryd?
 - a. O'ch profiad chi, i ba raddau mae ymarferwyr yn cael eu targedu i fanteisio ar y cyrsiau?
 - b. Sut mae'r targedu hyn yn digwydd? Pwy sydd yn arwain ac yn cyflawni'r broses?
 - c. A yw'r dull hwn o dargedu yn effeithiol yn eich barn chi?
13. Sut ac i ba raddau ydych chi fel sefydliad yn darparu gwybodaeth i, neu yn cefnogi, ymarferwyr cyn iddynt fynychu'r cyrsiau ac ar ôl iddynt ddychwelyd i'w hysgolion? Beth yw natur y gefnogaeth/gwybodaeth?
 - a. Yn ddelfrydol, beth yn ychwanegol fydddech chi am ei ddarparu fel cefnogaeth/gwybodaeth?
 - b. A ddylai unrhyw un arall fod yn darparu cefnogaeth/gwybodaeth i'r ymarferwyr? Sut ddylai hyn weithio?
14. A oes gweithdrefnau mewn lle gennych chi i ymarferwyr:
 - a. Rannu eu profiadau er mwyn lledaenu arferion da / technegau addysgu gydag ymarferwyr eraill wedi iddynt gwblhau eu hyfforddiant? Sut mae hyn yn cael ei weithredu?
 - b. Ymwneud â rhwydweithiau er mwyn trafod heriau a llwyddiannau addysgu, profiadau o'r cyrsiau, arferion da? Sut mae hyn yn cael ei weithredu?
15. Ydych chi'n casglu barn ar y cyrsiau / adborth gan ymarferwyr yn ystod ac ar ôl y cwrs? Adborth/barn ar beth? Ar sail y dystiolaeth sydd yn dod o'r adborth hwn, a yw'r profiad o fynychu'r cwrs yn / wedi bod yn gadarnhaol i'r ymarferwyr?
 - a. Beth arall ydych chi wedi ei ddysgu o'u hadborth?
 - b. Ydych chi wedi newid eich darpariaeth o ganlyniad i'r adborth - beth y'ch chi wedi newid?
 - c. Oes modd i chi rannu crynodeb /canlyniadau gyda ni?

Rôl Strategol

16. I ba raddau mae'r Cynllun yn cyd-fynd â, neu'n ychwanegu gwerth at, gyfleoedd dysgu Cymraeg eraill sydd ar gael i ymarferwyr ?
17. I ba raddau mae'r Cynllun yn cyd-fynd â, neu'n ychwanegu gwerth at y dysgu proffesiynol sydd ar gael i ymarferwyr?
 - a. Sut mae'r Cynllun yn cyd-fynd â'r 'pecyn' o ddysgu proffesiynol rhanbarthol / cenedlaethol sydd ar gael.
18. Yn eich profiad chi o ddarparu cyrsiau, beth yw'r amodau a'r nodweddion sy'n dylanwadu ar allu partneriaid (Llywodraeth Cymru, consortia, awdurdodau ac ysgolion) i weithredu'r Cynllun Sabothol yn effeithiol? Beth yw sail y sylwadau hyn?
19. Beth yw'r amodau a'r nodweddion sy'n dylanwadu ar y canlynol (os yn hysbys):
 - a. ddatblygiad sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu'r Gymraeg,
 - b. allu a hyder ymarferwyr i ddefnyddio patrymau iaith yn gywir gyda disgyblion,
 - c. gynllunio ysgolion a sut mae'r Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol i greu newid
 - d. gynllunio rhanbarthol,
 - e. y defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm,

- f. defnydd achlysurol o'r Gymraeg yn yr ysgol,
- g. agwedd yr ysgol tuag at y Gymraeg?

UNRHYW FATERION ERAILL

20. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi mewn perthynas â'r Cynllun neu mewn perthynas â'r gwerthusiad?